Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Ddrafft 2020-21

## Cyllideb i greu Cymru fwy llewyrchus, mwy cyfartal a gwyrdd

Rhagfyr 2019

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2019
WG39097 ISBN digidol 978-1-83933-270-8

## Tabl Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ii

Pennod 1: Y cyd-destun strategol 1

Pennod 2: Y cyd-destun ariannol ac economaidd 5

Pennod 3: Cyflawniadau allweddol 12

Pennod 4: Trefniadau cyllido 15

Pennod 5: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y gyllideb ddrafft 26

Pennod 6: Buddsoddi ym mlaenoriaethau ein Llywodraeth 28

Pennod 7: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru 52

Atodiad A: Cysoni dyraniadau'r gyllideb weinyddol 62

Atodiad B: Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn 63

Atodiad C: Asesiad Effaith Integredig Strategol 68

Atodiad D: Gwybodaeth dechnegol 102

Atodiad E: Cynllun Gwella'r Gyllideb 105

Atodiad F: Costau gweithredu deddfwriaeth 106

Atodiad F: Rhestr o dermau ariannol 112

# Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd

Heddiw, rwy'n cyhoeddi cynigion ein Cyllideb ar gyfer 2020-21, sef blwyddyn olaf tymor y Cynulliad hwn. Mae'r Gyllideb hon yn gwireddu'n haddewidion, ac yn ymrwymo cyllid newydd i gyflawni uchelgeisiau newydd i helpu i ddiogelu dyfodol ein planed. Mae ein cynigion yn sail i gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu, a’n haddewidion allweddol i bobl Cymru ynglŷn â'n Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG), tai fforddiadwy, prentisiaethau i bobl o bob oed, gofal plant, cymorth i fusnesau bach, a llawer mwy.

Paratowyd y Gyllideb hon cyn canlyniad yr etholiad cyffredinol ac rydym yn cyflwyno'r cynlluniau hyn mewn cyfnod heriol ac ansicr iawn yn ariannol. Nid ydym yn gwybod beth fydd natur ein hymadawiad â'r UE, ac nid ydym yn gwybod beth fydd ein cyllideb ar ôl mis Mawrth 2021 - er yr addewid y byddai Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn cael ei gynnal eleni - ac nid ydym wedi cael sicrwydd o ran y cyllid a ddaw yn lle cyllid yr UE. Hefyd, mae’n bosibl y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Cyllideb cyn inni gael cyfle i gwblhau ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2020-21 a gallai hyn gael effaith ar yr adnoddau sydd ar gael y flwyddyn nesaf.

Er bod y Cylch Gwario ym mis Medi wedi darparu cynnydd i'n cyllid mewn termau real, mae'n bwysig nodi y bydd y cynnydd yn dal i olygu bod ein Cyllideb ar gyfer 2020-21 yn parhau i fod £300m yn is mewn termau real o'i gymharu â 2010-11.

Er gwaethaf yr heriau hyn, rwy'n falch bod y Gyllideb hon, sy'n amlinellu ein cynlluniau ar gyfer gwariant o dros £18bn y flwyddyn nesaf, yn rhoi gwerthoedd craidd y Llywodraeth, sef tegwch a chydraddoldeb, ar waith. Yr unig ffordd o gyflawni cydraddoldeb yw gyda sylfaen o wasanaethau cyhoeddus cynaliadwy sy'n gwbl hygyrch, yn ymateb i anghenion pawb, ac yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn sicrhau bod cynnydd yn y cyllid ar gyfer pob un o’r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt, gan gynnwys ein GIG, ein hysgolion a llywodraeth leol.

Rydym yn buddsoddi cynnydd uwchlaw lefel chwyddiant o fwy na £400m mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddod â chyfanswm ein buddsoddiad y flwyddyn nesaf i dros £8.7bn; yn ogystal â bron i £4.5bn ar gyfer llywodraeth leol, gyda £200m ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol y flwyddyn nesaf. Drwy'r setliad llywodraeth leol a thrwy ein cyllideb addysg £1.8bn, rydym yn buddsoddi mewn system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol, gan gynnwys mwy na £200m o fuddsoddiad yn ein seilwaith addysgol.

Mae ein hymrwymiad i ddull mwy ataliol wedi ein harwain i ganolbwyntio paratoadau ein Cyllideb ar wyth maes blaenoriaeth trawsbynciol, sef y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, tai, cyflogadwyedd a sgiliau, gwell iechyd meddwl, datgarboneiddio, tlodi, a bioamrywiaeth. Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn integreiddio gweithgareddau ar draws y Llywodraeth yn y meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf yn yr hirdymor.

Dyma ein Cyllideb gyntaf ers inni ddatgan argyfwng hinsawdd ac mae'n darparu ar gyfer pecyn newydd o fwy na £140m o arian cyfalaf i gefnogi ein huchelgais i ddatgarboneiddio a diogelu ein hamgylchedd rhyfeddol. Mae hyn yn cynnwys

buddsoddiad mewn teithio llesol a fflyd o fysiau trydan, ffyrdd newydd o adeiladu tai, gwella ein safleoedd pwysicaf yn ecolegol a datblygu Coedwig Genedlaethol a fydd yn ymestyn hyd ein gwlad. Mae'r pecyn buddsoddi hwn yn gam nesaf pwysig ar ein taith i greu Cymru wyrddach.

Yn ystod tymor y Cynulliad hwn byddwn wedi buddsoddi £2bn mewn tai gan gydnabod pwysigrwydd tai o ansawdd i gefnogi cymunedau sy'n ffynnu. Yn 2020-21 rydym yn bwriadu dyrannu mwy na £175m o gyfalaf gan fynd â chyfanswm ein buddsoddiad mewn tai y flwyddyn nesaf i fwy na £400m.

Gan adeiladu ar gyfanswm buddsoddiadau o £1bn y flwyddyn nesaf rydym yn dyrannu £19m ychwanegol mewn pecyn o fesurau sydd wedi'u targedu yn benodol i helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed sy'n byw mewn tlodi yn ein cymunedau. Mae'r mesurau yn cynnwys cyllid newydd i ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, cyllid parhaus i fynd i'r afael â thlodi mislif, yn ogystal â darpariaeth estynedig ar gyfer y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol.

Rydym yn darparu pecyn o fuddsoddiadau gwerth mwy na £120m i gefnogi Cymru ffyniannus. Gyda ffocws ar wella cyflogadwyedd a sgiliau, rwy'n dyrannu £9m ychwanegol i gefnogi prentisiaethau gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn 2020-21 i fwy na £97m. Rydym yn darparu cyllid ychwanegol i weithredu i newid agweddau cyflogwyr, lleihau stigma a rhoi gwell cefnogaeth i gyflogwyr i recriwtio a chadw pobl anabl. Rydym yn buddsoddi £219m mewn teithio cynaliadwy a hynny ochr yn ochr â mwy na £700m mewn seilwaith ym meysydd digidol, ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr.

O fis Ebrill eleni, mae tua £5bn o refeniw trethi lleol a datganoledig yn cael ei godi yng Nghymru, ac yn aros yng Nghymru. Mae hyn yn ein galluogi i ystyried sut gall ein polisïau trethi gyfrannu at ein dyheadau ehangach ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Ni fyddwn yn codi cyfraddau Treth Incwm Cymru yn 2020. Yn y cam hwn o broses y gyllideb nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir, ond byddaf yn parhau i'w hadolygu. Bydd cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cynyddu yn unol â chwyddiant.

Rwyf wedi ymrwymo i ddefnyddio proses y gyllideb i gymell gwelliannau hirdymor, a pharhau i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan adeiladu ar y teclyn gwirio a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn cyhoeddi Cynllun Gwella’r Gyllideb am y tro cyntaf sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu newid a gwella'r modd yr ydym yn dyrannu cyllid.

Er bod y cyni parhaus ar lefel y DU yn tanseilio ein gallu i gyflawni'r buddsoddiad y mae ein gwlad yn ei haeddu, rwy'n falch o gyflwyno Cyllideb sy'n parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac yn cefnogi ein huchelgais am Gymru fwy cyfartal, ffyniannus a gwyrdd.

# Pennod 1: Y cyd-destun strategol

## Trosolwg

1.01 Heddiw, mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei Chyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21, sef pedwaredd gyllideb a chyllideb olaf y Pumed Cynulliad. Mae'r Gyllideb yn nodi cynlluniau gwario refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, y flwyddyn olaf y mae gennym setliad ar ei chyfer.

1.02 Drwy gydol ein paratoadau ar gyfer y gyllideb eleni rydym wedi wynebu ansicrwydd a heriau sylweddol  Ym mis Mawrth, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei chynlluniau i gynnal Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant amlflwyddyn.

1.03 Fodd bynnag, yn lle Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, cynhaliodd Llywodraeth y DU Gylch Gwario ‘llwybr cyflym’ ym mis Medi, yn nodi ei chynlluniau gwario ar gyfer 2020-21 yn unig.

1.04 Er ein bod wedi gobeithio bod mewn sefyllfa i ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'n partneriaid, y cyfan yr ydym yn gallu ei wneud bellach yw gosod cynlluniau refeniw ar gyfer blwyddyn arall a gwneud dyraniadau ychwanegol i gynlluniau cyfalaf dangosol a gyhoeddwyd gynt ar gyfer 2020-21.

1.05 Mae llawer o ansicrwydd o hyd. Yn ogystal â'r sefyllfa bresennol o ran Brexit, mae'r diffyg eglurder ynghylch rhagolygon cyllidol y DU yn creu her ddigynsail inni wrth ddatblygu cynlluniau gwario ar gyfer y dyfodol.

1.06 Yn y cyfnod ansicr hwn, rydym wedi mynd ati i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael trwy barhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, gan gefnogi hefyd ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru fwy cyfartal, llewyrchus a gwyrdd.

1.07 Rydym yn wynebu cyfleoedd a heriau poblogaeth sy'n newid ac yn heneiddio a'r datblygiadau mewn technoleg sy'n effeithio ar ddyfodol ein heconomi a'r sgiliau cysylltiedig y mae eu hangen. Rydym hefyd yn parhau i wynebu'r angen i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb yn ein cymdeithas a'r ymateb brys sydd ei angen i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd a’r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Yn erbyn y cefndir hwn yr ydym wedi datblygu ein cynlluniau ar gyfer 2020-21.

## Goblygiadau Cylch Gwario Llywodraeth y DU

1.08 Darparodd Cylch Gwario'r DU Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer Cymru yn 2020-21, yn pennu ein cyllidebau refeniw am y tro cyntaf, a oedd 2.3 y cant yn uwch mewn termau real na llinell sylfaen 2019-20.

1.09 Roedd y Cylch Gwario hefyd yn cynnwys cynnydd o £18m i'n cyllideb gyfalaf a oedd eisoes wedi'i phennu ar gyfer 2020-21. Bydd ein cyllideb gyfalaf 2.4 y cant yn uwch mewn termau real nag yn 2019-20.

1.10 Roedd Cylch Gwario'r DU yn seiliedig ar ragolygon mis Mawrth a pholisi cyllidol gweinyddiaeth flaenorol. Heb ragolygon cyllidol newydd, nid yw'n glir sut y caiff y cyhoeddiadau gwario hyn eu hariannu. Mae hynny'n cyflwyno elfen ychwanegol o ansicrwydd i ni wrth inni gynllunio ein cyllideb ein hunain gyfer y flwyddyn nesaf.

1.11 Nid yw'n glir a fydd y cynlluniau gwario a gyhoeddwyd yn gynaliadwy. Mae'n debygol y bydd Cyllideb nesaf y DU yn cael effaith sylweddol ar yr arian a fydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau ar gyfer Cyllideb Llywodraeth y DU yn glir ar hyn o bryd.

1.12 Penderfynir ar y goblygiadau cyllido ar gyfer ein cyllideb y tu hwnt i 2020-21 fel rhan o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant nesaf y DU. Fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ddiwedd Awst, mae Adolygiad Gwario Cynhwysfawr amlflwyddyn llawn wedi'i gynllunio ar gyfer 2020.

1.13 I cefnogi cynllunio ariannol y tu hwnt i eleni, mae adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, yn dadansoddi'r amcanestyniadau cyllidol tymor canolig a fydd yn helpu i gynllunio gwariant ar adnoddau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae manylion pellach y cyd-destun ariannol ac economaidd ar gyfer y gyllideb ar gael ym mhennod dau.


## Cyfrifoldebau cyllidol ac ariannu

1.14 Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei hariannu'n bennaf gan grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU. Er hynny, yn y pedair blynedd diwethaf mae datganoli pwerau treth - cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a datganoli ariannol Ardrethi Annomestig - wedi sicrhau bod rhyw 20 y cant o wariant Llywodraeth Cymru bellach yn cael ei ariannu o refeniw trethi.

1.15 Mae'r darlun ar y dudalen nesaf yn tanlinellu ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru.

1.16 Ceir gwybodaeth bellach am bolisi a refeniw trethi ym mhennod pedwar ac yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2019, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft hon.

1.17 Fel rhan o'r trefniadau sy'n cefnogi'r trethi datganoledig, cytunwyd ar y canlynol mewn fframwaith cyllidol i Lywodraeth Cymru: pwerau benthyca cyfalaf newydd, Cronfa Wrth Gefn Cymru i reoli cyllidebau ar draws blynyddoedd ariannol, ac addasiad i Fformiwla Barnett fel y mae'n gymwys i Gymru.




## Buddsoddi ym mlaenoriaethau'r llywodraeth

1.18 Mae'r Gyllideb hon yn sail i'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* a'r strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb* ac yn cyd-fynd â uchelgeisiau *Sosialaeth yr 21ain Ganrif* y Llywodraeth yma, sef sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus a gwyrdd trwy fuddsoddi'n strategol yn ein hwyth maes blaenoriaeth.

1.19 Dros dymor y Cynulliad hwn mae'r Llywodraeth wedi manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei haddewidion allweddol. Nodir manylion pellach am flaenoriaethu adnoddau i gefnogi ein blaenoriaethau allweddol ym mhennod chwech.

1.20 Wrth bennu cynlluniau ar gyfer 2020-21, mae ein paratoadau wedi'u llywio gan wyth maes trawsbynciol, sef y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, tai, cyflogadwyedd a sgiliau, gwell iechyd meddwl, datgarboneiddio, tlodi a bioamrywiaeth. Dyma'r meysydd y gallwn ddylanwadu arnynt fwyaf dros y tymor hwy.

1.21 Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt, gan gynnwys ein GIG, ysgolion a llywodraeth leol i gyd yn cael codiadau cyllid.

1.22 Blaenoriaeth drosfwaol yn y gyllideb newydd hon yw'r penderfyniadau gwario newydd y gallwn eu gwneud i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gennym ym mis Mawrth eleni. Yn unol â hynny rydym yn dyrannu cyllid ychwanegol o fwy na £140m i gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo

datgarboneiddio ac sy'n gwella ein bioamrywiaeth gyfoethog ymhellach. Mae'r buddsoddiad yn cydategu'r ymrwymiadau ehangach yr ydym yn eu gwneud o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys y dull gweithredu cynhwysfawr a nodir yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel.

1.23 Mae pennod chwech yn nodi sut yr ydym wedi cymryd camau pellach fel rhan o broses y gyllideb eleni i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sylfaenol sy'n wynebu ein gwlad ac i sicrhau bod buddsoddiadau newydd ar draws y llywodraeth yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

## Proses y gyllideb

1.24 Oherwydd y ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu ar amseriad y gyllideb eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau eithriadol ar waith o ran proses y gyllideb, a hynny gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi gyda'i gilydd y cynlluniau gwario strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf, a chynigion ar drethiant a benthyca, yn ogystal â chynigion portffolio manwl y gyllideb.

1.25 Ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y cynlluniau hyn, byddwn yn cyhoeddi Cyllideb Derfynol 2020-21 ar 25 Chwefror.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Chynllun Gwella'r Gyllideb

1.26 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn parhau i ddarparu'r sylfaen sy'n arwain ein proses gyllidebol. Er gwaethaf yr heriau a'r ansicrwydd digynsail sydd wedi effeithio ar ein cynlluniau, mae ein paratoadau ar gyfer y gyllideb yn canolbwyntio o hyd ar fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd gennym. Mae pennod pump yn nodi sut y mae'r Ddeddf wedi llywio ein cyllideb.

1.27 Gan adeiladu ar y teclyn ar gyfer gwirio hynt y gyllideb a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb, sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu newid a gwella'r broses gyllidebol dros y blynyddoedd nesaf. Mae hwn wedi'i gyhoeddi fel atodiad E ochr yn ochr â dogfennau'r Gyllideb ddrafft yn: https://llyw.cymru/cynllun-gwella-y-gyllideb

## Cytundebau'r gyllideb

1.28 Yn 2017, gwnaeth Llywodraeth Cymru gytundeb dwy flynedd â Phlaid Cymru ar nifer o fesurau penodol lle mae gennym uchelgeisiau a blaenoriaethau polisi cyffredin. Roedd y cytundeb hwn yn cynnwys y ddwy flynedd 2018-19 a 2019-20.


1.29 I gydnabod y llu o flaenoriaethau cyffredin a nodir yn y cytundeb hwn, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn nifer o fesurau wrth bennu ein cynlluniau ar gyfer 2020-21.

# Pennod 2: Y cyd-destun ariannol ac economaidd

## Effaith cyni ar Gyllideb Cymru

2.01 Gwnaed toriadau llym mewn termau real i gyllideb Cymru yn hanner cyntaf y degawd hwn. Cafwyd rhywfaint o gynnydd dros y blynyddoedd diwethaf, sef cynnydd a fydd yn parhau yn 2020-21 yn dilyn Cylch Gwario Llywodraeth y DU ym mis Medi. Fodd bynnag, bydd Cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2020-21 yn dal i fod yn is nag yr oedd ddegawd yn ôl, fel y dangosir yn ffigur un isod.


**Ffigur un: Cyllideb Cymru* mewn termau real, prisiau 2018-19 (£m)**




* ac eithrio trafodiadau ariannol ad-daladwy

2.02 Mae ffigur dau ar y dudalen ganlynol yn dangos, pe bai gwariant ar wasanaethau cyhoeddus wedi parhau i gynyddu o leiaf yn unol â’r twf yn y GDP ers 2010-11, y byddai gan Lywodraeth Cymru bron £4bn yn ychwanegol i’w wario ar wasanaethau cyhoeddus yn 2020-21. Mae ffigur dau hefyd yn dangos pe bai'r Gyllideb wedi cynyddu yn unol â'r duedd hirdymor o ran gwariant cyhoeddus y byddai gan Lywodraeth Cymru tua £6bn yn ychwanegol i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus y flwyddyn nesaf.

**Ffigur dau: Sefyllfaoedd Cyllideb Llywodraeth Cymru, prisiau 2018-19 (£m)**




2.03 Mae cynlluniau adrannol y DU ar gyfer 2020-21 a nodwyd yn y Cylch Gwario ym mis Medi yn cynrychioli cynnydd sylweddol o ran lefel y gwariant tybiedig a nodwyd yn rhagolwg economaidd a chyllidol diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth eleni. Y tu hwnt i 2020-21 nid oes unrhyw gynlluniau pendant o ran gwariant cyhoeddus yn y DU i lywio barn ynghylch rhagolwg tymor canolig ar gyfer cyllid cyhoeddus.

## Cyd-destun cyllidol y DU

2.04 Er bod y Cylch Gwario un flwyddyn diweddar ar gyfer 2020-21 wedi cyhoeddi rhywfaint o gynnydd mewn gwariant o ddydd i ddydd, mae gwaith dadansoddi'r OBR yn dangos, yn dilyn degawd nas gwelwyd ei fath o'r blaen o doriadau real mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus, bod perfformiad yr economi ehangach yn allweddol o ran rhagolygon cyllidol y dyfodol. Prin y mae economi'r DU wedi tyfu ers dirwasgiad 2007, ac mae perfformiad wedi gwaethygu ymhellach ers y refferendwm ar ymadael â'r UE. Bydd penderfyniadau sydd i'w gwneud gan Lywodraeth newydd y DU ynghylch amseriad Brexit, a phan fath o Brexit a fydd, yn ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar berfformiad economaidd yn y dyfodol.

2.05 Mae rhagolygon cyllidebol tymor hwy yr OBR yn dangos bod cyllid cyhoeddus y DU yn anghynaliadwy o ran codi cyllid, oherwydd byddai cyflawni eu hamcanestyniadau canolog ar gyfer y galw am wasanaethau cyhoeddus heb gynyddu trethiant yn arwain at ddyled gyhoeddus gynyddol. Bydd faint o adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar

benderfyniadau gan Lywodraeth newydd y DU ynghylch lefelau trethiant a benthyca.

## Rhagolygon cyllidol tymor canolig Cymru

2.06 Fel yr amlygwyd yn adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft hon, mae rhagolygon cyllidol Cymru yn dibynnu, i ryw raddau, ar sefyllfa gyllidol Llywodraeth y DU, gan fod y sefyllfa honno yn penderfynu maint y grant bloc, ac maent hefyd yn dibynnu i raddau llai, ond sylweddol o hyd, ar y refeniw a godir o drethi datganoledig. Yn dilyn y Cylch Gwario un flwyddyn ym mis Medi eleni, bydd angen i Lywodraeth newydd y DU gynnal Cylch Gwario pellach neu Adolygiad o Wariant amlflwyddyn y flwyddyn nesaf. Ni wyddys beth fydd effaith hyn ar gyllideb Cymru, ac nid oes unrhyw sicrwydd o ran am ba hyd y bydd gennym setliad cadarn.


2.07 Roedd Llywodraeth flaenorol y DU wedi nodi cynlluniau tymor canolig ar gyfer gwariant ar iechyd ac ysgolion yn Lloegr, sef cynlluniau sy'n golygu cynnydd sylweddol mewn termau real dros y blynyddoedd nesaf. Bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynyddu yn unol â Fformiwla Barnett os yw'r cynlluniau hyn yn cael eu gweithredu. Fodd bynnag, heb wybod manylion y cynlluniau gwario ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus eraill sydd wedi'u datganoli i Gymru, nid yw'n bosibl dweud gydag unrhyw sicrwydd beth fydd y rhagolygon ar gyfer cyllideb gyfan Llywodraeth Cymru. Yn absenoldeb setliad cadarn y tu hwnt i 2020-21, gwaith dadansoddi'r OBR yn ei Ragolwg Economaidd a Chyllidol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth yw'r man cychwyn o ran asesu rhagolygon cyllidol tymor canolig.

2.08 Byddai defnyddio'r twf cyffredinol o ran DEL y DU a dybir gan yr OBR yn ei rhagolwg gwanwyn yn golygu y bydd cyllideb adnoddau Cymru yn cynyddu gan ychydig dros 1 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real dros y tair blynedd ar ôl 2020-21 (gweler y ffigur ar y dudalen ganlynol). Byddai hyn yn golygu twf sydd rywfaint yn arafach na'r hyn a welwyd yn 2019-20 a 2020-21, ond sy'n gyflymach na'r hyn a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

2.09 Mae sefyllfa bosibl o ran Brexit heb gytundeb wedi ei hamlinellu hefyd yn ffigur tri. Mae hyn yn tybio bod y cynlluniau presennol ar gyfer 2020-21 yn parhau, ond bod lleihad o 6 y cant mewn termau real yn 2021-22. Mae hyn yn unol ag asesiad Banc Lloegr o effeithiau ehangach y math gwaethaf posibl o Brexit anhrefnus, heb gytundeb, ar economi'r DU. Byddai'n golygu lleihad o rhwng £900m ac £1bn yn y gyllideb adnoddau bob blwyddyn.

2.10 Dros y tymor hwy (2023-24 i 2029-30) nid oes unrhyw sicrwydd, wrth gwrs, o ran sefyllfa gyllidol a pholisïau cyllidol Llywodraeth y DU yn y dyfodol, felly cyflwynir nifer o sefyllfaoedd posibl yn adroddiad y Prif Economegydd. Fodd bynnag, mae gwaith dadansoddi'r OBR yn awgrymu, hyd nes y gwyddys beth fydd y polisïau a gaiff eu mabwysiadu gan Lywodraeth newydd y DU, y byddai'n ddoeth tybio y bydd cyfnod estynedig o gyfyngiadau cyllidol. Byddai hyn yn angenrheidiol oni bai bod Llywodraeth y DU yn cynyddu'r trethiant a gymerir fel cyfran o GDP i lefel sy'n uwch o lawer na'i lefelau hanesyddol.

**Ffigur tri: Amcanestyniad tymor canolig ar gyfer cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real (£m, prisiau 2018-19)**




## Cyd-destun economaidd y DU

2.11 Mae ansicrwydd ynghylch Brexit yn pwyso o hyd ar y rhagolygon twf ar gyfer Cymru a'r DU gyfan. Os bydd Llywodraeth newydd y DU yn parhau â chynllun i ymadael â'r UE, bydd difrifoldeb effaith hynny yn dibynnu ar ba fath o Brexit a fydd, a hefyd ar faint o ddadleoli sy'n gysylltiedig â'r broses o ymadael. Mae ymadael â'r UE heb gytundeb masnach yn parhau i fod yn bosibilrwydd o hyd, a hyd yn oed pe bai'n bosibl osgoi hynny, mae'n debygol y bydd cyfnod estynedig o ansicrwydd wrth negodi a gweithredu trefniadau masnach newydd yn lleihau twf. Byddai Brexit "caled" yn cael effaith andwyol anghyfartal ar Gymru o gymharu â gweddill y DU.

2.12 Fel y nodwyd yn adroddiad y Prif Economegydd y llynedd, mae twf araf o ran cynhyrchiant dros y degawd diwethaf wedi arwain at braidd dim twf o ran cyflogau real ac incwm real pobl, ac mae hyn wedi cyfrannu at yr heriau a wynebir wrth ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Ni wyddys yn union beth yw'r rhesymau am y duedd hon, nas gwelwyd ei math o'r blaen yn hanes economeg modern, ond mae wedi cael effaith eithriadol o wael ar y DU. Os yw'r duedd yn parhau, gall arwain at heriau cymdeithasol a gwleidyddol difrifol.

## Perfformiad economaidd Cymru

2.13 Dros y tymor byr i'r tymor canolig, datblygiadau ar draws y DU gyfan yw'r prif ddylanwad ar berfformiad yr economi yng Nghymru.

2.14 Cymysg fu perfformiad yr economi yng Nghymru ers datganoli. Ar un llaw gwelwyd gwelliant cymharol sylweddol o ran cyfraddau cyflogaeth oherwydd lleihad mewn anweithgarwch, yn y gorllewin ac yng nghymoedd y de yn bennaf, ond ar y llaw arall, mae'r gwendidau o ran cynhyrchiant a chyflogau wedi parhau, ac mae perthynas agos rhyngddynt.

2.15 Fodd bynnag, dros y cyfnod rhwng 2010 a 2017 (sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae ystadegau ar gael ar ei chyfer), mae'r bwlch o ran Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen rhwng Cymru a gweddill y DU wedi lleihau - sef rhywbeth sydd ond wedi ei gyflawni gan un rhanbarth arall (Gorllewin Canolbarth Lloegr).

2.16 Bydd llwyddiant polisïau i wella lefelau addysg a sgiliau a sicrhau gwell cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu yn allweddol o ran gwella perfformiad economaidd cymharol Cymru yn y dyfodol, ond mae ffactorau eraill o bwys ar waith hefyd o ran hynny.

## Ymadael â'r UE a'r goblygiadau i Gymru

2.17 Drwy gydol y cyfnod o ansicrwydd ers y refferendwm, rydym wedi ceisio sicrhau y bydd y gwaith paratoi rydym yn ei ariannu neu'n ei gynnal ein hunain yn ddefnyddiol o dan unrhyw sefyllfa Brexit. Mae hyn wedi ein galluogi i addasu cynlluniau yn gyflym i sicrhau y gallwn ymateb i sefyllfaoedd Brexit wrth iddynt ddatblygu. Rydym wedi defnyddio cyfnod etholiad y DU i barhau â'n gwaith paratoi.

2.18 Rydym wedi dyrannu ychydig dros £46m o'r £50m o'r Gronfa Bontio Ewropeaidd a gyhoeddwyd ddechrau 2018, ac mae ein cynlluniau gwario ar gyfer 2020-21 yn darparu ar gyfer £8.6m o arian refeniw a £500k o arian cyfalaf.

2.19 Mae hyn wedi galluogi llawer o fusnesau a sefydliadau i baratoi ar gyfer effaith Brexit, ac i ymdopi â'r ansicrwydd sydd ynghlwm â'r broses. Ym mis Medi cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Brexit heb gytundeb sy'n nodi'r camau a gymerir gennym i baratoi ar gyfer y sefyllfa honno. Fe wnaethom ddweud yn glir wrth Lywodraeth flaenorol y DU nad yw'r adnoddau sy'n bodoli eisoes yn ddigonol i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen i fynd i'r afael â hyd yn oed cyfran fach o effaith Brexit heb gytundeb ar Gymru. Bydd angen cyllid a hyblygrwydd ychwanegol sylweddol arnom. Yn ogystal, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am lawer o'r ysgogiadau ariannol macro, gan gynnwys budd-daliadau lles a threthiant.

2.20 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i sicrhau bod gan Fanc Datblygu Cymru dros £200m o gyllid ar gael i gynorthwyo busnesau o bob maint yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU hefyd yn gweithredu i

ddylanwadu ar fanciau masnachol a banciau manwerthu i sicrhau bod cyllid ar gael i fusnesau bach a allai wynebu anawsterau llif arian byr dymor o ganlyniad i Brexit.

2.21 Yn amlwg, ni ellir rhagweld y dyfodol, ond ers y refferendwm ar ein haelodaeth o'r UE, mae Llywodraeth Cymru, drwy ein Papur Gwyn – 'Diogelu Dyfodol Cymru' a phapurau polisi dilynol ar fasnach, mudo, buddsoddi rhanbarthol a datganoli, wedi cyhoeddi tystiolaeth, dadansoddiadau a chynigion manwl ynghylch y ffordd ymlaen o ran Brexit.

2.22 Byddai ymadael â'r UE heb gytundeb yn drychinebus i Gymru, a byddai ymadael gyda chytundeb yn dal i gael effaith andwyol ar yr economi. Rydym wedi nodi ein safbwynt o ran yr heriau hyn yn yr adroddiad *Dyfodol Mwy Disglair i Gymru*. Mae asesiadau economaidd cadarn a chredadwy, gan gynnwys asesiadau Llywodraeth flaenorol y DU, yn nodi'n glir y bydd Brexit yn cael mwy o effaith andwyol ar Gymru nag ar y DU gyfan. Dyna pam fod Llywodraeth Cymru wedi galw am ail refferendwm.

2.23 Hyd yn oed os caiff y cytundeb ymadael a gynigiwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU ei gadarnhau, mae Brexit heb gytundeb yn parhau i fod yn bosibilrwydd go iawn ar ddiwedd y cyfnod pontio. Byddai hyn yn debygol o arwain at ddirywiad economaidd difrifol, ac at ddirwasgiad yn ôl pob tebyg.Yn ôl asesiad Banc Lloegr, gallai Brexit heb gytundeb arwain at ddirwasgiad sylweddol yn y tymor canolig. Mae dirwasgiadau blaenorol wedi dangos y bydd Brexit yn cael yr effaith fwyaf ar bobl sydd eisoes o dan anfantais. Oherwydd maint y dirwasgiad posibl, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth newydd y DU ddatblygu pecyn cyllidol sylweddol i ymateb i hynny.

2.24 Mae hefyd yn parhau i fod yn hanfodol nad yw ymadael â'r UE yn golygu y bydd Llywodraeth y DU yn mynd ag arian oddi wrth ein cymunedau. Ni ddylai hynny gyfyngu ar ein gallu i barhau i fuddsoddi yn ein heconomi a phobl Cymru. Rhaid i grant bloc Llywodraeth Cymru oddi wrth Lywodraeth y DU gael ei hail-addasu yn gadarnhaol o'r pwynt y byddwn yn ymadael â'r UE i adlewyrchu'r gwir golled o gyllid Ewropeaidd. Ni fyddai cyfran o gyllid y DU ar sail fformiwla Barnett yn dderbyniol; nac ychwaith unrhyw ddull gweithredu lle y byddai angen i Gymru wneud cais i system a reolir gan Weinidogion y DU.

2.25 Rhaid i Gymru dderbyn o leiaf yr un lefel o gyllid ag y byddem wedi ei derbyn pe bai'r DU wedi aros yn rhan o'r UE. Amcangyfrifir bod y cyllid hwnnw yn £700m y flwyddyn o leiaf. Rhaid inni beidio â cholli unrhyw hyblygrwydd o ran sut rydym yn defnyddio ein cyllid ychwaith. Wrth lunio'r Gyllideb hon, ac er mwyn ymateb i'r ansicrwydd parhaus o ran Brexit, rydym wedi cynllunio ar y sail y byddwn yn derbyn yr un lefel o gyllid yn 2020-21, naill ai oddi wrth Lywodraeth y DU neu'r UE, ag a gafwyd yn hanesyddol o'r UE.

2.26 Pe baem yn ymadael â'r UE heb gytundeb, mae Llywodraeth flaenorol y DU wedi rhoi gwarant o ran parhad rhaglenni cyllido'r UE a gymeradwywyd cyn inni ymadael â'r UE. Mae'r gwarant hwn yn rhoi sicrwydd cyfyngedig o ran cyllid cyfredol, ond nid oes unrhyw eglurder o hyd o ran cyllid i ffermwyr ar ôl 2019 nac o ran cronfeydd strwythurol ar ôl 2021. Er bod y posibilrwydd o

Brexit heb gytundeb wedi ei ohirio am y tro, mae'n dal i fod yn bosibilrwydd go iawn ym mis Ionawr 2020 a rhaid inni gynllunio ar gyfer hynny.

## Trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU

2.27 Mae goblygiadau mawr o ran dyfodol cyfansoddiadol y DU yn sgil Brexit. Mae datganoli wedi bod yn rhan sefydledig o gyfansoddiad y DU ers dros 20 mlynedd, ac rydym yn falch bod llywodraethau'r DU, un ar ôl y llall, wedi cadarnhau y byddant yn parchu'r setliad cyfansoddiadol hir-sefydledig hwn. Bellach mae angen perthynas gyfansoddiadol sylfaenol wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU - ar sail parch o'r ddwy ochr. Ni all Llywodraeth y DU osgoi'r setliad datganoli na chymryd yn ôl benderfyniadau a chyllid a fu o dan reolaeth Cymru ers bron 20 mlynedd.

2.28 Ar hyn o bryd, mewn rhai meysydd polisi datganoledig megis yr economi, amaethyddiaeth a'r amgylchedd, mae dulliau gweithredu cydlynol - ond nid unffurf - ar waith ledled y DU o ganlyniad i bolisïau a gytunwyd ar lefel yr UE. Os bydd y DU yn ymadael â'r UE, bydd angen inni fabwysiadu ffordd newydd sy'n seiliedig ar gonsensws o ddod i gytundeb o ran dulliau gweithredu cyffredin (‘fframweithiau’) pan fo'n gwneud synnwyr i gael rhywfaint o gydlyniant parhaus ledled y DU, megis sicrhau y gall busnesau fasnachu'n rhydd ar draws y DU.

2.29 Nid yw'r systemau rhynglywodraethol presennol yn addas at y diben i alluogi dod i gytundebau o'r fath, nac i ddatrys achosion o anghytuno neu anghydfodau. Mae ein cyhoeddiadau *Brexit a Datganoli* a *Diwygio ein Hundeb* yn nodi ein barn o ran sut y dylid datblygu'r trefniadau cyfansoddiadol newydd hyn. Nod y dogfennau hyn yw gwneud cyfraniad adeiladol i'r drafodaeth bwysig sydd ei hangen ledled y DU. Mae angen i'r llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU ddod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio er mwyn gallu dod i gytundeb.

2.30 Yn bennaf oll, er mwyn gosod sail ar gyfer dyfodol economaidd llwyddiannus, safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod angen inni barhau i gael mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl a chymryd rhan mewn Undeb Tollau i ddiogelu'r 60 y cant o allforion nwyddau uniongyrchol o Gymru sy'n mynd i'r UE, a chadw a chynyddu buddsoddiad sy'n creu swyddi. Mae hyn yn mynd law yn llaw â system fudo newydd sy'n cysylltu mudo yn agos â chyflogaeth er mwyn gallu recriwtio meddygon, nyrsys, peirianwyr a gweithwyr angenrheidiol eraill, tra'n amddiffyn gweithwyr rhag unrhyw gamfanteisio.

# Pennod 3: Cyflawniadau allweddol

## Cyflwyno ein Rhaglen Lywodraethu

3.1 Yn 2016, gwnaethom gyhoeddi *Symud Cymru Ymlaen*, rhaglen bum mlynedd ar gyfer y llywodraeth. Roedd yn amlinellu ein prif flaenoriaethau ar gyfer gwella ein heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus; i greu swyddi a ffyniant, ac i wella llesiant pawb sy'n byw yng Nghymru. Nod y gyfres hon o fesurau uchelgeisiol oedd gwneud gwahaniaeth i bawb, ar bob cam yn eu bywydau, gan ddarparu sefydlogrwydd i'n gwasanaethau craidd a chymryd camau penodol ar yr un pryd i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer ein gwlad.

3.2 Er gwaetha'r toriadau niferus yr ydym wedi'u gweld i'n cyllideb ers dechrau'r degawd, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i wneud popeth yn ein gallu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen rhag effeithiau gwaethaf polisi Llywodraeth y DU o gyni.

- **Mae buddsoddi yn ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a'n gwasanaethau cymdeithasol wrth wraidd ein cynlluniau gwario.** Yn ystod tymor y Cynulliad hwn, byddwn wedi buddsoddi £37bn yn GIG Cymru i sicrhau triniaethau o ansawdd uchel i bawb. Yn ystod 2020-21, byddwn yn buddsoddi £342m arall yn ein GIG, felly bydd cyfanswm cyllid y GIG ar gyfer y flwyddyn nesaf yn fwy na £8bn mewn un flwyddyn.

- **Buddsoddi mewn llywodraeth leol ac yn ein gwasanaethau cyhoeddus.** Rhwng 2016-17 a 2020-21, byddwn wedi darparu mwy na £25bn o gyllid i lywodraeth leol. Er bod cyllidebau'n lleihau, rydym wedi diogelu llywodraeth leol rhag y toriadau eithafol a welir yn Lloegr, toriadau sydd wedi cael effaith anghymesur ar gymunedau difreintiedig.

3.3 Rydym wedi gwneud chwe ymrwymiad allweddol i bobl Cymru ar ddechrau'r weinyddiaeth hon ac maent yn rhan ganolog o'n rhaglen lywodraethu. Dros dymor y Cynulliad hwn, byddwn wedi:

- **Buddsoddi £80m ar gyfer y Gronfa Triniaethau Newydd, sydd wedi lleihau'r amser aros ar gyfer cyffuriau newydd o 90 o ddiwrnodau i 10 diwrnod yn unig.** Rydym yn neilltuo £16m yn ystod 2020-21.

- **Darparu mwy na £200m i ddarparu'r cynnig gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio.** Yn ystod 2020-21, rydym yn sicrhau cynnydd o £20m yn y cyllid ar gyfer y cynnig gofal plant, felly bydd cyfanswm y gyllideb ar gyfer ymateb i'r galw disgwyliedig yn £60m.

- **Neilltuo £575m i ddarparu 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bobl o bob oed.** Rydym yn neilltuo £9m arall yn 2020-21 i gynorthwyo â'n rhaglen brentisiaethau, felly byddwn yn buddsoddi cyfanswm o £97m y flwyddyn nesaf.

- **Buddsoddi mwy na £580m drwy'r cynllun rhyddhad ardrethi parhaol i fusnesau bach, gan gynorthwyo busnesau bach â'u biliau ardrethi.** Mae mwy na 70,000 o dalwyr ardrethi yn cael rhyddhad ar ardrethi annomestig ac nid yw hanner yr holl fusnesau yn talu ardrethi o gwbl. Yn 2020-21, rydym yn rhoi cymorth uniongyrchol i fusnesau bach a chanolig drwy ddarparu £125m i helpu â'u biliau ardrethi annomestig.

- **Darparu £100m arall i wella safonau ysgolion,** gan neilltuo £25.5m o gyllid yn 2020-21.

- **Gwireddu ein haddewid ddwy flynedd yn gynharach na'r hyn a gynlluniwyd i ddyblu'r cyfalaf y gall pobl ei gadw wrth symud i ofal preswyl i £50,000.** Ers mis Ebrill 2019, mae pobl yng Nghymru wedi gallu cadw hyd at £50,000 o'u cynilon, eu buddsoddiadau neu gyfalaf arall sydd ganddynt er mwyn ei ddefnyddio fel y mynnant, heb orfod ei ddefnyddio i dalu am ofal preswyl.

3.4 Yn ystod tymor y Cynulliad hwn, rydym hefyd wedi darparu buddsoddiad sylweddol drwy ein cynlluniau seilwaith, gan gynnwys:

- **£2bn ar dai, gan ddarparu mwy na 20,000 o dai fforddiadwy.** Rydym yn neilltuo £175m arall yn 2020-21 tuag at gyflawni'r ymrwymiad hwn.

- **Mwy na £650m ar ein Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif i roi’r amgylchedd gorau i blant i ddysgu.** Mae ein cyllideb ar gyfer seilwaith addysg yn 2020-21 yn fwy na £200m.

- **Mwy na £100m ar gymorth busnes uniongyrchol er mwyn creu swyddi a chefnogi entrepreneuriaid.** Mae ein cyllideb o £21m yn 2020-21, gan gynnwys cyllid gan yr UE, yn helpu i ddarparu gwasanaeth Busnes Cymru. Mae’r gwasanaeth hwn yn fath penodol o gymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig ledled Cymru ac mae’n sicrhau bod modd i entrepreneuriaid a busnesau bach a chanolig gael gafael ar yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt er mwyn eu helpu i ddechrau, tyfu a ffynnu.

- **Mwy na £350m mewn gwaith i reoli peryglon o ran llifogydd a’r arfordir.** Yn y gyllideb hon, rydym yn ymrwymo £64m yn 2020-21 i ddiogelu ein cymunedau rhag effeithiau mwyaf eithafol ac uniongyrchol newid yn yr hinsawdd.

- **£1.3bn i helpu gwasanaethau trenau a gwella seilwaith rheilffyrdd.** Er nad yw seilwaith rheilffyrdd wedi cael ei ddatganoli, yn 2020-21, rydym yn neilltuo mwy na £200m o gyllid cyfalaf i fwrw ymlaen â'r cynlluniau i ddarparu Metro De Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru, ynghyd â gwneud gwelliannau eraill i seilwaith rheilffyrdd er budd teithwyr.

- **Mwy na £1.8bn i drawsnewid a chynnal ystad y GIG.** Yn ystod 2020-21, rydym yn buddsoddi £36m arall o gyfalaf, gan greu cyfanswm o fwy na £370m, i helpu i gyflawni blaenoriaethau o ran buddsoddi ym maes iechyd.

- **£2bn o ganlyniad i'n cynlluniau cyllid arloesol,** sy'n rhoi hwb y mae wirioneddol ei angen i gyllidebau cyfalaf, er mwyn gallu buddsoddi yn gynharach nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

- **Mwy nag £1.1bn o gronfeydd Llywodraeth Cymru a reolir gan Fanc Datblygu Cymru.** Mae hyn yn cynnwys tua hanner biliwn o bunnoedd ar draws yr holl gronfeydd busnes a Chynllun Cymorth i Brynu Cymru, sy'n werth £520m.

- **Bron i £200m i helpu i ailgylchu gwastraff cartrefi.** Mae Cymru yn achub y blaen ar y DU yn y maes hwn, ac yn ddiweddar mae hi wedi cyrraedd y trydydd safle gorau yn y byd.

- **Mwy na £450m mewn Cronfa Gofal Integredig.** Rydym yn buddsoddi mwy na £130m (£89m o refeniw a £40m o gyfalaf) yn 2020-21.

3.5 Gan ystyried y rhagolygon ariannol ar gyfer Cymru yn y tymor byr i ganolig, y galw a'r pwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus, a'r camau y mae'n rhaid inni eu cymryd gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, rydym yn gwybod y bydd yr heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y blynyddoedd nesaf yn waeth hyd yn oed. Mae'r buddsoddiad yr ydym wedi'i wneud yn ystod y tymor hwn yn darparu sylfaen gadarn y gallwn adeiladu arni er mwyn sicrhau'r Gymru a garem.

# Pennod 4: Trefniadau cyllido

## Trosolwg

4.01 Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n cael eu hariannu wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf. Mae datganoli pwerau trethi[1] a'r trefniadau cysylltiedig y cytunwyd arnynt o dan y fframwaith cyllidol ar gyfer Llywodraeth Cymru[2] yn golygu bod rhan o grant bloc Cymru wedi'i disodli â refeniw a gynhyrchir gan drethi yng Nghymru.

4.02 Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) ar 1 Ebrill 2018, a chânt eu casglu gan Awdurdod Cyllid Cymru. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) ar 6 Ebrill 2019. Ar wahân, yn Ebrill 2015, disodlodd y datganoli ariannol yn achos ardrethi annomestig (NDR) y trefniadau blaenorol ar gyfer rheoli'r risgiau ariannol. Gyda'i gilydd, mae WRIT, LTT, LDT ac NDR bellach yn cyfrannu rhyw £3.6bn y flwyddyn i gyllideb Llywodraeth Cymru.

4.03 Fel rhan o'r addasiad a wnaed i ganiatáu datganoli pwerau trethi, mae'r fframwaith cyllidol yn cynnwys newid parhaol i fformiwla Barnett fel y'i cymhwysir i Gymru. Mae cyflwyno ffactor sy'n seiliedig ar anghenion, a bennir ar hyn o bryd yn 105 y cant, eisoes wedi sicrhau swm ychwanegol o £160m i Gymru dros y cyfnod 2018-19 i 2020-21.

## Polisi trethi

4.04 Mae'r pwerau trethi'n cryfhau'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a dinasyddion, cymunedau a busnesau Cymru, ac yn darparu ysgogwyr ychwanegol a all helpu i gyflawni ein blaenoriaethau. Disgrifir dull gweithredu cyffredinol Llywodraeth Cymru o ran trethu yn ein Fframwaith Polisi Trethi, sy'n cynnwys pum egwyddor.

4.05 Dylai trethi Cymru:

- Godi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus;
- Cyflawni amcanion polisi, yn enwedig i gefnogi swyddi a thwf;
- Bod yn syml, yn glir ac yn sefydlog;
- Cael eu datblygu trwy gydweithredu ac ymwneud;
- Creu Cymru fwy cyfartal.

4.06 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cylch polisi trethi blynyddol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Cynllun Gwaith ar Bolisi Trethi yn gynnar yn y flwyddyn galendr, wedi'i ddilyn gan ymchwil, dadansoddiadau ac ymgysylltu, ac

---

[1] Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29/contents/enacted

[2] Cytunwyd ar y fframwaith cyllidol ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn Rhagfyr 2016: https://gweddill.gov.wales/docs/caecd/publications/161219-fiscal-agreement-cy.pdf


Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru yn yr Hydref yn crynhoi'r canfyddiadau a'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg. Yn awr bod trethi Cymreig ac Awdurdod Cyllid Cymru wedi'u sefydlu, mae llawer o'r materion yn ystyriaethau tymor hwy a fydd yn cymryd amser i'w datblygu. Er hynny, mae cyhoeddi'r cynllun gwaith yn galluogi sefydliadau ac unigolion â buddiant i ddeall i beth y mae Llywodraeth Cymru'n ymchwilio, i ofyn cwestiynau a chyfrannu eu barn, eu gwybodaeth a'u profiadau. Mae cynhadledd haf flynyddol ar drethi wedi'i chyflwyno i gynnig cyfle pellach i randdeiliaid drafod cyfeiriad polisi trethi Cymru - cynhaliwyd y gynhadledd ddiweddaraf ar 19 Gorffennaf 2019.

4.07 Mae Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2019, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft hon, yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn. Mae'r pynciau yn ystyried y cwmpas ar gyfer defnyddio trethi i gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar drethi, cyfleoedd ar gyfer gwneud gweinyddu trethi'n fwy effeithiol a chydlynus, a ffyrdd o gynyddu gwybodaeth am drethi a gwella ymgysylltu.

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru

4.08 Cyflwynwyd cyfraddau treth incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. O'r dyddiad hwn mae oddeutu 1.3 miliwn o bobl sy'n byw yng Nghymru wedi bod yn talu hyd at hanner eu treth incwm i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru. Felly, er bod Llywodraeth Cymru'n gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru[3], mae pob agwedd arall ar y dreth yn dal yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU ac mae CThEM yn parhau i weinyddu'r dreth incwm yng Nghymru.

*Tabl: Cyfraddau treth incwm yng Nghymru*




[3]Yn y mwyafrif o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymru fel pobl sy'n byw yng Nghymru; er hynny darperir diffiniad llawn o dan adran 8 o Ddeddf Cymru 2014: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29/section/8/enacted

4.09 Mae'r broses i Gymru'n golygu bod Llywodraeth y DU'n gostwng 10c ar bob un o'r tair cyfradd Treth Incwm i drethdalwyr Cymru, ac yn gwneud gostyngiad cyfatebol i grant bloc Cymru, sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mater i Lywodraeth Cymru wedyn yw penderfynu a yw am bennu cyfraddau Cymru'n 10c, gan adfer y cyllid i wasanaethau (a chadw cydraddoldeb rhwng trethdalwyr Cymru a Lloegr) neu i bennu cyfraddau gwahanol. Yn unol â'i hymrwymiad i beidio â chynyddu WRIT yn ystod y Cynulliad hwn, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig pennu'r cyfraddau ar gyfer 2020-21 yn 10c.

## Trethi Cymreig eraill

4.10 Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) ar 1 Ebrill 2018. Maent wedi'u datganoli'n llwyr, sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n gallu penderfynu ar bob agwedd ar y trethi. Yn dâl am y refeniw trethi, mae grant bloc Cymru wedi'i ostwng yn ôl swm sy'n gyfwerth â'r hyn yr oedd trethi blaenorol y DU (treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi) yn ei godi yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth y DU. Mae'r trethi'n cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

4.11 Fel yr awdurdod trethi newydd i Gymru, mae ACC wedi datblygu *Ein Dull* - dull newydd o ddelio â threthi. Mae ACC yn defnyddio'r dull dwy ffordd hon i ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys trethdalwyr ac asiantau, i'w helpu i dalu'r swm cywir o drethi ar yr adeg gywir. Trwy hyn, bydd yn creu math o system drethi sy'n deg ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Cymru. Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd ACC ei Gynllun Corfforaethol tair blynedd gyntaf (2019-22), yn amlinellu ei ddiben, ei nodau strategol a'i fesurau perfformiad. Cyhoeddodd ACC hefyd ei 'Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol (2017-19)' ym mis Gorffennaf 2019.

## Y Dreth Trafodiadau Tir

4.12 Yn 2020-21, bydd Llywodraeth Cymru'n cadw cyfraddau LTT yr un peth ag yn 2019-20. Mae hyn yn helpu i gyflawni egwyddorion trethi Cymreig o fod yn glir a sefydlog gan alluogi dinasyddion a busnesau i gynllunio gyda sicrwydd.

4.13 Mae LTT yn parhau i fod â'r trothwy cychwynnol uchaf ar gyfer y prif gyfraddau preswyl yn y DU, gyda rhyw 90 y cant o brynwyr cartrefi yng Nghymru naill ai'n talu'r un dreth neu lai o dreth o'i chymharu â'i rhagflaenydd, sef treth dir y dreth stamp.

**Tabl 4.1: Prif gyfraddau trethi preswyl LTT**

| Trothwy'r pris | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 hyd at 180,000 | 0% |
| Mwy na £180,000 hyd at £250,000 | 3.5% |
| Mwy na £250,000 hyd at £400,000 | 5% |
| Mwy na £400,000 hyd at £750,000 | 7.5% |
| Mwy na £750,000 hyd at £1,500,000 | 10% |
| £1.5m ac yn uwch | 12% |

Bydd trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch yn destun 3 y cant yn ychwanegol ar ben y brif gyfradd breswyl ym mhob band.

4.14 Gallai cyfradd uwch o dri y cant yn ychwanegol at y brif gyfradd breswyl ym mhob band fod yn gymwys lle mae unigolyn, sydd eisoes yn berchen ar un neu ragor o eiddo preswyl, yn prynu eiddo preswyl pellach. Er hynny, os ydynt yn disodli eu prif breswylfa efallai na fydd y cyfraddau uwch yn gymwys. Bydd rhaid i gwmnïau sy'n prynu eiddo preswyl dalu'r cyfraddau preswyl uwch a gallai fod rhaid i ymddiriedolaethau sy'n prynu eiddo preswyl dalu'r cyfraddau preswyl uwch. Roedd datganiad ystadegol blynyddol ACC[4] am y flwyddyn Ebrill 2018-Mawrth 2019 yn cynnwys dadansoddiad o ddata am y dreth trafodiadau tir mewn perthynas â'r gordal cyfradd uwch ar sail ddaearyddol i helpu i fonitro effaith y gyfradd uwch.

4.15 Yn un y cant mae gan Gymru cyfradd gychwynnol is ar gyfer prynu eiddo busnes na threth dir y dreth stamp. Mae'r holl fusnesau sy'n prynu safleoedd hyd at £1.1m yng Nghymru naill ai'n talu dim treth o gwbl neu hyd at £1,000 yn llai o dreth nag o dan dreth dir y dreth stamp. Bydd Llywodraeth Cymru'n dal i adolygu'r dystiolaeth am effaith y cyfraddau amhreswyl. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu unrhyw newidiadau yn y dyfodol i dreth dir y dreth stamp gan Lywodraeth y DU.

**Tabl 4.2: Prif gyfraddau amhreswyl LTT**

| Trothwy'r pris | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 hyd at 150,000 | 0% |
| Mwy na £150,000 hyd at £250,000 | 1% |
| Mwy na £250,000 hyd at £1,000,000 | 5% |
| £1m ac yn uwch | 6% |

[4] https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir-ebrill-2018-mawrth-2019-html

**Tabl 4.3: Cyfraddau rhenti les amhreswyl LTT**

| Trothwy'r pris | Cyfradd LTT |
|---|---|
| £0 hyd at 150,000 | 0% |
| Mwy na £150,000 hyd at £2,000,000 | 1% |
| £2m ac uwch | 2% |

## Treth Gwarediadau Tirlenwi

4.16 Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gadw cysondeb â dull gweithredu Llywodraeth y DU o ran cyfraddau'r dreth dirlenwi ar gyfer y gyfradd drethi is a safonol yn 2018-19 a 2019-20. Diben hyn oedd cefnogi amcan polisi LDT o leihau'r gwastraff sy'n cael ei roi mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru, ac i amddiffyn yn erbyn y risg o drosglwyddo gwastraff dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr er mwyn manteisio ar gyfraddau is. Bwriedir i'r polisi hwnnw barhau ar gyfer 2020-21. Bydd y cyfraddau arfaethedig, yn amodol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cynyddu fel y nodir yn y tabl isod.

**Tabl 4.4: Cyfraddau LDT, £ y dunnell**

| Trothwy'r pris | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Cyfradd safonol | £91.35 | £94.15 |
| Cyfradd is | £2.90 | £3.00 |
| Cyfraddau gwarediadau heb eu hawdurdodi | £137.00 | £141.20 |

## Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

4.17 Cafodd Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ei lansio ar 1 Ebrill 2018 i gefnogi prosiectau amgylcheddol a chymunedol mewn ardaloedd y mae gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi wedi effeithio arnynt. I fod yn gymwys am gyllid, rhaid i brosiectau fod o fewn cylch pum milltir i safle tirlenwi neu orsaf trosglwyddo gwastraff, sy’n anfon lleiafswm o 2,000 tunnell o wastraff i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn. Rhaid i'r prosiectau dangos hefyd sut y byddant yn helpu cymunedau i gyfrannu at nodau llesiant a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y corff dosbarthu ar gyfer y cynllun yw Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

4.18 Yn y flwyddyn gyntaf y bu'r cynllun ar waith (2018-19), cefnogwyd 44 o brosiectau gyda chyfanswm gwerth o £1.4m.

## Ardrethi annomestig (NDR)

4.19 Mae trethiant lleol yn rhan annatod o'r system ar gyfer ariannu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r refeniw gros sy'n daladwy o NDR bron yn £1.3bn. Unwaith y caiff rhyddhad ei gymhwyso, mae NDR yn cyfrannu dros £1bn tuag at gyllido gwasanaethau lleol yn flynyddol.

4.20 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR) parhaol sydd wedi'i dargedu'n well, gyda hanner busnesau'n talu dim ardrethi o gwbl. Rydym yn ymchwilio i sut y gallai'r cynllun SBRR weithredu yn y dyfodol, yn dilyn y gwelliannau yr ydym wedi'u gwneud ers 2017. Bydd yr Arolwg Omnibws Cymru nesaf gan Beaufort Research yn cynnwys cwestiynau ychwanegol i'n helpu i asesu effeithiolrwydd rhyddhad ardrethi, sef a yw wir yn helpu i ysgogi twf busnes a sut y mae'n dylanwadu ar benderfyniadau busnes. Rydym hefyd yn adolygu newid a wnaed i SBRR yn 2018 i gyfyngu ar nifer yr eiddo sy'n gymwys am ryddhad i ddau i bob busnes ym mhob awdurdod lleol. Bwriad yr adolygiad hwn yw taflu goleuni ar effeithiolrwydd y newid i'r polisi ac yn llywio dewisiadau'r dyfodol ar gyfer y cynllun SBRR.

4.21 Mae'n ofynnol i'r mwyafrif o ysgolion gwladwriaeth ac ysbytai dalu NDR, a hefyd ystod eang o sefydliadau'r sector cyhoeddus a sefydliadau dielw. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig at gost gwasanaethau lleol hanfodol a ddarperir yn ein cymunedau. Er hynny, mae rhai ysgolion preifat ac ysbytai'n gallu manteisio ar ryddhad elusennol rhag ardrethi. Mae'n fwriad gennym ymgynghori yn y dyfodol agos ar gymhwysedd ysgolion annibynnol ac ysbytai ar gyfer rhyddhad ardrethi elusennol.

4.22 Yn 2019-20, cyflwynwyd fersiwn gryfach o'n Cynllun Rhyddhad Ardrethi i'r Stryd Fawr a Manwerthu, gan darparu cymorth i fanwerthwyr mewn eiddo sydd â gwerth ardrethol o hyd at £50,000. Manteisiwyd yn llawn ar y swm canlyniadol ar gyfer rhyddhad ardrethi a ddarparwyd o ganlyniad i gyllideb Llywodraeth y DU i gefnogi'r cynllun hwn ac i ddarparu cyllid i'r awdurdodau lleol i gynnig rhyddhad yn ôl disgresiwn. Rydym yn asesu costau'r cynllun presennol a'r adnoddau sydd ar gael cyn penderfynu ar y cynllun ar gyfer 2020-21.

4.23 Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i eithrio adeiladau toiledau cyhoeddus pwrpasol rhag talu NDR o 1 Ebrill 2020[5]. Mae cyflwyno'r esemptiad newydd yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Cynhwyswyd darpariaeth mewn Bil yn Senedd y DU a fethodd ym mis Medi, ond mae'n fwriad gennym o hyd i ddarparu'r eithriad hwn drwy'r cyfle deddfwriaethol nesaf a ddaw ar gael. Mae hyn cefnogi ein hymrwymiad i ddarparu mynediad i doiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd o dan Ran 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gan helpu i gadw cyfleusterau ar agor i drigolion ac ymwelwyr â Chymru.

## Rhagolygon refeniw trethi annibynnol

4.24 Am y tro cyntaf, mae rhagolygon annibynnol o refeniw trethi datganoledig oddi wrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ynghlwm wrth y gyllideb ddrafft hon. Mae adroddiad rhagolwg ar wahân sy'n darparu cefndir a manylion am y

[5] Datganiad Llywodraeth Cymru, Mehefin 2019. https://llyw.cymru/rhyddhad-ardrethi-ar-gyfer-adeiladau-toiledau-cyhoeddus-yng-nghymru

fethodoleg ar gyfer rhagolygon wedi'i cyhoeddi ar wefan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Dangosir y rhagolygon ar gyfer 2020-21 yn nhabl 4.5.

4.25 Mae cyllidebau blaenorol wedi cynnwys rhagolygon refeniw trethi a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, ond a gafodd eu sicrhau'n annibynnol gan Brifysgol Bangor. Mae gwybodaeth am alldro bellach ar gael ar gyfer refeniw o'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi yn 2018-19. Gan defnyddio'r wybodaeth hon, mae'r adroddiad ar bolisi trethi sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb ddrafft hon yn cynnwys gwerthusiad o'r rhagolygon ar gyfer 2018-19 a gynhwyswyd mewn cyllidebau blaenorol.

**Tabl 4.5: Rhagolygon Refeniw Trethi**

| | **2020-21 £m** |
|---|---|
| Treth trafodiadau tir | 240 |
| Treth gwarediadau tirlenwi | 38 |
| Cyfraddau treth incwm Cymru | 2,206 |

## Addasiad i'r grant bloc

4.26 Yn dilyn datganoli pwerau trethu i Gymru, mae grant bloc Llywodraeth Cymru yn cael ei leihau i adlewyrchu'r ffaith y bydd refeniw o drethi datganoledig a rhannol-ddatganoledig bellach yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i Drysorlys y DU.

4.27 Fel y cytunwyd yn y fframwaith cyllidol, mae'r addasiad ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn golygu:

- Llinell sylfaen ar gyfer yr addasiad – gan adlewyrchu'r dreth a gasglwyd o dan dreth flaenorol y DU yng Nghymru yn y flwyddyn cyn ei datganoli (2017-18).
- Addasiadau blynyddol i'r grant bloc – o'r llinell sylfaen gychwynnol mae'r addasiad yn cael ei chynyddu neu ei gostwng gan adlewyrchu twf yn nhreth gyfatebol y DU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

4.28 At ddibenion y Gyllideb ddrafft hon, mae'r addasiadau ar gyfer y grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn gyson â rhagolygon OBR ynghylch trethi'r DU, yn seiliedig ar Ragolwg Economaidd a Chyllidol mis Mawrth 2019, gan gymryd gwybodaeth fwy diweddar am alldro i ystyriaeth. Mae cyfanswm yr addasiad i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn £271m yn 2020-21.

4.29 Caiff yr addasiad i'r grant bloc am 2020-21 sy'n cyd-fynd â chyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru ei ysgogi gan dwf mewn refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mhob band trethi. (Pennir yr addasiad yn 2019-20, blwyddyn drosiannol, ar yr un lefel â'r refeniw o gyfraddau Cymru).

4.30 Mae lefel y refeniw o'r WRIT yn 2020-21 a'r refeniw o Loegr a Gogledd Iwerddon a ddefnyddir i gyfrifo'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc yn

seiliedig ar ragolygon OBR, yn seiliedig ar ei Ragolwg Economaidd a Chyllidol, gan gymryd i ystyriaeth wybodaeth fwy diweddar am alldro. Yr addasiad i'r grant bloc ar gyfer treth incwm yn 2020-21 yw £2.198m.

## Cronfa Wrth Gefn Cymru

4.31 Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018 fel rhan o drefniadau'r fframwaith cyllidol i'n galluogi i ymdrin yn effeithiol ag anwadalrwydd sy'n deillio o refeniw trethi trwy gadw adnoddau heb eu gwario i'w defnyddio yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n disodli'r broses flaenorol o gyfnewid cyllidebol.

4.32 Gall Cronfa Wrth Gefn Cymru ddal hyd at £350m. Mae'r swm y ceir ei dynnu i lawr bob blwyddyn yn gyfyngedig i £125m ar gyfer gwariant refeniw a £50m ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes cyfyngiad blynyddol ar daliadau i mewn i'r gronfa.

4.33 Ar ddechrau 2019-20, roedd £419m yn cael ei ddal yn y gronfa wrth gefn - refeniw o £306m a chyfalaf o £113m. Mae hyn yn cynnwys £90m o gyfalaf trafodiadau ariannol y cytunwyd arno â Thrysorlys EM i'w gario ymlaen yn ogystal â'r terfyn o £350m yng Nghronfa wrth Gefn Cymru. Caiff cynlluniau i ddefnyddio'r cyllid a ddelir yn y gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn eu cynnwys yn yr ail gyllideb atodol arfaethedig ar gyfer 2019-20.

4.34 Wrth bennu ein cynlluniau gwario ar gyfer 2020-21 rydym wedi cynllunio i dynnu i lawr £125m o Gronfa wrth Gefn Cymru.

## Dull gweithredu o ran cyfalaf a chyfalaf trafodiadau ariannol

4.35 Gyda cynlluniau cyfalaf dangosol eisoes yn eu lle ar gyfer 2020-21, y ffocws yn y Gyllideb hon fu dyrannu'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn sydd ar gael, yn drafodiadau cyffredinol ac yn drafodiadau ariannol, gyda ffocws arbennig ar gynigion sy'n ymgorffori ein meysydd blaenoriaeth o fioamrywiaeth a datgarboneiddio.

4.36 Yn y gyllideb hon mae pecyn cyfalaf cyfunol o fwy na £545m ar gyfer 2020-21 yn cael ei ddyrannu ar ben cynlluniau presennol, sy'n bwrw ymlaen â chryn fuddsoddiad y flwyddyn nesaf yn yr wyth maes trawsbynciol sy'n flaenoriaeth. Amlinellir y dyraniadau refeniw hyn ym mhennod 6.

4.37 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae natur ein cyllideb gyfalaf wedi parhau i newid wrth i gyfran gynyddol o'n cyllideb ddod ar gael ar ffurf cyfalaf trafodiadau ariannol. Ni ellir defnyddio'r gyllideb wedi'i chlustnodi ond ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti a rhaid iddi gael ei had-dalu i Drysorlys Ei Mawrhydi. Yn 2020-21, mae 13 y cant o'n cyllideb gyfalaf oddi wrth Lywodraeth y DU ar ffurf cyfalaf trafodiadau ariannol.

4.38 Wrth i'n profiad o cyfalaf trafodiadau ariannol dyfu, rydym yn defnyddio'r cyllid mewn ffyrdd mwy arloesol, ochr yn ochr â rhaglenni craidd cymorth i fusnesau

a thai. Mae gwybodaeth bellach am driniaeth gyllidebol cyllid trafodiadau ariannol a phroffil ad-daliadau i'w chael yn atodiad D.

## Benthyca

4.39 Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno â Llywodraeth y DU, terfyn benthyca cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru yw £1bn yn ei grynswth, gyda therfyn blynyddol o £150m.

4.40 Mae benthyca'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynyddu ei phŵer gwario cyfalaf cyffredinol – y tu hwnt i'r terfyn a bennir gan Drysorlys EM trwy'r grant bloc – i gefnogi ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a nodir yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

4.41 Mae Tabl 4.6 yn cynnwys ymrwymiadau i fenthyca £125m yn 2020-21. Fel rhan o'n trafodaethau manwl â Thrysorlys EM yn barod ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr nesaf o Wariant, byddwn yn ceisio cynnydd yn ein terfynau benthyca blynyddol a chyfanredol i gefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer buddsoddi cyfalaf.

4.42 Mae'n bwysig ein bod yn gallu rheoli ein cyllideb gyfalaf yn hyblyg. Byddwn yn cadw ein dull gweithredu o ran ariannu buddsoddiad trwy fanteisio ar dynnu i lawr y ffurfiau lleiaf drud o gyfalaf yn gyntaf a dim ond defnyddio ffurfiau mwy drud o fuddsoddi preifat mewn prosiectau sy'n isel eu risg ac o'r raddfa briodol.

4.43 Mae benthyca cyfalaf yn ein helpu i reoli ein hadnoddau mewn ffordd fwy effeithlon a chyflawni ein nodau o ran seilwaith - gan weithio gyda'n cyllideb gyfalaf bresennol hefyd a'n cynlluniau cyllid arloesol. Er hynny, nid arian ychwanegol yw cyfalaf benthyg ac mae'n rhaid ei ad-dalu.

4.44 Bydd Llywodraeth Cymru'n tynnu ei chyfalaf benthyca o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol. Nodir rhagolygon ad-dalu ar gyfer y cyfnod yr ydym wedi pennu cynlluniau cyfalaf yn Nhabl 7.4. Seilir y rhagolwg ad-dalu ar ragdybiaeth o gyfnod ad-dalu o 25 mlynedd a chyfradd llog gyfartalog o 2.22 y cant.

## Cyllid arloesol

4.45 Yn ogystal â'n cyllidebau cyfalaf craidd a'n pwerau benthyca, rydym yn parhau i wneud defnydd llawn o ddulliau cyllido arloesol er mwyn helpu i sicrhau buddsoddiad ychwanegol amserol mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol. Darperir y newyddion diweddaraf am y cynlluniau hyn yn atodiad D.

## Ffynonellau o gyllid i Lywodraeth Cymru

4.46 Yn sgil cyflwyno datganoli trethi, mae'r ffynonellau o gyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru'n cynyddu. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi ei adroddiad ar ffynonellau Llywodraeth Cymru o Gyllid Cyfalaf,

ac rydym wedi cyhoeddi ein hymateb i'w argymhellion i gyd-fynd â chyhoeddi'r Gyllideb ddrafft.

4.47 Mae tabl 4.6 yn nodi ffynonellau ar gyfer adnoddau a chyfalaf.

**Table 4.6 FFYNONELLAU O GYLLID I LYWODRAETH CYMRU**

| 2020-21 CYLLIDEB DDRAFFT | |
|---|---|
| **ELFENNAU CYLLIDO CYMRU** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft (£000oedd)** |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | |
| Cyllidoll | 12,404,791 |
| Anghyllidol | 690,064 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 125,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | |
| Cyllidoll | 22,104 |
| Anghyllidol | 79,237 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | |
| Ardrethi Annomestig | 1,136,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 2,206,428 |
| Treth Trafodiadau Tir | 245,234 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 35,612 |
| Ad-dalu Prifsymiau Benthyciadau | -6,365 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **16,938,105** |
| **CYLLIDO CYFALAF** | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | |
| Cyffredinol | 1,982,009 |
| Trafodiadau Ariannol | 300,255 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | |
| Cyfalaf | 891,388 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | |
| Benthyca | 125,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **3,298,652** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **20,236,757** |

# Pennod 5: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y gyllideb ddrafft

## Trosolwg

5.01 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn parhau i ddarparu'r sylfaen sy'n arwain ein proses gyllidebol. Er gwaethaf yr heriau a'r ansicrwydd sydd wedi effeithio ar ein cynlluniau, mae ein paratoadau ar gyfer y gyllideb yn canolbwyntio o hyd ar wyth maes trawsbynciol sy'n flaenoriaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd gennym.

5.02 Y rhain yw'r wyth maes lle gallwn gael yr effaith fwyaf gyda'n gilydd dros y tymor hwy ac sy'n cyfrannu orau at atal problemau rhag digwydd neu waethygu yn y dyfodol tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant. Nodir manylion pellach ym mhennod chwech.

## Cynllun Gwella'r Gyllideb

5.03 Gan adeiladu ar y teclyn ar gyfer gwirio hynt y Gyllideb a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, am y tro cyntaf rydym yn cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb yn atodiad E, sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu newid a gwella'r ffordd yr ydym yn dyrannu cyllid ar gyfer Cymru fwy cyfartal, llewyrchus a gwyrdd.

5.04 Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau tymor byr a thymor canolig dros y 5 mlynedd nesaf, i wella ein systemau ar gyfer y gyllideb a threthi. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod y camau yr ydym wedi'u cymryd yn ein taith, a sut yr ydym wedi adeiladu, neu'n bwriadu adeiladu ar y gwaith hwn yn y blynyddoedd i ddod.

5.05 Rydym yn bwriadu mireinio a diweddaru ein Cynllun yn y blynyddoedd i ddod, trwy gyhoeddi cynllun 5 mlynedd wedi'i ddiweddaru ochr yn ochr â'n Cyllideb ddrafft, i gydnabod natur barhaus y gwaith o ysgogi a chynnal newid tymor hwy.

5.06 I lywio datblygiad ein Cynllun Gwella'r Gyllideb rydym wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i ystyried sut y gallem wella'r ffordd yr ydym yn dyrannu adnoddau dros y tymor hwy. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ymchwilio i egwyddorion defnyddio teclyn ar gyfer gwirio hynt y Gyllideb sydd yn ei dro wedi llywio ein Cynllun Gwella.

5.07 Yn gynnar ym mhroses y gyllideb rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddeall eu dull gweithredu o ran Asesiad Effaith Gronnus sy'n llywio'r gwaith yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef ar asesiad effaith ddosbarthiadol o benderfyniadau ar drethi a gwario.

5.08 Rydym wedi gweithio gyda Chwarae Teg a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wrth iddynt fwrw ymlaen â cham 2 o'r Adolygiad Rhywedd sydd wedi llywio'r dull gweithredu o ran cyllidebu ar sail rhywedd yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef fel rhan o’r cynllun peilot ar y Cyfrif Dysgu Personol.

## Ymweliadau'r Gweinidog dros yr haf

5.09 Dros yr haf ymwelodd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd ag ystod o brosiectau a gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ledled Cymru i weld yn uniongyrchol sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi ac i ymchwilio i gyfleoedd i wneud mwy yn yr wyth maes trawsbynciol sy'n flaenoriaeth ac sy'n llywio ein paratoadau ar gyfer y gyllideb.

5.10 Nododd yr ymweliadau hyn enghreifftiau cryf o arferion da, gan ddangos ym mha ffyrdd yr oedd darparwyr gwasanaethau a'u partneriaid cyflawni'n cydweithio i ddarparu gwasanaethau. Tanlinellodd yr ymweliadau hyn hefyd bwysigrwydd cynnwys y bobl fwyaf anghenus a theilwra'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer ac ymchwilio i gyfleoedd i adeiladu modelau ariannu cynaliadwy.

5.11 Mae'r ymweliadau hyn, a'r themâu allweddol sy'n deillio ohonynt, yn cynnig sylfaen ddefnyddiol i adeiladu arni wrth baratoi ar gyfer y gyllideb yn y dyfodol, gan ymchwilio i gyfleoedd i ledaenu'r arferion da hyn a symud tuag at fwy o ymwneud.

## Dull gweithredu o ran cefnogi datgarboneiddio

5.12 Mae'r angen i ymateb ar frys i'r newid yn yr hinsawdd yn ogystal â mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth wrth wraidd ein huchelgais ar gyfer Cymru fwy gwyrdd. Ar y cyd â’r buddsoddiadau a amlinellir ym mhennod chwech, rydym wedi nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad C y dull gweithredu o ran cefnogi datgarboneiddio yn y gyllideb hon a nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn y dyfodol.

## Atal

5.13 Ym mhennod chwech ac Atodiad C nodir manylion y buddsoddiadau cynhwysfawr i gefnogi ymyriadau sy'n helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu yn y dyfodol.

5.14 Trwy Gynllun Gwella'r Gyllideb rydym hefyd yn canolbwyntio ar sut y gallwn gefnogi symud tuag at fuddsoddi mewn camau ataliol. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar sut i gymhwyso'r diffiniad gweithio o atal fel rhan o gyflwyno’r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

5.15 Gan weithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol rydym yn ymchwilio i Fondiau Effaith Gymdeithasol fel model buddsoddi a seilir ar ganlyniadau i leihau mynd i mewn i ofal yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal.

5.16 Rydym hefyd yn parhau i sefydlu atal trwy ein hysgogwyr trethi. Mae Awdurdod Cyllid Cymru'n ei gwneud yn haws i bobl dalu'r swm cywir o drethi ar yr adeg gywir. Treth ymddygiadol ataliol yw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi sy'n ceisio dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella ein hamgylchedd.

# Pennod 6: Buddsoddi ym mlaenoriaethau ein Llywodraeth

## Trosolwg

6.01 Mae'r Gyllideb yn parhau i osod buddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol wrth wraidd ein cynlluniau gwario, yn ogystal â chefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru fwy cyfartal, llewyrchus a gwyrdd.

6.02 O'r dechrau'n deg, rydym wedi dweud mai iechyd yw ein blaenoriaeth, ynghyd â rhoi'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol. Mae ein paratoadau wedi'u llywio gan wyth maes trawsbynciol sy'n flaenoriaeth sef y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, cyflogadwyedd a sgiliau, gwell iechyd meddwl, datgarboneiddio, tlodi a bioamrywiaeth, fel y meysydd y gallwn ddylanwadu arnynt fwyaf dros y tymor hwy. Rydym yn cydnabod mai'r wyth maes hyn yw'r rhai â'r cyfraniad posibl mwyaf i'w wneud at ffyniant a llesiant tymor hir. Maent yn feysydd blaenoriaeth lle y dangoswyd bod ymyrraeth gynnar - mynd i'r afael ag achosion craidd, yn hytrach na thrin symptomau yn unig - yn talu ar ei ganfed.

6.03 O ganlyniad i'r cyllid ychwanegol a gafodd Cymru ar gyfer 2020-21, rydym yn gallu darparu codiadau mewn termau real i'r holl bortffolios yn y Gyllideb hon. Trwy darparu codiadau cyllido rydym yn gallu cydnabod pwysau ar wario, gan gynnwys codiadau yn nhâl gweision cyhoeddus. Mae'n golygu hefyd ein bod yn gallu cynnal y mwyafrif o gyllidebau ar lefelau 2019-20 a gwneud nifer o fuddsoddiadau wedi'u targedu yn unol â'n blaenoriaethau trawsbynciol. Er hynny, gan fod ein cyllideb tebyg at ei debyg ar gyfer 2020-21 yn dal £300m yn is mewn termau real o'i chymharu â 2010-11, mae pwysau niferus o hyd na ellir mo'u bodloni gyda'r cyllid sydd ar gael.

6.04 Mae'r bennod hon yn darparu manylion y dyraniadau newydd sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau a grynhoir ac y cyfeirir atynt yn Nhabl 6.1 (refeniw, ee R1, R2 etc.) a Thabl 6.2 (cyfalaf, ee C1, C2 etc) ar ddiwedd y bennod hon. Mae'r bennod hon hefyd yn amlinellu'r penderfyniadau buddsoddi pwysicaf ym mhob portffolio yn unol â'n meysydd blaenoriaeth.

## Cymru fwy cyfartal

6.05 Yr unig ffordd o sicrhau cydraddoldeb yw ei seilio ar wasanaethau cyhoeddus cynaliadwy, hygyrch ac ymatebol at y dyfodol. Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt, gan gynnwys ein GIG, ysgolion a llywodraeth leol i gyd yn cael codiadau cyllid yn y gyllideb hon.

### Buddsoddi mewn llesiant ac iechyd

6.06 Byddwn yn buddsoddi swm ychwanegol o £421m (refeniw o £385m a chyfalaf o £36m) mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 2020-21, gan ddod â chyfanswm ein buddsoddiad i dros £8.7bn.

6.07 Mae ein dyraniadau yn 2020-21 yn adeiladu ar y lefel ddigynsail o fuddsoddiad a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys cynnydd o

dros hanner biliwn o bunnoedd mewn gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yn 2019-20. Mae ein hymrwymiad i ddiogelu iechyd a gofal cymdeithasol yn eu crynswth yn cael ei ddangos gan ffigurau diweddaraf Trysorlys Ei Mawrhydi a gadarnhaodd ein bod wedi gwario mwy y pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn 2018-19 nag unman arall yn y DU. Rydym yn gwario mwy na £3,000 y pen yng Nghymru - bron £300 yn fwy y pen nag yn Lloegr.

6.08 Wrth ddyrannu £385m yn ychwanegol o refeniw y flwyddyn nesaf, byddwn yn buddsoddi swm pellach o £342m yn ein GIG, gan fynd â chyfanswm cyllid y GIG yn 2020-21 i fwy nag £8bn. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn ein galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd o ansawdd, gan sicrhau mynediad i'r gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen a darparu canlyniadau iechyd da.

6.09 Yn ogystal ag ariannu dyfarniadau tâl yn 2020-21 a thwf yng nghostau chwyddiant, byddwn yn buddsoddi mewn trawsnewid y gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd ac mewn technolegau a thriniaethau newydd. Mae hyn yn cynnwys dyrannu £16m ar gyfer y Gronfa Triniaethau Newydd, gan gyflawni ein hymrwymiad i fuddsoddi £80m dros gyfnod y weinyddiaeth hon.

6.10 Mae ein buddsoddiad yn y GIG yn cynnwys cynnydd o £6.8m yn y cyllid ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn golygu ein bod yn buddsoddi bron £103m yn 2020-21 i gefnogi ystod o swyddogaethau ataliol ym maes diogelu iechyd a ddarperir ar draws y GIG yng Nghymru. O'r cyllid ychwanegol, bydd £4.9m yn cefnogi datblygu Gwasanaeth Diogelu Iechyd Cenedlaethol, gan helpu'r frwydr yn erbyn Ymwrthedd i Wrthfiotigau, ac fe gaiff £1.9m ei fuddsoddi yn Gwella Cymru, ein hadnodd gwella cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

6.11 Mae ein cynlluniau gwario ar gyfer iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020-21 yn parhau i fod yn seiliedig ar ein huchelgais i wireddu'r weledigaeth a nodwyd yn *Cymru Iachach,* ein cynllun tymor hir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2020-21 rydym yn buddsoddi £14m yn ychwanegol, gan adeiladu ar y £192m ar gyfer *Cymru Iachach* yn 2019-20. Bydd hyn yn darparu cyllid ychwanegol o £3.5m i gefnogi dull gweithredu Dechrau'n Deg sy'n sail i'n blaenoriaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, £10m yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol trwy grant arbennig (gan gynyddu'r grant yn 2020-21 i gyfanswm o £40m) a £500k ar gyfer yr ymagwedd Ysgol Gyfan at iechyd meddwl. Amlinellir y dyraniadau hyn ymhellach mewn adrannau perthnasol isod.

6.12 Rydym hefyd yn buddsoddi mewn atal trwy fuddsoddiad newydd o £5.5m yn 2020-21 i gefnogi strategaeth *Pwysau Iach: Cymru Iach* sy'n anelu at sicrhau bod pobl ledled Cymru yn cael eu grymuso i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu pwysau a'u hiechyd. Mae tystiolaeth yn dangos mai cynnal pwysau iach yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau'r risg o gyflyrau iechyd hirdymor fel diabetes, clefyd y galon a chanser.

6.13 Byddwn yn cadw buddsoddiad o bron £29m yn 2020-21 ar yr agenda ar gyfer camddefnyddio sylweddau trwy gyllid ein Cynllun Gweithredu ar

Gamddefnyddio Sylweddau i helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau 2019-22. Mae hyn yn cynnwys cadw £1.98m yn 2020-21 ar gyfer Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, sy'n addysgu plant ledled Cymru ar gamddefnyddio sylweddau a materion diogelwch personol ym mhob cyfnod o'r cwricwlwm. Trwy gynnal y buddsoddiad hwn byddwn hefyd yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael mynediad i'r cymorth a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen ar ôl i Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ddod i rym ar 2 Mawrth 2020.

6.14 Mae buddsoddi yn yr ystad gofal iechyd yn allweddol i wireddu'r weledigaeth a nodir yn *Cymru Iachach.* Mae'r cyfalaf ychwanegol o £36m yn golygu bod cyfanswm o £374m yn cael ei ddarparu i gefnogi cyflawni blaenoriaethau iechyd. Bydd hyn yn cefnogi prosiectau seilwaith mawr gan gynnwys camau adeiladu terfynol Ysbyty Athrofaol y Grange yng Nghwmbrân a cham nesaf ailwampio Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr.

6.15 Byddwn yn parhau i gynyddu ein buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, gan ganolbwyntio ar roi'r model gofal sylfaenol i Gymru ar waith a chydweithio trwy glwstwr gofal sylfaenol. Yn 2019-20, cyhoeddwyd cynnydd o £25m yng nghontract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, gan ei gynyddu i dros £536m. Yn ogystal, mae'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol o dros £40m yn cefnogi datblygu'r gweithlu gofal sylfaenol a gweithio mewn clystyrau.

6.16 Rydym yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol a byddwn yn buddsoddi swm pellach o £25.7m yn 2020-21, gan danlinellu ein hymrwymiad i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a phwysigrwydd atal afiechyd. Mae hyn yn cynnwys £3m yn 2020-21 mewn cyfleusterau chwaraeon lleol sy'n hanfodol i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch awyr agored.

6.17 Rydym yn dyrannu £4.3m i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a £14.2m i Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2020-21 gan sicrhau ein bod yn cynnal gwasanaethau arolygu cadarn i ddiogelu ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.

## Buddsoddi ym maes llywodraeth leol

6.18 Ynghyd â'n gwasanaeth iechyd, mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau hanfodol i bawb gan gynnwys rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae yn bartner allweddol i Lywodraeth Cymru yn ein cenhadaeth i wella addysg, darparu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae ar ein cymunedau ei hangen, trechu tlodi a sicrhau newid ysgubol ym maes tai cymdeithasol.

6.19 Mae'r cyllid refeniw a chyfalaf i lywodraeth leol trwy setliad llywodraeth leol heb ei neilltuo ar gyfer 2020-21 yn sylweddol - bron £4.5bn o gyllid refeniw yn ogystal â grantiau cyfalaf a grantiau penodol ychwanegol i'r awdurdodau lleol. Gan adeiladu ar y mesurau a gymerwyd yng nghylch cyllideb y llynedd, bu

rhoi'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol yn flaenoriaeth gennym drwy gydol ein paratoadau. Yn y gyllideb hon, yn erbyn yr ansicrwydd parhaus ym maes gwario cyhoeddus ac yn dilyn bron degawd o gyni, rydym wedi cynyddu cyllid refeniw, ochr yn ochr â chynnydd yn refeniw ardrethi annomestig, i ddarparu cyllid ychwanegol o £184m sydd ar gael i'r awdurdodau lleol yn 2020-21.

6.20 Ffactor arwyddocaol yn ein penderfyniad ar godiadau i'r cyllid ar gyfer setliad refeniw llywodraeth leol fu ein bwriad i gydnabod effaith tâl a phensiynau athrawon am weddill y flwyddyn academaidd bresennol, i ddarparu cyllid ar ôl hyn i gydnabod effeithiau dyfarniadau tâl athrawon yn y dyfodol a ddaw i rym o Fedi 2020 ac i gefnogi gwasanaethau eraill lle mae pwysau sylweddol hefyd.

6.21 Mae darparu'r setliad gorau i lywodraeth leol hefyd yn golygu cydnabod y ffrydiau cyllid eraill sy'n cael eu dyrannu i lywodraeth leol. Rydym yn cynnal ein buddsoddiad cyffredinol mewn grantiau penodol ar draws ein cyllideb gyda bron i £1bn yn 2020-21. Rydym wedi ymrwymo i roi cymaint o sicrwydd â phosibl ar ddyraniadau grant penodol i alluogi'r awdurdodau lleol i gynllunio eu hystod lawn o wasanaethau am y flwyddyn i ddod.

6.22 Rydym hefyd yn darparu cyllid cyfalaf ychwanegol heb ei neilltuo o £15m i lywodraeth leol y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn mynd â chyfanswm y dyraniad cyfalaf cyffredinol i fwy na £197m yn 2020-21, gan alluogi llywodraeth leol i fuddsoddi mewn cynyddu'r cyflenwad o dai, a fydd yn cadw'r pwysau ar gyllidebau'r awdurdodau lleol ac ar wasanaethau digartrefedd. Bydd hefyd yn caniatáu i gynghorau ymateb i'r angen i ddatgarboneiddio, yng ngoleuni argyfwng yr hinsawdd a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru a llawer o gynghorau dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Gwell iechyd meddwl

6.23 Bydd un o bob pedwar person yng Nghymru yn wynebu problemau iechyd meddwl rywbryd yn ystod ei fywyd. Mae cael y driniaeth gywir yn gynnar, yn ogystal â gwell ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, mewn nifer o achosion, yn gallu atal effeithiau andwyol tymor hwy.

6.24 I gydnabod y flaenoriaeth yr ydym yn ei rhoi ar fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl, byddwn yn parhau i neilltuo cyllid iechyd meddwl o fewn cyllideb y GIG ac rydym yn buddsoddi £13m pellach mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl y flwyddyn nesaf i gefnogi darparu *Cymru Iachach* gan ddod â chyfanswm y dyraniad wedi'i neilltuo i £700m yn 2020-21. O'r cyllid ychwanegol, mae £500k yn gymorth wedi'i dargedu ar gyfer y Rhaglen Ysgolion Cyfan i ddarparu cwnsela a chymorth emosiynol i blant ysgol. Mae hyn, ynghyd â £2m yn ychwanegol oddi wrth y gyllideb addysg, yn dod â chyfanswm ein cyllid i gefnogi'r ymagwedd ysgol gyfan at £5m yn 2020-21. Byddwn hefyd yn darparu £2m yn ychwanegol i addysg uwch a £2m i Addysg Bellach i adeiladu ar eu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, hyfforddiant staff a dulliau gweithredu arloesol wrth gefnogi iechyd meddwl, llesiant ac anghenion dysgu ychwanegol.

6.25 Rydym hefyd yn cynnal ein buddsoddiad o £2.5m, a ddyrannwyd yng nghyllideb ddrafft y llynedd, ar gyfer nodi a chefnogi pobl ifanc â materion iechyd meddwl a llesiant emosiynol trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. Bydd y cyllid hwn yn parhau i gael ei ddyrannu trwy'r Grant Cymorth Ieuenctid i'r awdurdodau lleol yn 2020-21.

6.26 I gydnabod effaith iechyd meddwl ar yr economi, caiff cyllid o fwy na £830k yn 2020-21 ei dargedu at Cymru Iach ar Waith, i wella iechyd yn y gweithle, i atal pobl rhag cael eu gwneud yn sâl yn y gwaith, i hybu cadw neu adsefydlu'r rhai sy'n cael eu gwneud yn sâl yn y gwaith, ac i atal y cysylltiad rhwng afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith ac anweithgarwch economaidd.

## Gofal cymdeithasol

6.27 Mae gofal urddasol a thosturiol yn rhan hanfodol o gymunedau cryf, gan helpu pobl i aros yn iach ac yn annibynnol am gyfnod hwy, ac mae'n sector economaidd pwysig ynddo'i hun. Cafwyd cynnydd o 4.6 y cant ar wariant y pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd yn 2018-19. £3,051 oedd y gwariant y pen yng Nghymru, yr uchaf o bedair gwlad y DU a rhyw 11 y cant yn uwch nag yn Lloegr, sef £294 y pen yn ychwanegol.

6.28 Gan adeiladu ar y £30m ychwanegol a ddyrannwyd trwy grant penodol i'r awdurdodau lleol eleni i fynd i'r afael â phwysau mewn gofal cymdeithasol, rydym yn cynyddu'r grant i £40m yn 2020-21. Rydym yn dyrannu £2.3m - o'r cyllid iechyd ychwanegol o £385m - ar gyfer y gwasanaeth mabwysiadu. Bydd hyn yn cryfhau ac yn gwella gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, i fabwysiadwyr, plant a phobl ifanc, gan helpu'r awdurdodau lleol i wella canlyniadau i blant a chreu teuluoedd mabwysiadol cadarn.

6.29 Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y Gronfa Gofal Integredig gyda chyllideb o fwy na £130m (refeniw o £89m a chyfalaf o £42m) yn 2020-21. Bydd y gronfa'n parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu a phrofi modelau gwasanaethau ataliol, integredig ar gyfer pobl hŷn ag anghenion o ran gofal a chymorth, pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth, plant mewn gofal neu sydd mewn perygl o fod mewn gofal a gofalwyr. Mae cyfres o wasanaethau wedi'i datblygu dros y continwwm atal gan amrywio o gysylltwyr cymunedol i wasanaethau i helpu pobl i aros yn dda gartref ac atal derbyniadau i'r ysbyty. Mae'r gronfa'n cael eu rheoli trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddod ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ynghyd i ddarparu gwasanaethau o gwmpas anghenion dinasyddion. Rydym yn dyrannu cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol o £2m yn 2020-21 ar gyfer Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron yn Nhregaron i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymunedol integredig, tai gofal ychwanegol ac unedau camu i fyny/camu i lawr mewn lleoliad gwledig anghysbell. (C3)

6.30 Rydym yn dyrannu £900k yn 2020-21 i fwrw ymlaen â gwaith ymchwilio ar ymagwedd integredig at gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg. Fel rhan o hyn byddwn yn comisiynu ymarfer cwmpasu i ymchwilio ymhellach i

fodelau integredig, Ysgolion Rhithwir a dulliau gweithredu system gyfan, fel sail ar gyfer dull gweithredu yng Nghymru. (R1)

6.31 Yn 2020-21 byddwn yn dechrau cylch newydd o Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a fydd yn para am dair blynedd. Mae swm ychwanegol o £1.2m yn cael ei ychwanegu at y grant ar gyfer 2020-21 a thros y tair blynedd nesaf byddwn yn cynyddu £4.9m ar gyfanswm yr ymrwymiad ar y grant hwn, gan ddod â chyfanswm yr ymrwymiad at £25.9m. Bydd y cynlluniau a ariennir yn cefnogi gofalwyr, plant a phobl ifanc, anableddau dysgu a phobl hŷn.

## Y blynyddoedd cynnar

6.32 Rydym am weld plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Ein nod yw sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i wireddu eu llawn botensial a chael y cyfle gorau i fyw bywyd iach a ffyniannus fel oedolion a gwireddu eu dyheadau, gan chwarae rhan lawn mewn cymunedau, yn y gweithle, a chyfrannu at ein llwyddiant economaidd yn y dyfodol.

6.33 I gydnabod y cyfraniad hanfodol y gall buddsoddi yn ymyriadau'r blynyddoedd cynnar ei wneud at iechyd a llesiant am oes, rydym yn buddsoddi swm pellach o £3.5m yn null gweithredu Dechrau'n Deg, gan adeiladu ar waith Rhaglen Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar gan ein galluogi i gyrraedd mwy o blant a theuluoedd y mae arnynt angen cymorth yn y blynyddoedd cynnar. Rydym hefyd yn buddsoddi cyfalaf ychwanegol o £4m i sicrhau bod ystad Dechrau'n Deg yn cael ei chadw ac yn gallu parhau i ddarparu'r safonau gofal uchaf. (C1)

6.34 Yn *Ffyniant i Bawb* nodwyd rôl y sector gofal plant yn natblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn un o brif ysgogwyr newid ar gyfer y sector gofal plant. Ar gyfer 2020-21, rydym yn dyrannu £20m o'r codiad iechyd o £385m i gynyddu cyllid ar gyfer y cynnig gofal plant o £40m i £60m. Rydym hefyd yn buddsoddi cyllid cyfalaf ychwanegol o £6m yn 2020-21 i gefnogi ein Cynnig Gofal Plant gan ddod â chyfanswm y gyllideb gyfalaf i £70m dros dair blynedd (2018-19 i 2020-21). (C1)

6.35 Ers mis Ebrill 2019 mae'r holl safleoedd gofal plant yng Nghymru'n cael rhyddhad o 100 y cant ar eu biliau ardrethi annomestig mewn pecyn cymorth gwerth £7.5m dros dair blynedd (2019-20 i 2021-22).

6.36 Byddwn yn cyflwyno cynllun newydd i gefnogi Bwndel Babi gyda chymorth o £150k yn 2020-21. Mae hwn yn gasgliad o eitemau hanfodol a chanllawiau defnyddiol i rieni newydd yn yr wythnosau a'r misoedd cyntaf gyda'u babi newydd.

6.37 Yn unol â'n hymrwymiad hirsefydlog ar hawliau plant, rydym yn buddsoddi £500k pellach yn Hyb Cymorth Cymru ar gyfer Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod a £600k yn 2020-21 i ddatblygu a chefnogi'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth os bydd Bil Plant (Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

6.38 Rydym yn dyrannu cyllid cyfalaf o £1.2m yn 2020-21 i ddarparu llety diogel ar gyfer teuluoedd sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. Bydd y cyllid yn cefnogi darparwyr y trydydd sector i gaffael unedau cymunedol ar wasgar gyda hyblygrwydd i ddiwallu anghenion teuluoedd na all llochesi mo'u diwallu. Gan mai menywod sy'n darparu gofal yn ein cymdeithas maent yn fwy tebygol o ffoi gyda phlant.(C2)

## Buddsoddi mewn addysg

6.39 Trwy’r setliad llywodraeth leol a thrwy ein cyllideb addysg o £1.8bn rydym yn cyflawni ar ein cynllun gweithredu *Ein Cenhadaeth Genedlaethol* trwy godi safonau, mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system addysg sy’n destun hyder a balchder cenedlaethol.

6.40 Yn unol â'n hymrwymiad i fuddsoddi £100m dros dymor y Cynulliad hwn i godi safonau ysgolion, rydym yn buddsoddi £25.5m yn 2020-21. Mae cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru wrth wraidd ein cynllun gweithredu. Caiff y cynllun ei gefnogi gan £10m yn 2020-21, gyda chyllid ychwanegol o £3m i ddatblygu rhwydweithiau cenedlaethol i ddarparu cymorth ac adnoddau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol ar lefel yr ysgol.

6.41 Bydd ein dull gweithredu cenedlaethol o ran dysgu proffesiynol yn cefnogi'r gwaith o wireddu'r cwricwlwm newydd trwy baratoi pob un o'n hymarferwyr ar gyfer y newid sylfaenol angenrheidiol mewn arferion. Y llynedd cyhoeddwyd hefyd y buddsoddiad unigol mwyaf yn ein proffesiwn addysgu hyd yn hyn, sef pecyn o ddysgu proffesiynol gwerth £24m dros 18 mis, hyd at 2019-20. Ar gyfer 2020-21, rydym yn darparu swm pellach o £15m i sicrhau bod ein proffesiwn addysgu yn cael y cymorth y mae arno ei angen i godi safonau ac i gyflwyno ein cwricwlwm trawsnewidiol newydd.

6.42 Rydym wedi trefnu bod £36m ar gael dros dymor y Cynulliad hwn i leihau maint dosbarthiadau babanod, sy'n cael ei dargedu'n bennaf at y rhai y mae amddifadedd yn effeithio arnynt fwyaf. Ar gyfer 2020-21, rydym wedi neilltuo £11m i barhau i gefnogi'r ymrwymiad hwn.

6.43 Rydym wedi ymrwymo o hyd i egwyddorion addysgeg y Cyfnod Sylfaen ac mae'r dull gweithredu hwnnw'n cyfrannu at ddatblygiadau yn y cwricwlwm 3-16 newydd. I adlewyrchu'r flaenoriaeth hon, byddwn yn buddsoddi swm ychwanegol o £2.5m trwy'r Grant Gwella Addysg yn 2020-21 i gefnogi'r cymarebau athro-disgybl sy'n hanfodol er mwyn sicrhau arferion effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen.

6.44 Mae'r gyllideb yn darparu £8m yn ychwanegol yn 2020-21 i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gael addysg o ansawdd uchel ac i gyflawni eu potensial. Bydd y cyllid yn cefnogi'r awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dysgwyr ag anghenion ac anableddau cymhleth i lwyddo, ac mae'n ychwanegol at y pecyn cyllido dros dymor y Cynulliad hwn i gefnogi paratoi ar gyfer rhoi'r system ADY newydd ar waith.

6.45 Rydym yn cynnal ein buddsoddiadau blaenorol ac yn buddsoddi £1.3m ar gyfer gwasanaethau i gefnogi dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy’n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan ddarparu cyfanswm o £10m i gefnogi gwell canlyniadau i'r grŵp hwn o ddysgwyr ar gyfer 2020-21.

6.46 Rydym yn darparu £14m yn ychwanegol yn 2020-21 i gefnogi ein Colegau Addysg Bellach. Nid yn unig bydd y buddsoddiad sylweddol hwn yn codi safonau ac yn cefnogi myfyrwyr, ond bydd hefyd yn darparu cyllid ychwanegol i golegau i gadw cydraddoldeb tâl rhwng athrawon a darlithwyr AB ac i gefnogi codiadau mewn pensiwn. Mae hyn yn adeiladu ar y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd y mis diwethaf i gefnogi pwysau tâl a phensiynau yn y flwyddyn academaidd 2019/20.

6.47 Rydym bellach yn buddsoddi dros £900m y flwyddyn ar y system gymorth fwyaf blaengar a theg i fyfyrwyr yn y DU ac i sicrhau bod gennym setliad ariannu cynaliadwy ar gyfer Addysg Uwch.

6.48 Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i gynnig cymorth i fyfyrwyr ar gyfer costau byw sy'n gyfwerth â'r cyflog byw cenedlaethol a'r unig wlad yn yr UE i gynnig cymorth cyfartal i fyfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr ôl-raddedig. Mae'r diwygiadau i gymorth myfyrwyr a amlinellir yn ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond wedi'i rhoi ar waith bellach ac rydym yn canolbwyntio ein sylw bellach ar weithrediad graddedig y diwygiadau i ffordd y mae Addysg Uwch yn cael ei hariannu.

6.49 Rydym hefyd yn dyrannu £10m yn ychwanegol i roi hwb i Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif gan fynd â chyfanswm ein buddsoddiad dros dymor y Cynulliad hwn i fwy na £650m. Bydd hyn yn helpu partneriaid cyflawni wrth drawsnewid y seilwaith addysg i ddarparu amgylchedd ysbrydoledig i ddysgwyr a symud tuag at ystad addysgol fwy gwyrdd.

## Tai

6.50 Rydym am i bawb gael byw mewn cartref sy’n diwallu eu hanghenion ac sy’n eu helpu i fyw bywydau iach, llwyddiannus a llewyrchus. Cartrefi o ansawdd da yw conglfeini cymunedau da, ac maent yn gosod sylfaen i unigolion a theuluoedd allu ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau.

6.51 Dros dymor y Cynulliad hwn rydym wedi buddsoddi £2bn i gydnabod pwysigrwydd tai da o ansawdd i gefnogi cymunedau ffyniannus. Yn 2020-21 rydym yn dyrannu £175m o gyllid cyfalaf ychwanegol, sy'n dod â chyfanswm ein buddsoddiad y flwyddyn nesaf i £400m. Mae'r cyllid ychwanegol yn cynnwys:

| Gweithgarwch - cyfalaf | £m |
|---|---|
| Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron (C3) | 2 |
| Grant Tai Cymdeithasol (C4) | 48 |
| Cronfa Rhyddhau Tir (C5) | 5 |
| Adeiladu â dulliau Modiwlar (C6) | 10 |
| Datblygiad Preswyl Tirion Homes (C7) | 18.4 |
| Benthyciadau Tai (C8) | 50 |
| Y Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru (C9) | 35 |
| Benthyciadau Canol Trefi (C10) | 10 |

6.52 Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein targed uchelgeisiol o ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy yn ystod tymor y Cynulliad hwn, ac rydym ar y trywydd iawn o ran hynny. I barhau â'r momentwm hwn, rydym yn darparu £48m o arian cyfalaf ychwanegol yn 2020-21 i gefnogi'r Grant Tai Cymdeithasol. (C4)

6.53 Mae angen i'n 225,000 o dai cymdeithasol fod o ansawdd foddhaol, gan gydnabod bod tai o ansawdd yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles, yn enwedig lles meddyliol. Rydym yn parhau i gefnogi landlordiaid cymdeithasol gyda £108m y flwyddyn i sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei gyflawni a'i gynnal.

6.54 Yn 2020-21 caiff £5m o gyllid cyfalaf ei fuddsoddi yn y Gronfa Rhyddhau Tir sy'n canolbwyntio ar dir sy'n eiddo cyhoeddus gyda'r bwriad o'i ddatblygu'n gyflymach er budd polisi cyhoeddus, ond gan ganolbwyntio i gychwyn ar ddarparu tai cymdeithasol. (C5)

6.55 Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru i ddatblygu nifer o fentrau i gefnogi ein hagenda dai. Bydd £10m o gyllid cyfalaf trafodion ariannol yn 2020-21 yn sicrhau y caiff rhagor o dai cymdeithasol modiwlar eu darparu yn gyflymach. (C6)

6.56 Bydd cyllid cyfalaf trafodion ariannol o £18.4m yn 2020-21 yn helpu i gwblhau'r gwaith o ddarparu tri datblygiad preswyl gan Tirion Homes yn Nhonyrefail, Caerdydd a Chasnewydd i alluogi darparu mwy na 1,500 o dai newydd, a hanner y rheini'n dai fforddiadwy, heb fod angen am unrhyw grant tai cymdeithasol. (C7)

6.57 Dyrennir £50m o gyllid cyfalaf trafodion ariannol i'r rhaglen Benthyciadau Tai yn 2020-21 i gynorthwyo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ariannu cynlluniau datblygu ar gyfer tai cymdeithasol newydd a helpu i ddechrau'r gwaith o ddatgarboneiddio tai sy'n bodoli eisoes. (C8)

6.58 Mae cyllid cyfalaf trafodion ariannol o £35m yn cael ei ddyrannu yn 2020-21 i'r cynllun Cymorth i Brynu - Cymru a ddarperir drwy Fanc Datblygu Cymru. Mae Cymorth i Brynu yn darparu benthyciad ecwiti a rennir i brynwyr cartrefi sydd newydd eu hadeiladu. (C9)

6.59 Er mwyn cynorthwyo ein gweithgareddau adfywio ehangach, mae cyllid cyfalaf trafodion ariannol o £10m yn cael ei ddarparu yn 2020-21 ar gyfer Benthyciadau Canol Trefi. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu

safleoedd segur yng nghanol trefi, i greu cyfleoedd datblygu newydd, i brynu eiddo adfeiliedig neu eiddo gwag hirdymor, ac adnewyddu anheddau neu safleoedd busnes i safon addas sy'n rhydd rhag peryglon difrifol, gan sicrhau eu bod yn addas i'w meddiannu ar unwaith. (C10)

6.60 Mae'r Grant Atal Digartrefedd, yr ydym yn ei gynnal gyda chyllideb o £17.9m yn 2020-21, yn cefnogi darparu gwasanaethau sydd â'r nod o atal digartrefedd, ac mewn achosion lle na ellir ei atal, sicrhau bod hynny'n beth prin, yn para am gyfnod byr ac nad yw digwydd fwy nag unwaith.

## Cydraddoldeb a chynhwysiant

6.61 Yn 2020-21 bydd cynnydd o dros £700k yn ein cyllideb benodol ar gyfer cydraddoldeb, sy'n golygu y bydd cyfanswm y gyllideb cydraddoldeb a chynhwysiant dros £7m. Bydd hyn yn ein galluogi i atgyfnerthu ein gwaith i hybu cydraddoldeb o ran canlyniadau i bobl â nodweddion gwarchodedig.

6.62 Bydd y cyllid hwn yn sicrhau cynnydd o ran yr adolygiad o gydraddoldeb rhywiol ac yn cynorthwyo'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol ac yn darparu cefnogaeth i sefydliadau cydraddoldeb, hil ac anabledd yng Nghymru. Bydd y cyllid ychwanegol hefyd yn darparu gwell lefelau o gymorth i sefydliadau cydraddoldeb a hil yng Nghymru, gan gynnwys cymorth i ariannu dathliadau Diwrnod Windrush yng Nghymru a chymorth i ddarparu'r fframwaith 'Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol'. Byddwn hefyd yn parhau i gyllido drwy'r Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant i gefnogi sefydliadau megis Anabledd Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Stonewall Cymru, y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru (sy'n cynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches), TGP Cymru (sy'n cynorthwyo Sipsiwn, Roma a Theithwyr), a Chymorth i Ddioddefwyr (mynd i'r afael â throseddau casineb).

6.63 Caiff £250k ychwanegol ei ddyrannu i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sef cyfanswm buddsoddiad o dros £5m yn 2020-21. Fel Llywodraeth, rydym wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fenywod, a gwnaed gwaith sylweddol ers cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

6.64 Yn 2020-21 caiff dros £400k ei ddyrannu i'r prosiect Braenaru i Fenywod a'r glasbrintiau troseddau ieuenctid a throseddau menywod, gyda'r ddau yn canolbwyntio ar atal troseddu. Datblygwyd y glasbrint Troseddau Menywod ar y cyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM a Llywodraeth Cymru, ac mae'n seiliedig ar atal ac ymyrraeth gynnar ac ystyried sut y gallwn ddylanwadu ar bobl i beidio â throseddu yn y lle cyntaf, ond pan fydd rhaid gweithio gyda throseddwyr, ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd gyfannol sy'n eu hadsefydlu.

6.65 Mae ein cyllidebau cydraddoldeb yn canolbwyntio ar gamau ataliol. Yn ystod 2020-21, gyda chymorth y Gronfa Bontio Ewropeaidd, gallwn gynnig cymorth parhaus i'r prosiect Atgyfnerthu Cydlyniant Cymunedol, gwaith o ran Mynd i'r

Afael â Throseddau Casineb a sicrhau Cydlyniant Cymunedol, a'r prosiect ar Hawliau Dinasyddion yr UE. Mae'r prosiectau hyn yn sefydlu'r pum ffordd o weithio, gyda phwyslais cryf ar gynnwys grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a darparu ymyriadau sy'n ceisio atal effeithiau niweidiol a hyrwyddo integreiddio.

### Buddsoddi mewn tystiolaeth a gwelliant

6.66 Byddwn yn buddsoddi £1m ychwanegol yn y gwasanaethau cyhoeddus yn 2020-21. Caiff £500k ei fuddsoddi yng ngalluogrwydd gwyddor data, £250k ar gyfer prosiectau digidol a data, a £250k ar gyfer cytundeb geo-ofodol y sector cyhoeddus.

## Cymru fwy llewyrchus

6.67 Rydym yn awyddus i'n heconomi fod yn un sy'n seiliedig ar sgiliau o ansawdd uchel, sy'n darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar fusnesau i dyfu ac i arloesi, ac sy'n galluogi pobl i ffynnu mewn Cenedl Gwaith Teg. Dylai pob unigolyn feddu ar y sgiliau sydd eu hangen arno i ddod o hyd i swydd, a dylai gael y cyfle i feithrin sgiliau newydd drwy gydol ei fywyd gwaith.

### Tlodi

6.68 Mae ein dull gweithredu o ran mynd i'r afael â thlodi yn golygu bod pob portffolio Gweinidogol yn gyfrifol am wella canlyniadau, gan ganolbwyntio ar fentrau sy'n arbed arian i bobl a gwasanaethau sy'n cynorthwyo unigolion a theuluoedd sydd o dan anfantais.

6.69 Rydym yn buddsoddi bron £1bn mewn amryw o fesurau sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi. Mae hyn yn cynnwys £244m bob blwyddyn ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gydag un o bob pump o aelwydydd yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor, dros £125m ar gyfer y Grant Cymorth Tai a chymorth parhaus i blant a theuluoedd yn y blynyddoedd cynnar drwy agweddau ar y Grant Plant a Chymunedau, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

6.70 Rydym hefyd yn dyrannu dros £19m yn 2020-21 (gweler ar y dudalen nesaf) ar gyfer pecyn o fesurau sydd wedi eu targedu yn benodol i helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys y rheini sy'n byw mewn tlodi.

| Gweithgarwch - refeniw | £m |
|---|---|
| Tlodi Mislif (R2) | 0.2 |
| Urddas Mislif (R3) | 3.1 |
| Y Gronfa Cymorth Dewisol (R4) | 1 |
| Y rhaglen credydau amser (R5) | 0.5 |
| Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar (R6) | 6.6 |
| Mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion (R7) | 3.2 |
| Cynllun peilot lwfans brecwast am ddim (R8) | 0.5 |
| Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau’r Ysgol (R9) | 1.8 |
| Cynllun peilot llwgu yn ystod y gwyliau (R10) | 1 |
| Cyngor ar ynni cartref a mynd i'r afael â thlodi tanwydd (R11) | 0.4 |

6.71 Rydym yn dyrannu £220k yn 2020-21 i barhau i gyllido awdurdodau lleol i ddarparu eitemau ar gyfer y mislif am ddim i aelodau o'r cyhoedd sydd mewn angen drwy fanciau bwyd a sefydliadau eraill. Rydym hefyd yn dyrannu dros £3.1m yn 2020-21 i gynnal y cyllid a roddir i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach i ddarparu eitemau ar gyfer y mislif am ddim i bob dysgwr i hyrwyddo urddas mislif. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod merched yn cael mynediad at addysg, ac nad yw analluo i gael eitemau ar gyfer y mislif yn effeithio ar bresenoldeb addysgol merched. (R2, R3)

6.72 Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn cynnig taliadau, neu gymorth mewn nwyddau, er mwyn rhoi cymorth brys i bobl lle nodwyd bod angen diogelu iechyd a llesiant. Ers mis Ebrill 2013, mae'r gronfa hon wedi cefnogi dros 250,000 o ddyfarniadau i'r bobl fwyaf agored i niwed, gan roi gwerth £51.4m mewn grantiau ers mis Ebrill 2013. Byddwn yn darparu £1m yn ychwanegol yn 2020-21 er mwyn diwallu'r galw cynyddol am arian o'r gronfa. (R4)

6.73 Rydym yn dyrannu £500k i ddatblygu rhaglen Credydau Amser genedlaethol. Gellir ennill Credydau Amser am roi amser yn wirfoddol i nifer o brosiectau cymunedol sydd â'r nod o gynyddu cydlyniant cymunedol drwy gynnig rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd i bobl sydd mewn tlodi. (R5)

6.74 Rydym yn parhau â'n buddsoddiad mewn prydau ysgol am ddim yn 2020-21, gan adeiladu ar sail y £7m ychwanegol sydd ar gael drwy'r setliad llywodraeth leol yn 2019-20 i dalu costau ychwanegol prydau ysgol am ddim sy'n gysylltiedig â'r meini prawf cymhwysedd newydd a chamau diogelu yn ystod y cyfnod pontio.

6.75 Rydym yn cydnabod mai gorau po gyntaf y bydd plentyn yn cael cymorth, er mwyn sicrhau’r deilliannau gorau iddo. Yn ystod y tymor hwn rydym wedi mwy na dyblu’r Grand Datblygu Disbyblion ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Rydym yn falch o adeiladu ar y cyllid hwn gyda buddsoddiad ychwanegol o £6.6m yn 2020-21. (R6)

6.76 Mae mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion yn chwarae rôl allweddol o ran helpu teuluoedd i dalu costau diwrnod ysgol. Yn 2019-20 roedd cynnydd o £5m yn y cyllid a roddwyd gennym i gefnogi dysgwyr cymwys yn y dosbarth derbyn a blwyddyn 3, 7 a 10. Yn ogystal, rhoddwyd cymorth am y tro cyntaf y

llynedd i bob plentyn sy'n derbyn gofal yn y grwpiau blwyddyn hyn. Rydym yn mynd ymhellach, drwy ddyrannu £3.2m ychwanegol yn 2020-21 i ehangu'r cynllun i ragor o grwpiau blwyddyn (R7). Gyda'i gilydd mae'r ddau fesur hyn yn golygu ein bod yn darparu £9.4m yn ychwanegol ar gyfer y Grant Datblygu Disbyblion gan ddarparu lefel uwch nag erioed o fuddosoddiad, sef £101m ar gyfer 2020-21.

6.77 Rydym yn buddsoddi £450k ychwanegol ar gyfer cynllun peilot clwb brecwast i ddatblygu model sy'n galluogi darparu brecwast iachus a maethlon, yn ddi-dâl, i ddisgyblion sydd â'r hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim, cyn iddynt ddechrau eu diwrnod ysgol neu yn ystod egwyl y bore mewn ysgolion uwchradd. (R8)

6.78 Rydym yn dyrannu £1.8m o gyllid ychwanegol yn 2020-21 i raglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol, sy'n darparu cyfleoedd i blant 7-11 oed i fod yn fwy actif, bwyta'n iach a datblygu cyfeillgarwch tra'n manteisio i'r eithaf ar gyfleusterau ysgolion lleol mewn ardaloedd difreintiedig yn ystod gwyliau'r haf. Bydd cynyddu cyfanswm ein buddsoddiad i £2.7m yn ein galluogi i ehangu'r rhaglen i hyd at 7,600 o blant. (R9)

6.79 Rydym yn cynyddu'r cyllid o £100k yn 2019-20 i £1m yn 2020-21 i ehangu'r Cynllun Peilot Llwgu yn ystod y Gwyliau, sy'n galluogi lleoliadau cymunedol a lleoliadau chwarae i ehangu neu wella'r ddarpariaeth o fwyd neu leoedd i blant a phobl ifanc. (R10)

6.80 Rydym hefyd yn ymateb i'r risg y bydd newid yn yr hinsawdd yn cael yr effaith fwyaf ar y bobl mwyaf difreintiedig, gan gynnwys o ran costau ynni cartref. Yn y Gyllideb hon rydym yn ymrwymo £36m, gan gynnwys £8m o gyllid yr Undeb Ewropeaidd, i ariannu mesurau defnyddio ynni'n effeithlon ar gyfer 25,000 o aelwydydd drwy'r cynlluniau Nyth ac Arbed. Ers 2010 rydym wedi buddsoddi dros £240m drwy'r raglen hon, gan helpu i godi degau o filoedd o aelwydydd incwm isel allan o dlodi tanwydd. Gan adeiladu ar sail y buddsoddiad cyfredol, rydym wedi dyrannu cyllid o £400k yn 2020-21 i roi cyngor i aelwydydd incwm isel ar ynni cartref a chyngor ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd. (R11)

6.81 I gydnabod pwysigrwydd asedau cymunedol, rydym yn darparu £1m ychwanegol mewn cyfalaf trafodion ariannol yn 2020-21 i Gronfa Fenthyca Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer Asedau Cymunedol. (C35)

## Cyflogadwyedd a sgiliau

6.82 Mae cysylltiad amlwg rhwng twf economaidd, swyddi a threchu tlodi. Mae swyddi diogel, cynaliadwy sy'n talu cyflog da yn cynnig ffordd o ddianc rhag tlodi yn ogystal ag amddiffyn rhagddo – nid ar gyfer yr unigolyn yn unig ond hefyd ar gyfer y rhai sy'n dibynnu arnynt, yn ogystal â'r gymuned ehangach.

6.83 Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £175m mewn cyflogadwyedd a sgiliau erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Mae ein Cynllun Cyflogadwyedd, a gyhoeddwyd fis Mawrth 2018, yn amlinellu ein huchelgeisiau i helpu pobl i

gael swyddi yn yr oes sydd ohoni, wrth hefyd baratoi'r gweithlu ar gyfer heriau'r dyfodol yn y tymor byr ac yn y tymor hwy. Mae ein cynllun yn cydnabod y cysylltiadau pwysig rhwng sgiliau, hyfforddiant, trechu tlodi a meysydd polisi eraill sy'n effeithio ar gyfleoedd gwaith – megis iechyd, tai, trafnidiaeth a gofal.

6.84 Yn y Gyllideb hon rydym yn dyrannu £9m i gynnal y proffil gwariant rhwng cyllid yr UE a'n cyllid ni er mwyn cyflawni ein hymrwymiad o leiafswm o 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bob oed yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm ein buddsoddiad yn 2020-21 yn fwy na £97m (net). (R12)

6.85 Yn 2019–20 dyrannwyd £3m ychwanegol i gefnogi gweithgynhyrchwyr allweddol yn y sector modurol a'r sector awyrofod i ddatblygu eu sgiliau. Rydym yn rhoi £1.6m o gyllid ychwanegol yn ystod 2020–21 i barhau â'r ymrwymiad pwysig hwn.

6.86 Rydym yn dyrannu dros £40m i Gymorth Gwaith Cymru yn 2020–21 a fydd yn rhoi ffordd newydd o ddarparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau o fis Ebrill 2020. Bydd tua 16,000 o bobl yn derbyn cymorth bob blwyddyn i sicrhau bod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt i gael swydd – pa rwystrau bynnag sydd ganddynt.

6.87 Rydym hefyd yn dyrannu £9.1m yn 2020–21 ar gyfer Cymru'n Gweithio. Mae Cymru'n Gweithio yn darparu un pwynt mynediad cenedlaethol, yn annibynnol ar ddarparwyr cymorth, gyda chynghorwyr gyrfaoedd cymwysedig yn sicrhau bod unigolion yn cael eu cyfeirio at y lle cywir ar yr adeg gywir, yn dibynnu ar eu hanghenion a'r hyn sy'n eu hatal rhag cael swydd.

6.88 Mae angen codi lefelau'r bobl anabl mewn gwaith er mwyn mynd i'r afael a'r bwlch cyflogaeth anabledd a lefelau tlodi ymhlith pobl anabl yng Nghymru. Bydd £275k o gyllid yn 2020-21 ar gyfer Eiriolwyr dros Gyflogi Pobl Anabl yn ein galluogi i gymryd camau i newid agweddau cyflogwyr, lleihau'r stigma a rhoi cymorth gwell i gyflogwyr i recriwtio a chadw pobl anabl. (R13)

6.89 Cafodd fframwaith newydd Llywodraeth Cymru 'Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol, ei lansio ym mis Medi 2019. Rydym yn rhoi £225k yn 2020–21 i weithredu o dan y fframwaith hwn, a byddwn yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a rhanddeiliaid anabledd eraill i ystyried cyfleoedd i adeiladu ar y Cynllun Hyderus o Ran Anabledd presennol, i sicrhau bod gennym gynllun gwobrau anabledd – wedi'i deilwra i'r cyflogwyr sydd yma yng Nghymru – sy'n gwireddu ein huchelgais i gynyddu nifer y bobl anabl mewn gwaith. (R14)

6.90 Bydd mwy nag £1.6m yn cael ei fuddsoddi yng Nghronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) yn 2020–21, i hyrwyddo a chefnogi dysgu yn y gweithle ac i gydnabod rôl bwysig yr Undebau Llafur a'r dysgu maent yn ei ddarparu wrth annog pobl i ddatblygu eu sgiliau a threchu tlodi.

6.91 Ynghynt eleni gwnaethom lansio fersiwn beilot o'n Cyfrifon Dysgu Personol, gan gyflawni ein hymrwymiad yn y Cynllun Cyflogadwyedd i ddarparu cyllid ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol i bobl mewn sectorau lle y gellir dangos bod diffyg sgiliau. Mae buddsoddiadau gwerth £2m y flwyddyn yn cael eu gwneud ar gael dros ddwy flynedd (2019–20 a 2020–21) i gefnogi pobl mewn swyddi isel eu cyflog ac isel eu sgiliau. Rydym yn defnyddio dull cyllidebu ar sail rhywedd fel rhan o'r rhaglen beilot hon i ddeall sut y gallai'r dull hwn helpu i nodi a deall yr effeithiau gwahanol sy'n bosibl, gan gynnwys effeithiau anfwriadol, er mwyn gwella'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu adnoddau.

## Buddsoddi mewn economi gynaliadwy

6.92 Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yw'r polisi arweiniol a'r ddogfen strategol ar gyfer ein holl weithgareddau ar draws yr economi. Wrth wraidd y Cynllun mae'r nodau deuol o leihau anghydraddoldeb a rhannu ffyniant, wedi eu hadlewyrchu yn y contract economaidd a'r dull ar gyfer datblygu economaidd sy'n seiliedig ar le. Cronfa Dyfodol yr Economi a Banc Datblygu Cymru yw'r prif ffyrdd rydym yn darparu cyllid ar gyfer busnesau, ac maent yn rhan o'r dull symlach ar gyfer ymdrin â chyllid i fusnesau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

6.93 Yn 2020–21 rydym yn darparu £20.8m o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi, gan ddod â chyfanswm ein buddsoddiad mewn datblygu busnes i £45m, i ddarparu cymorth i fusnesau ledled Cymru yn unol â'n nodau i sicrhau canlyniadau tecach a mwy cyfiawn, yn agosach at ein stepen ddrws, ac i ddarparu cymorth ar gyfer busnesau sydd eisoes yn bodoli yr effeithir arnynt gan Brexit. (C11)

6.94 Rydym hefyd yn buddsoddi cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol gwerth £5m yn 2020–21 yn y Gronfa Ad-daladwy ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig, i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf a phrosiectau sy'n creu swyddi. Nod y gronfa hon yw cynyddu a diogelu swyddi yn economi Cymru, yn enwedig yn yr ardaloedd a gynorthwyir lle y cydnabyddir bod lefelau uchel o ddiweithdra ynghyd â'r amddifadedd cysylltiedig. (C12)

6.95 Mae cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol o £40m yn cael ei ddyrannu i Fanc Buddosddi Cymru i roi cefnogaeth ychwanegol i fusnesau. Mae hyn yn cynnwys £20m yn 2020-21 i hybu datblygiadau BBaCh er mwyn helpu i greu busnesau a'u hannog i aros a thyfu yng Nghymru. (C13)

6.96 Mae hefyd yn cynnwys £14m o gyllid yn 2020-21 ar gyfer Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol, i ddarparu tua 150,000 troedfedd sgwâr o weithleoedd modern o ansawdd uchel, sy'n gallu cynnal buddsoddiadau lleol a mewnfuddsoddiadau (C14), yn ogystal â £6m yn ychwanegol i wella gallu BBaCh i gael gafael ar gyllid. (C15)

6.97 Mae Busnes Cymru yn parhau i chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi busnesau ac entrepreneuriaid, gan gynnwys helpu busnesau i baratoi ar gyfer Brexit. Bydd y gyllideb o £11m ar gyfer 2020–21 yn ategu buddsoddiadau mewn

porth Brexit, a fydd yn darparu gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer amrediad o faterion sy'n gysylltiedig â bod yn barod, yn ogystal â chynnig offeryn diagnostig i helpu cwmnïau i asesu faint bydd Brexit yn effeithio arnynt.

6.98 Busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru. Yn 2020–21 rydym yn darparu mwy na £125m i helpu busnesau bach a chanolig gyda'u biliau ardrethi annomestig, drwy'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach parhaol a'n Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer y Stryd Fawr a Manwerthu. Mae mwy na 70,000 o dalwyr ardrethi'n derbyn rhyddhad ardrethi annomestig, ac nid yw hanner yr holl fusnesau'n talu ardrethi o gwbl.

## Seilwaith modern a chysylltiedig

6.99 Mae seilwaith trafnidiaeth a digidol yn hanfodol wrth sicrhau mynediad at swyddi, gan hwyluso cysylltiadau rhwng busnesau a chefnogi cynhyrchiant a thwf yn ein cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod y cysylltiad pwysig rhwng seilwaith a'r effaith ar yr amgylchedd. Yn ogystal â'n buddsoddiadau mewn trafnidiaeth gynaliadwy, yn 2020–21 rydym yn buddsoddi dros £700m mewn seilwaith digidol ac yn seilwaith y ffyrdd, y rheilffyrdd, yr awyr a'r môr.

6.100 Er mwyn annog pobl i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn ddibynadwy, ac yn y gyllideb hon rydym wedi cynnal ein cyllidebau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd ein hymrwymiad i ddarparu seilwaith rheilffyrdd modern, cysylltiedig yn cael ei ategu gan fuddsoddiad cyfalaf o £206m yn 2020–21. Rydym yn dyrannu £20m ychwanegol i Fetro Gogledd Cymru i weithredu ein gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth integredig. Rydym hefyd yn darparu £15m ychwanegol yn 2020–21 i ategu'r gwaith o weithredu masnachfraint y rheilffyrdd – gan ddod â chyfanswm y cyllid refeniw i £185m. (C16)

6.101 Yn ogystal â buddsoddi mewn mathau newydd o drafnidiaeth, mae angen inni hefyd gyflawni ein rhwymedigaethau statudol i gynnal ein hasedau ffordd presennol i ganiatáu i bobl a nwyddau symud mewn modd diogel, i atal y risg o ddamweiniau, i wella cysylltiadau ac i sicrhau mynediad at addysg, sgiliau, hyfforddiant a swyddi. Mae'r gyllideb cynnal a chadw o dros £150m yn cynnwys £15m ychwanegol yn 2020–21.

6.102 Mae Maes Awyr Caerdydd yn borth rhyngwladol sy'n darparu cysylltiadau â gweddill y byd ar gyfer twristiaeth a busnes masnachol – cysylltiadau sy'n hanfodol i'n ffyniant. Bydd £4.8m o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn ategu gweithrediadau parhaus y maes awyr, ac yn galluogi gwelliannau hanfodol i'r seilwaith. (C17)

6.103 Drwy wneud yn siŵr bod gan bawb y cymhelliad a'r sgiliau i ddefnyddio technoleg ddigidol a gwasanaethau ar-lein, ynghyd â mynediad at y dechnoleg a'r gwasanaethau hynny, rydym yn gweithio i sicrhau cymdeithas ac economi glyfrach â chysylltiadau gwell. *Cyflawni Cymru Ddigidol* yw ein cynllun cyffredinol ar gyfer datblygu cysylltedd digidol. Rydym yn cynnal y buddsoddiad roeddem wedi'i gynllunio o £43.5m dros ddwy flynedd (£17.5m yn 2019–20 a £26m yn 2020–21) i estyn y rhaglen Cyflymu Cymru, er mwyn

cyflawni'r cam nesaf yn y gwaith o gyflwyno band eang cyflym iawn. Bydd hyn yn darparu band eang cyflym a dibynadwy ar gyfer y rhannau hynny o'r wlad nad ydynt yn derbyn gwasanaeth gan y farchnad, ac yn cyflawni ein rhwymedigaethau yn *Symud Cymru Ymlaen*.

### Hyrwyddo ein lle yn y byd

6.104 Ein mwyn gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru yn y byd, rydym yn darparu £3m o gyllid ychwanegol yn 2020–21 i ategu'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Ryngwladol – sydd â'r nod o godi ein proffil rhyngwladol a dangos bod Cymru yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Un o amcanion allweddol y Strategaeth Ryngwladol yw helpu rhagor o gwmnïau i allforio i farchnadoedd newydd. Rydym hefyd yn dyrannu £2.5m ychwanegol o Gyllid Pontio'r UE yn 2021–21 i hyrwyddo gweithgareddau allforio, masnach a mewnfuddsoddi.

6.105 Yn ogystal â bod yn bwysig ynddynt eu hunain, mae twristiaeth, diwylliant, chwaraeon ac iaith yn cyfrannu at ganlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach ar gyfer pobl yng Nghymru. Rydym yn dyrannu dros £70m o gyllid yn 2020–21 i gefnogi ein diwylliant a'r celfyddydau drwy gyrff a noddir, megis Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rydym yn cynnal lefel y gyllideb ar gyfer Cadw ar £16.6m yn 2020–21, i warchod ac i ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol, ac i hybu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hyn mewn modd effeithiol. Rydym hefyd yn neilltuo £5m o gyllid cyfalaf yn 2020–21 i ategu'r gwaith o sefydlu Cymru Greadigol. (C18)

6.106 Rydym yn neilltuo £20.7m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn 2020-21 gan gynnwys £16m o gyfalaf trafodiadau ariannol i ategu'r gwaith o gyflawni prosiectau twristiaeth strategol. Rydym hefyd yn cynnal lefel y cyllid refeniw ar gyfer Croeso Cymru ar £13.2m, i arwain buddsoddiadau mewn seilwaith twristiaeth a digwyddiadau i ategu'r economi ymwelwyr a'r gwaith o farchnata Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol fel lle i fyw, gweithio a buddsoddi ynddi. (C19)

6.107 Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n diwylliant a'n bywyd pob dydd. Er mwyn ategu ein huchelgeisiau yn y strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* rydym yn cynnal cyllideb o £20.9m ar gyfer y Gymraeg yn 2020–21. Mae hefyd dyraniad uwch o £50k ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg, gan roi cyfanswm cyllideb o £3.6m yn 2020–21.

6.108 Yn y gyllideb hon rydym yn darparu cyfanswm o dros £110m o gyllid cyfalaf mewn pecyn o fuddsoddiadau a fydd yn rhoi hwb sylweddol i'r gwaith o gynnal economi gynaliadwy, datblygu seilwaith cysylltiedig a hyrwyddo ein lle yn y byd:

| Gweithgaredd – cyfalaf | £m |
|---|---|
| Cronfa Dyfodol yr Economi (C11) | 20.8 |
| Gronfa Ad-daladwy ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig (C12) | 5 |
| Datblygu Busnesau Bach a Chanolig (C13) | 20 |
| Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol (C14) | 14 |
| Cronfa Benthyciadau Busnesau Micro (C15) | 6 |
| Metro Gogledd Cymru (C16) | 20 |
| Maes Awyr Caerdydd (C17) | 4.8 |
| Cymru Greadigol (C18) | 5 |
| Twristiaeth – datblygiadau strategol (C19) | 16 |

## Cymru wyrddach

6.109 Ym mis Mai eleni y Cynulliad Cenedlaethol oedd y senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd. Yn dilyn hynny gwnaethom fabwysiadu yn ffurfiol gyngor ein cynghorwr statudol ar newid yn yr hinsawdd, sef Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, gan ymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru 95% dros y 30 mlynedd nesaf.

6.110 Dyma'r gyllideb gyntaf ers i'r argyfwng hinsawdd gael ei ddatgan, a bydd yn adeiladu ar y camau gweithredu a amlinellir yn *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*, er mwyn cyrraedd y gyllideb garbon gyntaf (2016–2020) a'r targed dros dro ar gyfer 2020. Mae *Ffyniant i bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd*, a gyhoeddwyd ynghynt y mis hwn, yn ymateb i'r risgiau y mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi nodi y mae angen cymryd 'camau mwy brys' yn eu cylch, ac mae'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer y tymor byr, canolig a hwy mewn nifer o feysydd allweddol.

6.111 Mae'r gyllideb hon hefyd yn adeiladu ar ein hymrwymiad i ddefnyddio ein cyllidebau yn y ffordd orau posibl er mwyn cyflawni Cymru wyrddach. Yn yr Asesiad Integredig Strategol o’r Effaith yn Atodiad C rydym wedi amlinellu'r dull gweithredu ar gyfer cefnogi datgarboneiddio yn y gyllideb hon a'r camau y byddwn yn eu cymryd yn y dyfodol.

6.112 Y risgiau ffisegol mwyaf i'n cymunedau gan newid yn yr hinsawdd yw stormydd sy'n gynyddol ddwys, llifogydd ac erydu arfordirol – pethau rydym eisoes wedi eu gweld. Yn y Gyllideb hon rydym yn ymrwymo £64m yn 2020–21 i amddiffyn ein cymunedau rhag effeithiau mwyaf difrifol ac uniongyrchol newid yn yr hinsawdd.

6.113 Yn 2020–21 rydym yn buddsoddi pecyn ychwanegol o dros £140m o gyllid cyfalaf, ynghyd ag £1.5m o gyllid refeniw i ategu Twf Amgylcheddol sy'n hyrwyddo datgarboneiddio, yn amddiffyn ein hamgylchedd ac yn gwella ein bioamrywiaeth fel a ganlyn:

| Gweithgaredd – cyfalaf | £m |
|---|---|
| Teithio Cadarn (C20) | 25 |
| Newid i Gerbydau Trydan (C21) | 29.0 |
| Cerbydau sbwriel allyriadau isel iawn ar gyfer awdurdodau lleol (C22) | 1 |
| Ansawdd Aer – Caerdydd a Chaerffili (C23) | 7.9 |
| Rhaglen Tai Arloesol 4 (C24) | 25 |
| Coleg y Cymoedd – Tŷ Carbon Niwtral (C25) | 8.2 |
| Datblygu Rhyngwladol – plannu coed yn Mbale (C26) | 0.5 |
| Coedwig Genedlaethol (C27) | 4.5 |
| Rhwydwaith Natura 2000 – gwella (C28) | 15 |
| Rhaglen Adfer Mawndir Genedlaethol (C29) | 1 |
| Cronfa Twf Amgylcheddol (C30) | 5 |
| Seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth mewn canol trefi (C31) | 5 |
| Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy (C32) | 8 |
| Rhaglen Mwyngloddiau Metel (C33) | 4.5 |
| Gwella ansawdd dŵr (C34) | 5 |

6.114 Mae'r buddsoddiadau newydd sylweddol hyn yn ychwanegol at ein buddsoddiadau ehangach sydd eisoes yn cyflawni yn unol â'r agenda bwysig hon, gan gynnwys ein buddsoddiadau i ymateb i'r perygl na fydd y newid yn yr hinsawdd yn cael yr un effaith ar bawb. Mae hyn yn cynnwys costau ynni cartrefi, ac mae ein rhaglen Cartrefi Clyd wedi buddsoddi dros £240m ers 2010. I wireddu ein huchelgeisiau rydym yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i Gyfoeth Naturiol Cymru i dros £60m yn 2020–21.

6.115 Y risg gorfforol fwyaf i'n cymunedau yn sgil newid yn yr hinsawdd yw trwy'r stormydd, llifogydd ac erydiad arfordirol cynyddol ddwys yr ydym eisoes yn dyst iddynt. Yn y gyllideb hon rydym yn ymrwymo £64m yn 2020-21 i amddiffyn ein cymunedau rhag effeithiau mwyaf difrifol ac uniongyrchol newid yn yr hinsawdd.

## Datgarboneiddio

6.116 Mae datgarboneiddio yn amddiffyn ein hadnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a bydd yn cyflawni ein hymrwymiad i Dwf Amgylcheddol, gan gynnwys cyfleoedd economaidd, swyddi gwell, cartrefi mwy cyfforddus ac effeithlon a gwelliannau i'n hiechyd a'n llesiant. Yn y gyllideb hon rydym yn helpu busnesau a chymunedau i weithredu, gan gynnwys cyflymu'r broses o gefnu ar danwyddau ffosil drwy ragor o drydaneiddio a gwella effeithlonrwydd yn y sectorau economaidd allweddol

6.117 Gan gydnabod bod datgarboneiddio trafnidiaeth ar y ffyrdd yn hanfodol er mwyn cyrraedd ein targed o sero net, rydym yn cymryd camau i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio ceir yn llai ac i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth eraill. Fel rhan o'r adolygiad canol cyfnod o Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2018, gwnaethom fuddsoddi £60m dros dair blynedd (2018–16 i 2020–21) i

gyflymu'r gwaith o greu llwybrau teithio llesol i gysylltu ardaloedd preswyl â safleoedd cyflogaeth ac addysg a gwasanaethau allweddol. Yn 2020–21 rydym yn buddsoddi £219m mewn teithio cynaliadwy, sy'n cynnwys cyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £25m yn 2020–21 i fuddsoddi mewn teithio cadarn. (C20)

6.118 Rydym wedi diogelu ein cyllidebau ar gyfer y Cynllun Teithio Rhatach ar gyfer Pobl Ifanc (£2m) a'r Cynllun Teithio Rhatach (£60m), sy'n gwneud teithio'n fwy fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc ac yn caniatáu i bobl hŷn deithio am ddim – er mwyn cyrraedd swyddi, addysg, digwyddiadau cymdeithasol, hyfforddiant ac apwyntiadau meddygol, ac at unrhyw ddibenion eraill.

6.119 Fel rhan o'n nod o fod â fflyd bysiau heb allyriadau erbyn 2028, rydym yn neilltuo cyfanswm o £29m o gyllid cyfalaf (£21.5m o gyfalaf traddodiadol a £7.5m o gyfalaf trafodiadau ariannol) tuag at sicrhau fflyd bysiau trydan, i annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus wrth leihau allyriadau carbon a gwella ansawdd yr aer. Rydym hefyd yn neilltuo cyllid cyfalaf gwerth £1m yn 2020–21 i ategu'r broses o newid o gerbydau casglu sbwriel sy'n defnyddio diesel i gerbydau allyriadau isel iawn yn fflyd y sector cyhoeddus. (C21, C22)

6.120 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd ar gyfer ein hiechyd corfforol a meddyliol, ac rydym yn neilltuo cyllid ychwanegol i wella ansawdd aer. Rydym yn neilltuo cyllid cyfalaf gwerth dros £7.9m yn 2020–21 i ategu'r gwaith o weithredu mesurau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio ar frys â'r terfynau ar gyfer nitrogen deuocsid yng Nghaerdydd a Chaerffili. (C23)

6.121 Rydym yn neilltuo cyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £25m yn 2020–21 i ehangu ein Rhaglen Tai Arloesol, gan ymateb i'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n dangos bod dulliau modiwlar a dulliau modern eraill ar gyfer codi tai yn gallu sicrhau tai sydd bron heb allyriadau carbon. Rydym hefyd wedi neilltuo cyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £8.2m yn 2020–21 ar gyfer prosiect tŷ carbon niwtral o fewn Coleg y Cymoedd, wedi ei gynllunio i ddarparu cyfleuster addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf i sicrhau bod ein stoc tai yn gynaliadwy. (C24, C25)

6.122 Cafodd blaenoriaethau ein cyllideb eu llunio i sicrhau ein bod yn diogelu dyfodol cymunedau ffermio Cymru, a chadw ein ffermwyr ar y tir.  Yn y Gyllideb hon rydym wedi ymrwymo unwaith eto i neilltuo £76m, gan gynnwys £40m o gyllid yr UE, i gefnogi ein ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy sy'n galluogi eu ffermydd a'n cefn gwlad i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn well.

## Bioamrywiaeth

6.123 Wrth ddatgan argyfwng hinsawdd, rydym yn gydnabod y bygythiadau arwyddocaol i'n bywyd gwyllt. Rydym eisoes wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi cyfrifoldebau statudol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus ehangach i sicrhau ein bod ni ei gyd yn chwarae ein rhan wrth amddiffyn yr amgylchedd.

6.124 Mae wynebu heriau'r newid yn yr hinsawdd yn fater rhyngwladol ac rydym yn cydnabod ein rôl wrth gefnogi cymunedau ledled y byd. Yn ogystal â'n buddsoddiad mewn plannu coed yng Nghymru, rydym hefyd yn neilltuo cyllid cyfalaf gwerth £500k yn 2020–21 i ailblannu miliynau o goed mewn ardal yn nwyrain Uganda sydd wedi cael ei datgoedwigo yn ddiweddar. (C26)

6.125 Rydym yn cyflawni ein huchelgais i greu Coedwig Genedlaethol a fydd yn estyn ar hyd Cymru. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi £4.5m yn 2020–21 i ddechrau rhaglen i wella cyflwr a chysylltedd ein coetiroedd hynafol mwyaf gwerthfawr ac i gyflymu'r gwaith o blannu coed. Bydd hyn yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer twristiaeth, gan adeiladu ar lwyddiant Llwybr Arfordir Cymru, yn ogystal ag amsugno ein hallyriadau carbon. (C27)

6.126 Rydym yn neilltuo £15m ychwanegol yn 2020–21 ar gyfer ein Rhwydwaith Natura 2000, sy'n cynnwys y 112 o safleoedd natur sydd o'r pwysigrwydd ecolegol mwyaf a rhai o'n cynefinoedd a'n rhywogaethau sydd yn y perygl mwyaf. Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn gwella cyflwr y safleoedd hyn a gwella'r trefniadau ar gyfer eu rheoli yn y dyfodol. Yn y gyllideb hon rydym hefyd yn ymrwymo £1m o gyllid cyfalaf yn 2020–21 i gwblhau blwyddyn gyntaf y rhaglen adfer mawndir genedlaethol, sydd â'r nod o sicrhau bod pob ardal o fawndir sy'n cynnal cynefin lled-naturiol yn cael ei rheoli mewn modd cynaliadwy. (C28, C29)

6.127 Yn ogystal â'r buddsoddiadau cyfalaf hyn rydym yn buddsoddi cyllid refeniw gwerth £1m yn 2020–21 i ategu'r gwaith o reoli a chynnal y gweithgareddau hyn. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn peilota dull 'tasglu' i ddarparu cyngor arbenigol ar gyfer y sector cyhoeddus ar integreiddio bioamrywiaeth yn well yn y gwaith o ddatblygu polisïau, caffael cyhoeddus a rheoli ystadau ehangach. Mae cyllid gwerth £500k yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r tasglu yn 2020–21. (R15, R16)

6.128 Rydym am weld mannau ar gyfer natur yn ein cymunedau, fel bod pob un ohonom yn cael gweld twf amgylcheddol ar ein stepen ddrws. I gychwyn y broses hon rydym yn buddsoddi cyllid cyfalaf gwerth £5m yn 2020–21 mewn Cronfa Twf Amgylcheddol benodol, sef Mannau Lleol ar gyfer Natur i helpu i wrthdroi dirywiad y natur yn ein cymunedau lleol. (C30)

6.129 Hefyd bydd dyraniad cyfalaf arall gwerth £5m yn cael ei ddefnyddio i sefydlu seilwaith gwyrdd ac i annog bioamrywiaeth yn ein trefi a'n dinasoedd, gan ddod â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer adfywio yn 2020–21 i dros £50m. (C31)

6.130 Rydym yn dyrannu cyllid cyfalaf o £8m yn 2020–21 i wella bioamrywiaeth drwy ein menter 'Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy'. (C32)

6.131 Rydym yn ymrwymo £9.5m o gyllid cyfalaf yn 2021–21 i fynd i'r afael â phroblemau ansawdd dŵr sy'n effeithio ar ein hafonydd a chyrff dŵr mewndirol eraill. Mae hyn yn cynnwys £4.5m ar gyfer ymdrin â mwyngloddiau metel. Aeth rhai ohonynt yn segur dros 100 o flynyddoedd yn ôl, ac o ganlyniad maent yn parhau i fod y ffynhonnell llygredd fwyaf sy'n effeithio ar

ddyfroedd Cymru. Bydd gwella ansawdd dŵr yn gwella cyflwr yr amgylchedd ehangach, ac yn ei alluogi i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn well. (C33, C34)

6.132 I wireddu ein huchelgeisiau rydym yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i Gyfoeth Naturiol Cymru i dros £60m yn 2020–21, i roi hwb i'w hymdrechion wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau.

6.133 Rydym yn dyrannu £498k ychwanegol ar gyfer yr awdurdodau parciau cenedlaethol, gan ddod â chyfanswm y gyllideb yn 2020–21 i £9.9m, ac adlewyrchu pwysigrwydd diogelu a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol i iechyd a llesiant.

**Tabl 6.1: Dyraniadau refeniw ychwanegol**

| | £m |
|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol** | |
| Ysgolion Rhithwir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (R1) | 0.9 |
| **Tlodi** | |
| Tlodi Mislif (R2) | 0.2 |
| Urddas Mislif (R3) | 3.1 |
| Cronfa Cymorth yn ôl Disgresiwn (R4) | 1 |
| Rhaglen Credydau Amser (R5) | 0.5 |
| PDG y Blynyddoedd Cynnar (R6) | 6.6 |
| Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad (R7) | 3.2 |
| Rhaglen Beilot Brecwast am Ddim (R8) | 0.5 |
| Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol (R9) | 1.8 |
| Rhaglen Llwgu yn ystod y Gwyliau (R10) | 1 |
| Cyngor ar ynni cartrefi a mynd i'r afael a thlodi tanwydd (R11) | 0.4 |
| **Cyflogadwyedd a Sgiliau** | |
| Prentisiaethau (R12) | 9 |
| Eiriolwyr dros Gyflogi Pobl Anabl (R13) | 0.3 |
| Hyderus o ran Anabledd (R14) | 0.2 |
| **Bioamrywiaeth** | |
| Y Goedwig Genedlaethol a chynigion cyfalaf eraill (R15) | 1 |
| Y Tasglu Bioamrywiaeth (R16) | 0.5 |

**Tabl 6.2: Dyraniadau cyfalaf ychwanegol**

| | £m |
|---|---|
| **Y Blynyddoedd Cynnar** | |
| Dechrau'n Deg a chyfleusterau gofal plant (C1) | 10 |
| Llety diogel ar gyfer teuluoedd sy'n dianc rhag cam-drin domestig (C2) | 1.2 |
| **Tai** | |
| Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron (C3) | 2 |
| Grant Tai Cymdeithasol (C4) | 48 |
| Cronfa Rhyddhau Tir (C5) | 5 |
| Adeiladu â Dulliau Modiwlar (C6) | 10 |
| Datblygiad Preswyl Tirion Homes (C7) | 18.4 |
| Benthyciadau Tai (C8) | 50 |
| Cymorth i Brynu – Cymru (C9) | 35 |
| Benthyciadau Canol Trefi (C10) | 10 |
| **Cyflogadwyedd a Sgiliau** | |
| Cronfa Dyfodol yr Economi (C11) | 20.8 |
| Gronfa Ad-daladwy ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig (C12) | 5 |
| Datblygu Busnesau Bach a Chanolig (C13) | 20 |
| Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol (C14) | 14 |
| Cronfa Benthyciadau Busnesau Micro (C15) | 6 |
| Metro Gogledd Cymru (C16) | 20 |
| Maes Awyr Caerdydd (C17) | 4.8 |
| Cymru Greadigol (C18) | 5 |
| Twristiaeth – datblygiadau strategol (C19) | 16 |
| **Datgarboneiddio** | |
| Teithio Cadarn (C20) | 25 |
| Newid i Gerbydau Trydan (C21) | 29 |
| Cerbydau sbwriel allyriadau isel iawn ar gyfer awdurdodau lleol (C22) | 1 |
| Ansawdd Aer – Caerdydd a Chaerffili (C23) | 7.9 |
| Rhaglen Tai Arloesol 4 (C24) | 25 |
| Coleg y Cymoedd – Tŷ Carbon Niwtral (C25) | 8.2 |
| **Bioamrywiaeth** | |
| Datblygu Rhyngwladol – plannu coed yn Mbale (C26) | 0.5 |
| Coedwig Genedlaethol (C27) | 4.5 |
| Rhwydwaith Natura 2000 – gwella (C28) | 15 |
| Rhaglen Adfer Mawndir Genedlaethol (C29) | 1 |
| Cronfa Twf Amgylcheddol (C30) | 5 |
| Seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth mewn canol trefi (C31) | 5 |
| Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy (C32) | 8 |
| Rhaglen Mwyngloddiau Metel (C33) | 4.5 |
| Gwella ansawdd dŵr (C34) | 5 |
| **Eraill** | |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Cronfa Fenthyca ar gyfer Asedau Cymunedol (C35) | 1 |

# Pennod 7: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru

## Cyllideb gwariant Cymru

7.01 Mae gwariant datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2020-21 yn cynnwys dyraniadau o £18.3bn i brif grwpiau gwariant (MEGs) Llywodraeth Cymru.

7.02 Mae Tabl 7.1 yn dangos cydrannau cyllideb gwariant Cymru, wedi'u dadansoddi yn ôl MEG, a chyllidebau dangosol Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r tabl hefyd yn dangos cyllid cronfeydd wrth gefn heb eu neilltuo. Mae dyraniadau'r MEG yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir ym mhennod chwech. Mae ein Cyllideb ddrafft yn cael ei chyflwyno mewn MEGs gan fod y rhain yn ffurfio ein cyfansymiau rheoli ar gyfer rheoli'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn.

### Tabl 7.1 – Dyrannu Cyllideb Cymru

| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
|---|---|---|
| | | **£000oedd** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 8,903,009 |
| Tai a Llywodraeth Leol | | 5,866,224 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | | 1,547,711 |
| Addysg | | 2,551,295 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | | 219,060 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | | 350,162 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 389,757 |
| **Cyfanswm Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant** | | **19,827,218** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 103,473 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 151,193 |
| Cyfalaf heb ei Ddyrannu | Cyffredinol | 37,377 |
| | Trafodiadau Ariannol | 45,939 |
| Comisiwn y Cynulliad * | | 57,988 |
| Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru * | | 4,954 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru * | | 7,878 |
| Taliadau a Godir yn Uniongyrchol ar Granfa Gyfunol Cymru | | 737 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **20,236,757** |

*Mae cyllidebau ar gyfer y cyrff a ariennir dan gyfarwyddyd at ddibenion eglurhaol yn unig ac fe'u cyflwynwyd o'r gyllideb atodol gyntaf 2019-20. Yn dilyn craffu a chymeradwyo cyllidebau'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol ar gyfer 2020-21, bydd y ffigurau hyn yn cael eu hadolygu a'u cynnwys yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.

## Categorïau o wariant

7.03 O fewn dyraniadau'r MEG, ceir gwahanol fathau o wariant a ddefnyddir at wahanol ddibenion:

- Adnoddau cyllidol
- Adnoddau anghyllidol
- Cyfalaf cyffredinol
- Trafodiadau ariannol
- Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

7.04 Mae Tablau 7.2a and 7.2b yn nodi dyraniadau'r MEG yn ôl y categorïau hyn a hefyd yn ôl blwyddyn.

## Tabl 7.2a - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru

| | CYFANSWM DYFANIADAU PRIF GRWPIAU GWARIANT CYLLIDEB DDRAFFT 2020-21 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | | |
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | | CYFANSWM DYRANIAD PRIF GRWPIAU GWARIANT |
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | Cyllidol | Anghyllidol | Cyfanswm Adnoddau | Cyffredinol | Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Adnoddau | Cyfalaf | Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,176,438 | 190,000 | **8,366,438** | 374,488 | 0 | **374,488** | 162,083 | 0 | **162,083** | **8,903,009** |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,970,194 | 240 | **3,970,434** | 585,085 | 150,505 | **735,590** | 1,160,200 | 0 | **1,160,200** | **5,866,224** |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 540,060 | 192,400 | **732,460** | 700,466 | 85,260 | **785,726** | 29,525 | 0 | **29,525** | **1,547,711** |
| Addysg | 1,459,636 | 107,154 | **1,566,790** | 217,711 | -195 | **217,516** | -124,399 | 891,388 | **766,989** | **2,551,295** |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 157,952 | 8,882 | **166,834** | 33,467 | 15,746 | **49,213** | 3,013 | 0 | **3,013** | **219,060** |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 195,095 | 21,675 | **216,770** | 128,992 | 2,000 | **130,992** | 2,400 | 0 | **2,400** | **350,162** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 341,072 | 16,000 | **357,072** | 28,686 | 1,000 | **29,686** | 2,999 | 0 | **2,999** | **389,757** |
| **CYFANSWM DYRANIAD I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU** | **14,840,447** | **536,351** | **15,376,798** | **2,068,895** | **254,316** | **2,323,211** | **1,235,821** | **891,388** | **2,127,209** | **19,827,218** |

**Tabl 7.2b – Dyraniadau Adnoddau Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru**

| DYRANIADAU CYLLIDOL | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** |
| | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,176,438 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,970,194 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 540,060 |
| Addysg | 1,459,636 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 157,952 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 195,095 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 341,072 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyllidebol i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **14,840,447** |

| DYRANIADAU ANGHYLLIDOL | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** |
| | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 190,000 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 240 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 192,400 |
| Addysg | 107,154 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 8,882 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 21,675 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 16,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Anghyllidol i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **536,351** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **15,376,798** |

| DYRANIADAU CYFALAF CYFFREDINOL | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** |
| | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 374,488 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 585,085 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 700,466 |
| Addysg | 217,711 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 33,467 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 128,992 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 28,686 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Cyffredinol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,068,895** |

| DYRANIADAU CYFALAF TRAFODIADAU ARIANNOL | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** |
| | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 150,505 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 85,260 |
| Addysg | -195 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 15,746 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 2,000 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 1,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **254,316** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,323,211** |

| DYRANIADAU ADNODDAU AME | |
|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **£000oedd** |
| | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 162,083 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,160,200 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 29,525 |
| Addysg | -124,399 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 3,013 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 2,400 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,999 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,235,821** |

| DYRANIADAU CYFALAF AME | |
|---|---|
| | **£000oedd** |
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2020-21 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 0 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 |
| Addysg | 891,388 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 0 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **891,388** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,127,209** |

## Tabl 7.3 – Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf

| | **2020-21** |
|---|---|
| Cyfanswm y benthyca heb ei dalu ar 1 Ebrill (prif) | 199,862 |
| Benthyca cyfalaf arfaethedig i'w dynnu yn ystod y flwyddyn | 125,000 |
| Ad-dalu'r prif yn ystod y flwyddyn | (6,365) |
| **Benthyca cyfalaf cyfanredol yn ddyledus ar 31 Mawrth** | **318,497** |
| Taliadau llog sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn | 4,724 |

## Tabl 7.4 - Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf, amserlen ad-dalu

| **Amserlenni ad-dalu yn seiliedig ar fenthyca ar y lefelau y manylir arnynt uchod** | | | |
|---|---|---|---|
| Prif ddiddordeb | Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn (£'000) | Symiau sy'n ddyledus o 1-5 mlynedd (£'000) | Symiau sy'n ddyledus o ar ôl 5 mlynedd (£'000) |
| | 6,365 | 43,108 | 275,389 |
| | 4,724 | 26,469 | 64,573 |

# Atodiad A: Cysoni dyraniadau'r gyllideb weinyddol

| | 2020-21 CYLLIDEB DDRAFFT £000s | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Iechyd a Gwas Cymdeithasol | Tai a Llywodraeth Leol | Yr Economi a Thrafnidiaeth | Addysg | Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | Gwas Canolog a Gweinyddu | CYFANSWM |
| Adnoddau | 8,366,438 | 3,970,434 | 732,460 | 1,566,790 | 166,834 | 216,770 | 357,072 | **15,376,798** |
| Cyfalaf | 374,488 | 735,590 | 785,726 | 217,516 | 49,213 | 130,992 | 29,686 | **2,323,211** |
| AME Adnoddau | 162,083 | 1,160,200 | 29,525 | -124,399 | 3,013 | 2,400 | 2,999 | **1,235,821** |
| AME Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 891,388 | 0 | 0 | 0 | **891,388** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME)** | **8,903,009** | **5,866,224** | **1,547,711** | **2,551,295** | **219,060** | **350,162** | **389,757** | **19,827,218** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | |
| Defnydd Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -230 | -200 | | -305 | -7,281 | -12,400 | | **-20,416** |
| Benthyca a Chymorth | | -88,800 | | | | | | **-88,800** |
| Costau Casglu Derbyniadau'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -906 | | | | | | | **-906** |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a Chostau Casglu) | | -1,141,172 | | | | | | **-1,141,172** |
| Ad-dalu Llog ar Fenthyciadau | | | | | | | -4,724 | **-4,724** |
| PFI | | | -8,982 | | | | | **-8,982** |
| **ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT** | **8,901,873** | **4,636,052** | **1,538,729** | **2,550,990** | **211,779** | **337,762** | **385,033** | **18,562,218** |

# Atodiad B: Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn

| **CYFANSWM – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,495,236 | 8,903,009 | 4.80 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,607,571 | 5,866,224 | 4.61 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,353,374 | 1,547,711 | 14.36 |
| Addysg | 2,379,562 | 2,551,295 | 7.22 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 179,767 | 219,060 | 21.86 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 300,840 | 350,162 | 16.39 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu[6] | 358,913 | 389,757 | 8.59 |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **18,675,263** | **19,827,218** | |

| **CYFANSWM – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,495,236 | 8,903,009 | 2.90 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,607,571 | 5,866,224 | 2.72 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,353,374 | 1,547,711 | 12.29 |
| Addysg | 2,379,562 | 2,551,295 | 5.28 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 179,767 | 219,060 | 19.65 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 300,840 | 350,162 | 14.29 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 358,913 | 389,757 | 6.63 |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **18,675,263** | **19,827,218** | |

[6] Nid yw'r llinell sylfaen ar gyfer 2019-20 yn adlewyrchu dyraniad ychwanegol i'r MEG yma ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ar gyfer costau staffio sy'n gysylltiedig â Brexit a fydd yn cael ei gyflwyno i gynlluniau gwariant 2020-21. Bydd yr addasiad ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn cael ei adlewyrchu yn yr Ail Gyllideb Atodol a bydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

| ADNODDAU – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | 2019-20 | 2020-21 | |
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2019 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,001,040 | 8,366,438 | 4.57 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,844,201 | 3,970,434 | 3.28 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 709,770 | 732,460 | 3.20 |
| Addysg | 1,510,853 | 1,566,790 | 3.70 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 161,571 | 166,834 | 3.26 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 211,379 | 216,770 | 2.55 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu[7] | 329,698 | 357,072 | 8.30 |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **14,768,512** | **15,376,798** | |

| ADNODDAU – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | 2019-20 | 2020-21 | |
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2019 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,001,040 | 8,366,438 | 2.68 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,844,201 | 3,970,434 | 1.42 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 709,770 | 732,460 | 1.33 |
| Addysg | 1,510,853 | 1,566,790 | 1.83 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 161,571 | 166,834 | 1.39 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 211,379 | 216,770 | 0.70 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 329,698 | 357,072 | 6.34 |
| **Cyfanswm y Dyfarniadau Adnoddau i Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **14,768,512** | **15,376,798** | |

[7] Gweler nodyn 6

| CYFALAF – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | 2020-21 | | |
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 338,488 | 374,488 | 10.64 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 531,356 | 735,590 | 38.44 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 609,004 | 785,726 | 29.02 |
| Addysg | 189,296 | 217,516 | 14.91 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 13,947 | 49,213 | 252.86 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 77,607 | 130,992 | 68.79 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 17,648 | 29,686 | 68.21 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,777,346** | **2,323,211** | |

| CYFALAF – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | 2020-21 | | |
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 338,488 | 374,488 | 8.63 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 531,356 | 735,590 | 35.93 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 609,004 | 785,726 | 26.68 |
| Addysg | 189,296 | 217,516 | 12.83 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 13,947 | 49,213 | 246.48 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 77,607 | 130,992 | 65.74 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 17,648 | 29,686 | 65.17 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,777,346** | **2,323,211** | |

| **AME ADNODDAU – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 121,100 | 162,083 | 33.84 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 1,086,094 | 1,160,200 | 6.82 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 62,437 | 29,525 | (52.71) |
| Addysg | (123,844) | (124,399) | 0.45 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 3,013 | 3,013 | 0.00 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 2,400 | 2,400 | 0.00 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,977 | 2,999 | 0.74 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,154,177** | **1,235,821** | |

| **AME ADNODDAU – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs)** | **2019-20** | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2019** | **Cynlluniau Newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 121,100 | 162,083 | 31.42 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 1,086,094 | 1,160,200 | 4.89 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 62,437 | 29,525 | (53.57) |
| Addysg | (123,844) | (124,399) | (1.37) |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 3,013 | 3,013 | (1.81) |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 2,400 | 2,400 | (1.81) |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,977 | 2,999 | (1.08) |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,154,177** | **1,235,821** | |

| AME CYFALAF – Canran y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | 2019-20 | 2020-21 | |
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Atodol Mehefin 2019 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0.00 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 0 | 0 | 0.00 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0.00 |
| Addysg | 774,302 | 891,388 | 15.12 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 0 | 0 | 0.00 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0.00 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0.00 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **774,302** | **891,388** | |

| AME CYFALAF – Newid Canran o Flwyddyn i Flwyddyn – Gwirioneddol | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | 2019-20 | 2020-21 | |
| PRIF GRŴP GWARIANT (MEGs) | Cyllideb Atodol Mehefin 2019 | Cynlluniau Newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0.00 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 0 | 0 | 0.00 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0.00 |
| Addysg | 774,302 | 891,388 | 13.04 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 0 | 0 | 0.00 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0.00 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0.00 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **774,302** | **891,388** | |

# Atodiad C: Asesiad Effaith Integredig Strategol

## Cyflwyniad

1. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ar gyfer Cyllideb 2020-21 yn dal i adlewyrchu ein hystyriaeth o benderfyniadau gwario strategol sy'n ymwneud â chydraddoldeb, hawliau dynol, hawliau plant, yr iaith Gymraeg, newid yn yr hinsawdd, prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad, iechyd, bioamrywiaeth, datblygu economaidd ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

2. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal yn ystyriaeth greiddiol yn y ffordd mae ein dyraniadau Cyllideb strategol yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Wrth ddatgan argyfwng hinsawdd eleni, mae'r Gyllideb hon yn gwneud buddsoddiadau sylweddol i gefnogi datgarboneiddio a bioamrywiaeth. Amlinellir y penderfyniadau hyn yn adrannau 159-188 o'r atodiad hwn.

3. Ers 2015-16, drwy fabwysiadu dull integredig, ein nod fu datblygu dealltwriaeth ehangach o'r cyfleoedd a'r pwysau trawsbynciol sy'n bodoli ar draws y meysydd gwasanaeth allweddol, yn unol â'n blaenoriaethau - a thargedu cyllid lle mae ei angen fwyaf.

4. Gan nad oeddem eisoes wedi pennu ein cynlluniau gwario refeniw a chyfalaf terfynol ar gyfer 2020-21, ac o ystyried y cyd-destun ehangach sydd wedi siapio ein paratoadau ar gyfer y Gyllideb, rydym wedi ystyried penderfyniadau strategol sy'n ymwneud â chynnal buddsoddiadau ochr yn ochr ag ystyried newidiadau strategol yn ein cynlluniau gwario.

## Esblygu ein ffordd o asesu effeithiau

5. Yn ogystal ag ymgymryd â'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ar gyfer Cyllideb 2020-21, rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i ystyried sut gallem wella'r ffordd rydym yn dyrannu adnoddau dros y tymor hwy, gan gynnwys ein dull o asesu effaith ein penderfyniadau ynghylch y Gyllideb. Mae hyn wedi siapio'r gwaith o ddatblygu ein Cynllun Gwella'r Gyllideb sydd yn Atodiad E.

6. Ar ôl ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, rydym yn symud ymlaen i ddatblygu dull dosbarthiadol i asesu effaith, er mwyn deall pa effaith mae penderfyniadau gwario cyhoeddus yn cael ei chael ar aelwydydd mewn gwahanol rannau o'r dosbarthiad incwm.

7. Rydym wedi gweithio gyda Chwarae Teg a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan ystyried cam 2 yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol. O ganlyniad, rydym yn bwrw ymlaen â dull cyllidebu ar sail rhyw fel rhan o'r cynllun peilot Cyfrifon Dysgu Personol sy'n ddwy flynedd o hyd ac a gafodd ei lansio ym mis Medi 2019. Mae'r cynllun yn cefnogi oedolion sy'n cael eu

cyflogi mewn gwaith llai medrus am gyflog isel i newid eu gyrfa neu i gael gwaith ar lefel uwch mewn sectorau â blaenoriaeth lle gwyddom fod effeithiau rhywedd. Drwy'r cynllun peilot hwn, rydym yn asesu sut gallai dull cyllidebu ar sail rhyw helpu i ganfod a deall effeithiau gwahanol posibl, gan gynnwys effeithiau anfwriadol, i wella ein gwaith o flaenoriaethu a dyrannu adnoddau.

## Y cyd-destun amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol


8. Mae penodau un a dau o brif naratif y Gyllideb yn amlinellu'r cyd-destunau ariannol ac economaidd sydd wedi llywio'r Gyllideb hon. Mae amlinelliad isod o'r tueddiadau amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol ehangach a oedd yn cyfrannu at y penderfyniad i ganolbwyntio ein gwaith i baratoi'r Gyllideb ar yr wyth maes blaenoriaeth trawsbynciol, sef y meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf dros y tymor hwy, yn unol â'n huchelgais ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal, ffyniannus a gwyrdd.

9. Ystyriwyd amrywiaeth o dystiolaeth, ystadegau a gwybodaeth ategol o nifer o ffynonellau, fel *Adroddiad Llesiant Cymru 2018-19*[8], *yr Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol*[9] ac Adroddiad *A yw Cymru'n Decach?* 2018[10].

10. Mae'n dal yn wir mai'r newid a ddisgwylir ym mhoblogaeth Cymru yw un o'r ffactorau allweddol dros y tymor hir; a'r amcanestyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau oedran, gyda'r effaith fwyaf ar iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg ac, i raddau llai, tai. Fodd bynnag, bydd tueddiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pwysig eraill fel y newid yn yr hinsawdd hefyd yn siapio gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

11. Er bod disgwyl i boblogaeth Cymru ddisgyn 0.9 y cant erbyn 2043, mae disgwyl i nifer y bobl 65 oed a hŷn gynyddu 20.8 y cant rhwng 2018 a 2043. Disgwylir i nifer y bobl 75 oed a hŷn gynyddu 56.1 y cant. Fodd bynnag, mae disgwyl i nifer y bobl rhwng 16-64 oed ddisgyn 5.7 y cant dros yr un cyfnod.


[8] https://llyw.cymru/llesiant-cymru?_ga=2.241557185.239853787.1575891922-1552809866.1563181093
[9] https://llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017?_ga=2.241557185.239853787.1575891922-1552809866.1563181093
[10] https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer-welsh.pdf




Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: sail-2018, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

12. Ar ôl blynyddoedd lawer o gynnydd parhaus, ychydig iawn o newid ydym wedi'i weld mewn disgwyliad oes yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn treulio'r rhan fwyaf o'n bywydau mewn iechyd da, ond mae'r cyfnod hwnnw'n llai i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd.

13. Mae'r flaenoriaeth a roddwn i ofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r ffaith bod gofal cymdeithasol tosturiol ac urddasol yn chwarae rhan allweddol mewn cymunedau cryf, gan helpu pobl i aros yn iach ac yn annibynnol yn hirach ac mae'n sector economaidd sylweddol ynddo'i hun.




Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol Nodyn

14. Er mwyn cyflawni ein huchelgais i sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal, rydym yn cydnabod bod cysylltiad cryf rhwng iechyd gwael ac amddifadedd. Er y bu cynnydd da dros y tymor canolig mewn meysydd fel iechyd deintyddol a

bwydo ar y fron, ni fu llawer o newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn ymddygiadau ffordd iach o fyw.

15. Bydd un unigolyn o bob pedwar yn cael anhwylder iechyd meddwl rywbryd yn ystod eu hoes. Mewn nifer o achosion mae cael y driniaeth iawn yn gynnar, ynghyd â gwell ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, yn gallu atal effaith niweidiol yn y tymor hwy.

16. Sicrhau bod y blynyddoedd cynnar yn iawn sy’n rhoi’r cyfle gorau i ni atal y cylch tlodi. Yn y cyd-destun hwn, mae’n bryder bod canran y babis a gaiff eu geni gyda phwysau geni isel wedi cynyddu ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ar ôl gostyngiad graddol dros y 7 mlynedd diwethaf.


17. Mae cartrefi o ansawdd da yn sylfaen i gymunedau da ac yn sail i unigolion ac i deuluoedd allu ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywyd. Mae amodau tai wedi gwella dros nifer o’r 10 mlynedd diwethaf, sy’n golygu bod llai o bobl yn byw mewn tai sydd â pheryglon ac nad ydynt yn defnyddio ynni'n effeithlon. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl hefyd.

18. Mae’r farchnad lafur yng Nghymru yn dal yn gryf mewn termau hanesyddol. Fodd bynnag, yn unol â’n huchelgais i gael Cymru sy’n fwy ffyniannus, rydym yn cydnabod nad ydy hyn o reidrwydd yn golygu gwaith o ansawdd da i bawb.

19. Mae’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar y lefel isaf erioed unwaith eto, er nad yw cau’r bwlch wedi bod yn dueddiad cyson. Mae data newydd ar y bwlch cyflog ethnigrwydd hefyd yn dangos bod gweithwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ennill llai yr awr na gweithwyr gwyn Prydeinig ar gyfartaledd.

20. Mae bwlch o hyd o ran cyflogau pobl anabl ac mae bwlch sylweddol mewn canlyniadau cyflogaeth i bobl anabl, er bod hwn wedi lleihau ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Y gwahaniaeth canrannol mewn cyflogau amser llawn canolrifol rhwng dynion a menywod, 1999 - 2018**





Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Araolwg Blynyddai o Oriau ac Enillion: y Swyddfa Ystadegau Gwladol

21. Rydym yn gwybod bod cyflogaeth ddiogel yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd ac ar lesiant economaidd pobl. Sgiliau ydy un o'r prif rwystrau at waith. Mae lefelau cymwysterau yng Nghymru yn dal i godi, ond rydym yn gwybod bod gwahaniaethau o hyd mewn cyrhaeddiad yn yr ysgol ar gyfer grwpiau gwahanol o'r boblogaeth.

22. At ei gilydd, mae nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi bod yn codi ers y dirwasgiad ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed ac ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed.


**Canran y boblogaeth oedran gweithio (18-64 oed) yng Nghymru sydd heb gymwysterau, neu sydd a chymhwyster lefel 4 neu uwch, 2008 to 2018**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, y Swyddfa Ystradegau Gwladol

23. Mae mynd i'r afael â thlodi yn dal yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon. Yng nghyd-destun cyni a diwygio lles, ychydig iawn o newid a fu mewn lefelau tlodi incwm cymharol ers nifer o flynyddoedd, er bod rhai grwpiau wedi gweld newid er enghraifft teuluoedd gyda phlant, yn enwedig aelwydydd ag un rhiant. Mae tlodi incwm cymharol yn dal ar ei uchaf ymysg plant, sef 29 y cant. Fodd bynnag, mae llai o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl gan fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol i sicrhau bod cartrefi Cymru yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

24. Rydym yn gwybod bod gan newidiadau i'r system les gysylltiadau cryf â thlodi, yn enwedig lefelau cynyddol o dlodi mewn gwaith. Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei adroddiad 2018, *A yw Cymru'n Decach?* A oedd yn awgrymu bod Cymru yn fwy dibynnol ar les na'r gwledydd eraill. Mae hyn yn golygu bod lleihau budd-daliadau'r rheini sydd mewn gwaith a'r rheini sydd heb waith yn cael mwy o effaith.





Ffynhonnell 1: Tlodi:StatsCymru.
Ffynhonnell 2: Tablau cartrefi islaw'r incwm cyfartalog ar gyfer Cymru: Llwywodraeth Cymru

25. Mae tueddiadau cymdeithasol a diwylliannol pwysig ehangach hefyd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cafwyd cynnydd bach mewn cydlyniant cymunedol ac mae'r ymdeimlad o ddiogelwch yn parhau ar lefel debyg. Ar yr un pryd, mae'r digwyddiadau troseddau casineb hiliol sydd wedi cael eu cofnodi wedi bod ar gynnydd.

26. Mae'r data arolwg diweddaraf yn awgrymu bod cynnydd yng nghanran y bobl sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl, ac mae defnydd o'r iaith wedi aros yn sefydlog.

27. Mae'r camau yr ydym yn eu cymryd yn sgil ein huchelgais i gael Cymru fwy gwyrdd yn adlewyrchu'r angen i ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac i warchod ein hamgylchedd gwych fel cam nesaf pwysig ar ein taith.

28. Bu gostyngiad mawr mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr dros y flwyddyn ddiwethaf, a dros y tymor hwy mae allyriadau wedi disgyn dros chwarter ers y 1990au. Mae llygredd aer yn dal yn broblem iechyd fawr, er bod lefelau'r tri phrif lygrydd aer wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf.



Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

29. Mae'r capasiti sydd gan osodiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi codi dros y degawd diwethaf, ac mae bron i hanner y trydan a ddefnyddir yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd wedi datgan bod rhaid datgarboneiddio trafnidiaeth ffyrdd er mwyn cyrraedd targed sero net. Mae'r tueddiadau cyfredol yn dangos bod mwy o bobl yn defnyddio trenau ond cerbydau preifat fydd y prif ddull o deithio yng Nghymru yn y tymor byr i ganolig o leiaf, ac mae hynny'n llywio ein dull gweithredu.

30. Mae'r flaenoriaeth a roddwn i fioamrywiaeth yn adlewyrchu bod gwelliannau wedi bod ym mhoblogaeth rhai rhywogaethau ond yn gyffredinol mae amrywiaeth biolegol yn lleihau. Er ei fod yn hen, mae ein hôl troed ecolegol yn awgrymu bod ein hadnoddau naturiol allweddol yn lleihau'n gyflymach nag y mae modd eu hadnewyddu.

## Cymru sy'n fwy cyfartal

31. Yn unol â'r ffaith bod tegwch a chydraddoldeb yn werthoedd craidd i'r Llywodraeth hon, mae'r Gyllideb hon yn rhoi'r gwerthoedd hyn ar waith. Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol ar sut mae ein cynlluniau gwario ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi ystyried yr effaith ar grwpiau a warchodir yng Nghymru.

### *Oedran*

32. Rydym yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt, gan gynnwys ein GIG, ysgolion a Llywodraeth Leol, i gyd yn cael rhagor o gyllid i gydnabod y rhan hollbwysig mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei chwarae mewn camau allweddol drwy gydol bywydau pobl. Mae awdurdodau lleol hefyd yn allweddol o ran cyflenwi gwasanaethau ataliol, gan gynnwys drwy addysg ysgolion, gan roi'r cyfle i blant a phobl ifanc ffynnu a chyflawni eu potensial; a drwy wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill sy'n sicrhau bod pobl yn gallu bod yn rhan o'u cymunedau, sy'n gallu lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus fel y GIG.

33. Mae’r Gyllideb hon yn cynnwys buddsoddiadau sy’n cefnogi pobl o'r adeg pan gânt eu geni ac ymlaen i’w haddysg, yn cefnogi ein cymunedau a’r bobl sy’n gweithio yn ein heconomi a’r trethi maent yn eu talu, ac yn cefnogi pobl i heneiddio’n dda.

*Anabledd*

34. Mae gwybod bod cyflogaeth sicr yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant economaidd rhywun wedi bod yn un o’r prif ystyriaethau er mwyn cyflawni ein blaenoriaeth cyflogaeth a sgiliau. Mae angen codi lefelau cyflogaeth pobl anabl er mwyn cau’r bwlch swyddi anabledd a gwella llesiant pobl anabl.

35. Yn 2020-21, rydym yn darparu £275k o gyllid ychwanegol ar gyfer Pencampwyr Cyflogaeth Pobl Anabl a £225k i ddatblygu cynllun gwobrau anabledd yng Nghymru ar gyfer cyflogwyr er mwyn newid agweddau cyflogwyr, lleihau stigma a chefnogi cyflogwyr i recriwtio ac i gadw pobl anabl. Bydd cyllid ar gyfer Pencampwyr Cyflogaeth Pobl Anabl a chynllun gwobrau anabledd newydd posibl yng Nghymru yn cael effaith gadarnhaol. Ar hyn o bryd mae nifer o rwystrau’n atal pobl anabl rhag dechrau mewn gwaith, aros mewn gwaith a symud ymlaen mewn gwaith. Bydd y Pencampwyr a'r cynllun gwobrau posibl yn helpu cyflogwyr i recriwtio ac i gadw pobl anabl.

*Ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol*

36. Ochr yn ochr â’r cynnydd rydym wedi’i wneud i wasanaethau cyhoeddus sydd o fudd anghymesur i grwpiau gwarchodedig, rydym hefyd yn cynnal ein buddsoddiad cyfredol yng ngwasanaeth Rhywedd Cymru a gafodd ei lansio ym mis Gorffennaf 2019. Mae’r gwasanaeth yn cynnwys Tîm Rhywedd Cymru, sy’n amlddisgyblaethol, Timau Rhywedd Lleol ym mhob bwrdd iechyd, a Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd er mwyn gwella’r gefnogaeth mewn gofal sylfaenol.

*Rhyw*

37. Ymysg y penderfyniadau rydym yn eu gwneud, rydym yn dyrannu £1.2m o gyfalaf ychwanegol yn 2020-21 i ddarparu llety diogel i deuluoedd sy’n dianc o gam-drin domestig. Canfu adroddiad 2017-18 *Cyflwr y Sector* Cymorth i Ferched Cymru nad oedd y gwasanaeth yn gallu cefnogi 431 o’r goroeswyr a atgyfeiriwyd at loches oherwydd adnoddau a chapasiti. Mae’r buddsoddiad hwn yn cydnabod hefyd bod cam-drin domestig yn fwy tebygol o effeithio ar fenywod na dynion a bod menywod yn fwy tebygol o ddianc o’u cartrefi gyda’u plant. Er mwyn cydnabod adroddiadau am brinder darpariaeth dybryd ar gyfer dynion sy’n dianc rhag cam-drin domestig, a bod dynion yn llai tebygol o chwilio am lety lloches neu ei dderbyn, gallai unedau ar wasgar hefyd gynnig llety diogel sy’n fwy derbyniol.

38. Rydym yn dyrannu £220k yn 2020-21 i gynnal y cyllid i awdurdodau lleol ddarparu nwyddau mislif yn rhad ac am ddim i aelodau’r cyhoedd sydd mewn angen, drwy fanciau bwyd a mudiadau eraill. Bydd y cyllid hwn yn helpu awdurdodau lleol i roi sylw i effaith negyddol tlodi mislif mewn cymunedau drwy ddarparu nwyddau mislif i’r rheini na fyddent fel arall yn gallu eu fforddio.

39. Roedd y cyllid roeddem wedi'i ddarparu yn 2019-20 i gyflenwi nwyddau mislif i bob dysgwr wedi cefnogi dros 140,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a bron i 53,000 o fyfyrwyr mewn sefydliadau Addysg Bellach. Rydym yn cynnal £3.1m o gyllid yn 2020-21 i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflenwi nwyddau mislif yn rhad ac am ddim i bob dysgwr er mwyn hyrwyddo urddas yn ystod y mislif, i helpu i sicrhau nad yw addysg y merched yn cael ei llesteirio oherwydd diffyg nwyddau mislif.

*Beichiogrwydd a mamolaeth*

40. Ymysg y buddsoddiadau ychwanegol rydym yn eu gwneud fel rhan o'r cynnydd o £421m i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn 2020-21, rydym yn buddsoddi £3.5m arall i gefnogi'r dull gweithredu Dechrau'n Deg. Bydd hyn yn golygu bod oddeutu 3,500 o blant ychwanegol yn cael gwasanaethau ymweliadau iechyd, magu plant a datblygu iaith a lleferydd. Rydym hefyd yn buddsoddi £4m o gyllid cyfalaf yn ychwanegol i sicrhau bod yr ystad Dechrau'n Deg bresennol yn cael ei chynnal a'i bod yn parhau i allu darparu gofal o'r safon uchaf.

41. Rydym hefyd yn buddsoddi £150k i dreialu Bwndeli Babi yn 2020-21 i gefnogi rhieni newydd yn ystod yr wythnosau a'r misoedd cyntaf gyda'u babi newydd. Bydd y bwndel yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a chefnogaeth uniongyrchol a fydd yn cynnwys bwyta'n iach, cysgu'n ddiogel, bwydo ar y fron ac iechyd meddwl ar ôl geni.

*Nodweddion gwarchodedig eraill*

42. Yng Nghyllideb 2020-21 rydym wedi gallu rhoi cynnydd termau real i bob portffolio. Dyma'r tro cyntaf erioed i ni allu gwneud hyn. Felly, ochr yn ochr â thargedu buddsoddiadau yn unol â'r blaenoriaethau trawsbynciol, rydym yn gallu cynnal y rhan fwyaf o gyllidebau ar lefelau 2019-20 mewn meysydd sy'n effeithio ar nodweddion gwarchodedig gwahanol. Mae hyn yn cynnwys cynnal cyllid yn y Gronfa Gofal Integredig o fwy na £130m yn 2020-21 i helpu Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol i ddatblygu ac i brofi modelau integredig newydd ar gyfer darparu iechyd a gofal cymdeithasol i'r rheini sydd fwyaf ei angen.

43. Mae'n destun pryder mawr ein bod wedi gweld cynnydd mewn troseddau casineb. Rydym yn dal i gefnogi'r Gweithredu i Fynd i'r Afael â Throseddau Casineb a Chydlyniant Cymunedol gyda £600k ychwanegol. Bydd y cyllid hwn yn cael effaith gadarnhaol drwy helpu i fynd i'r afael â throseddau casineb a drwy gefnogi dioddefwyr troseddau casineb ledled Cymru, gan gynnwys y rheini o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol.

44. Rydym hefyd yn rhoi £500k ychwanegol i brosiect Hawliau Dinasyddion yr UE. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar Ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru drwy eu cefnogi i fynd i'r afael â'u pryderon am eu statws yn y DU a helpu'r rheini a allai fod yn wynebu rhwystrau i gyfle cyfartal.

45. Rydym yn cynnal mwy na £7m o gyllid ar gyfer y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant sy'n cefnogi nifer o sefydliadau megis y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod, Stonewall Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, TGP (sy'n cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr), Cymorth i Ddioddefwyr (sy'n mynd i'r afael â throseddau casineb) ac Anabledd Cymru. Bydd cynnal y gyllideb hon yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau ledled Cymru, yn enwedig y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, oherwydd bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu dull strategol a chydlynus i ddarparu cyngor a chefnogaeth i ddinasyddion a mudiadau cymunedol ar draws ystod o faterion allweddol ym maes cydraddoldeb a chynhwysiant.

46. Rydym yn rhoi £1.3m o gyllid ychwanegol ar gyfer grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn Roma a Theithwyr. Bydd hyn yn gwella canlyniadau addysgol grŵp mawr o ddysgwyr sy'n agored i niwed o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Y bwriad ydy goresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr rhag cyflawni eu potensial llawn.

### Buddsoddi mewn iechyd a llesiant

47. Mae iechyd a llesiant y genedl yn ganolog i'n dyheadau ar gyfer Cymru. Rydym yn buddsoddi £421m ychwanegol mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 2020-21 sy'n golygu y bydd cyfanswm ein buddsoddiad y flwyddyn nesaf i dros £8.7bn.

48. Mae gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn hynod bwysig o ran cefnogi'r rheini sy'n fwyaf difreintiedig, boed hynny oherwydd oed, anabledd neu'r angen i ddiogelu plant. Yn 2020-21, byddwn yn buddsoddi £342m arall yn ein GIG.

49. Ar yr un pryd mae'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol hefyd yn wynebu mwy a mwy o alw gan boblogaeth sy'n newid ac yn heneiddio. Mae cost gofal yn cynyddu'n sylweddol gydag oed, ac mae'n debyg y bydd costau tymor byr yn codi oherwydd triniaethau newydd a natur lafurddwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

50. Er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gynaliadwy, rydym yn darparu cyllid sy'n cefnogi ymyriadau a all helpu i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Rydym yn cynyddu cyllid Iechyd Cyhoeddus Cymru £6.8m yn 2020-21. Mae hyn yn golygu ein bod yn buddsoddi bron i £103m yn 2020-21 i gefnogi amrywiaeth o swyddogaethau diogelu iechyd ataliol a fydd yn helpu i atal heintiau, yn canfod ac yn lliniaru yn erbyn risgiau heintus i unigolion a'r boblogaeth ehangach, ac yn gwella'r gwaith o ganfod a rheoli heintiau'n gynnar pan fyddant yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys £4.9m o gyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Gwasanaeth Diogelu Iechyd Cenedlaethol er mwyn helpu i frwydro yn erbyn Ymwrthedd Gwrth-Ficrobaidd, a £1.9m yn Gwelliant Cymru, sef ein hadnodd cenedlaethol i wella iechyd a gofal cymdeithasol.

51. Rydym yn buddsoddi £5.5m yn 2020-21 i gefnogi'r strategaeth *Pwysau Iach: Cymru Iach* i leihau gordewdra. Mae tystiolaeth yn dangos bod cael pwysau iach yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau'r risg o gyflyrau iechyd hirdymor fel diabetes, clefyd y galon a chanser. Mae cost ariannol sylweddol hefyd, gydag afiechydon sy'n gysylltiedig â gordewdra yn costio dros £465m y flwyddyn i GIG Cymru erbyn 2050, gyda'r gost i gymdeithas ac i'r economi yn £2.4bn.

52. Byddwn yn cynnal buddsoddiad o bron i £29m yn 2020-21 ar yr agenda camddefnyddio sylweddau drwy ein Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau er mwyn helpu i roi sylw i'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. Mae marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn parhau i gynyddu yng Nghymru (ynghyd â gweddill y DU), hyd at 327 yn 2018-19, gyda 208 o'r rheini'n farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau. Yn 2020-21, bydd y cyllid yn canolbwyntio ar leihau amseroedd aros, ymyrryd yn gynharach a defnyddio'r ymyriadau iawn.

53. Mae'r cyllid yr ydym yn ei ddarparu i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn cynnwys cynnal bron i £2m yn 2020-21 ar gyfer Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Mae'r rhaglen hon yn addysgu plant ar draws Cymru ar gamddefnyddio sylweddau a materion sy'n ymwneud â diogelwch personol ym mhob cyfnod allweddol yn y cwricwlwm. Bydd y cyllid yma'n codi ymwybyddiaeth o beryglon ac effeithiau camddefnyddio sylweddau ac o'r help a'r gefnogaeth sydd ar gael.

54. Rydym wedi cynnal y cyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar yr un lefelau â 2019-20, felly byddwn yn buddsoddi £25.7m arall yn 2020-21. Mae hyn yn amlygu ein hymrwymiad i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a phwysigrwydd atal iechyd gwael. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £3m yn 2020-21 mewn cyfleusterau chwaraeon lleol sy'n hollbwysig er mwyn cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau awyr agored. Mae ymchwil wedi dangos bod cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd o fudd i iechyd corfforol a'i fod hefyd yn gallu lleihau'r risg o ddementia 30 y cant a'r risg o iselder clinigol 21 y cant. Mae pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd yn dweud eu bod yn iach, sy'n golygu nad ydynt yn defnyddio cymaint o wasanaethau iechyd meddwl.

## Buddsoddi mewn llywodraeth leol

55. Mae rhoi'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol wedi bod yn ganolog i'n gwaith yn paratoi'r Gyllideb. Mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau hanfodol i bawb gan gynnwys rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae'n helpu i wella addysg, darparu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd eu hangen ar ein cymunedau, mynd i'r afael â thlodi a chyflawni newid mawr mewn tai cymdeithasol.

56. Mae'r cyllid refeniw a chyfalaf i lywodraeth leol drwy'r setliad llywodraeth leol heb ei neilltuo ar gyfer 2020-21 yn sylweddol - bron i £4.5bn o gyllid refeniw

yn ogystal â chyfalaf a grantiau penodol ychwanegol i awdurdodau lleol. Mae adeiladu ar y mesurau roeddem wedi'u cymryd yn rownd Gyllideb y llynedd, gan roi'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol, wedi bod yn flaenoriaeth drwy gydol ein paratoadau. Yn y Gyllideb hon, mewn cyd-destun o ansicrwydd parhaus gyda gwariant cyhoeddus ac ar ôl bron i ddegawd o gyni, rydym wedi cynyddu'r cyllid refeniw, ac wedi cynyddu refeniw ardrethi annomestig, i ddarparu £194m o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol yn 2020-21.

57. Rydym hefyd yn darparu £15m ychwanegol mewn cyllid cyfalaf heb ei neilltuo i awdurdodau lleol ac rydym yn cynnal ein buddsoddiad cyffredinol mewn grantiau penodol ar draws ein Cyllideb o bron i £1bn yn 2020-21.

58. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gyflawni eu hasesiadau effaith eu hunain fel rhan o'u penderfyniadau ynghylch cyllidebau lleol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod eu bod yn wynebu pwysau sylweddol mewn addysg a gofal cymdeithasol, ac mai dyma eu meysydd gwariant mwyaf, ochr yn ochr â gwasanaethau eraill fel gwasanaethau cymunedol ac ieuenctid.

59. Disgwylir gweld yr effaith gadarnhaol fwyaf o ganlyniad i'r cyllid sy'n cael ei roi i addysg ymysg y plant a'r bobl ifanc hynny sydd â'r canlyniadau addysgol isaf, gan gynnwys y rheini o deuluoedd incwm is a rhai lleiafrifoedd ethnig. Sgiliau a chymwysterau yw'r un prif ddylanwad mwyaf ar gyfle pobl o fod mewn cyflogaeth ac ar eu hincwm. Mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn parhau i gael canlyniadau gwaeth na grwpiau eraill, gyda'r hyn sy'n cyfateb i bron i ddau TGAU gradd C yn llai ar gyfartaledd.

60. Disgwylir hefyd i'r cyllid gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol, lle mae'r galw ar gynnydd ac mae awdurdodau lleol yn ceisio moderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau. Mae awdurdodau lleol wedi cyfeirio'n benodol at y galw cynyddol ym maes gwasanaethau plant. Bydd mwy o gyllid yn cefnogi plant a phobl ifanc anabl i gydnabod eu hamrywiaeth, yn cefnogi eu hannibyniaeth a'u dewisiadau, yn eu grymuso ac yn parchu eu hawliau.

61. Dangoswyd bod gwariant ar wasanaethau awdurdodau lleol yn arbennig o bwysig o ran cefnogi menywod. Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod angen gwasanaethau cyhoeddus, yn fwy tebygol o weithio yn y sector cyhoeddus ac yn fwy tebygol o orfod cynyddu eu gwaith di-dâl pan fydd gwasanaethau'n cael eu cwtogi. Mae cyfran anghymesur o'r gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol yn cael eu darparu gan fenywod ac i fenywod a phlant, gan gynnwys gofal cymdeithasol, cludiant a thai, yn uniongyrchol iddynt eu hunain neu'n anuniongyrchol i bobl eraill maent yn gofalu amdanynt.

## Iechyd meddwl

62. Mewn nifer o achosion mae cael y driniaeth iawn yn gynnar, ynghyd â gwell ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, yn gallu atal effeithiau niweidiol yn y tymor hwy. Mae anhwylderau meddwl hefyd yn effeithio'n sylweddol ar ddisgwyliad oes.

63. Rydym hefyd yn gwybod nad yw pawb yn teimlo effeithiau iechyd meddwl gwael i'r un graddau. Mae menywod a merched yn fwy tebygol o ddioddef o gyflyrau iechyd meddwl ac mae'r cyfraddau hunanladdiad ymysg dynion yn gyson uwch ar draws pob grŵp oed. Cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru sydd â'r iechyd a llesiant meddwl salaf. Mae parhau i fod yn feddyliol ac yn gorfforol egnïol yn ystod henaint yn allweddol ar gyfer lleihau'r risg o ddatblygu dementia, cyflyrau iechyd eraill, ac iselder o ganlyniad i unigrwydd a theimlo'n ynysig.

64. Byddwn yn parhau i glustnodi cyllid iechyd meddwl o fewn cyllideb y GIG ac rydym yn buddsoddi £13m arall mewn gwasanaethau iechyd meddwl i gefnogi darparu *Cymru Iachach*, gan ddod â chyfanswm y dyraniad sydd wedi'i glustnodi i dros £700m yn 2020-21.

65. Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd meddwl plant bron wedi dyblu, sy'n dangos cynnydd mewn ymwybyddiaeth ac yn nifer yr achosion. Mae hyn wedi rhoi straen ar wasanaethau. O'r £13m o gyllid ychwanegol mewn gwasanaethau iechyd meddwl, mae £500k wedi cael ei dargedu ar gyfer y Rhaglen Ysgol Gyfan i ddarparu cwnsela a chefnogaeth emosiynol i blant ysgol. Mae hyn, ynghyd â £2m ychwanegol o'r gyllideb addysg, yn golygu bod cyfanswm ein cyllid i gefnogi'r dull ysgol gyfan yn £5m yn 2020-21.

66. Oherwydd hyn, byddwn hefyd yn rhoi £2m i Addysg Uwch a £2m i Addysg Bellach er mwyn adeiladu ar eu gwasanaethau cefnogi i fyfyrwyr, hyfforddiant staff a dulliau arloesol o gefnogi iechyd meddwl, llesiant ac anghenion dysgu ychwanegol.

67. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn amcangyfrif bod iechyd meddwl gwael yn costio 4.5 y cant o gynnyrch domestig gros economi'r DU bob blwyddyn. Mae Canolfan Iechyd Meddwl y DU yn amcangyfrif bod cyfanswm blynyddol cost anhwylderau iechyd meddwl i gyflogwyr y DU bron yn £26bn. Mae cyflogaeth yn hanfodol i iechyd meddwl da ac mae diweithdra yn arwain at ddirywiad mewn iechyd a llesiant. Yn 2020-21 rydym yn dyrannu dros £830k i *Cymru Iach ar Waith* i gefnogi rhaglen ar y cyd sy'n ceisio gwella iechyd yn y gwaith.

## Gofal cymdeithasol

68. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu mwy o bwysau o ganlyniad i boblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, gyda disgwyl i nifer y bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn gynyddu'n sylweddol erbyn 2043. Yn bwysig, bydd y galw yn y dyfodol yn dibynnu ar newidiadau yn anghenion gofal y boblogaeth. Oherwydd natur y gwasanaethau maent yn eu darparu, budd buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn effeithio ar y rheini sydd dan yr anfantais fwyaf, boed hynny oherwydd oed, anabledd neu'r angen i ddiogelu plant.

69. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anabledd corfforol a meddyliol a chefnogi gofal cymdeithasol pobl hŷn a'r rheini sydd ar incwm is

a'r rheini sy’n ymdopi ag anawsterau corfforol a meddyliol wrth iddynt heneiddio. Gan adeiladu ar yr £30m ychwanegol a ddyrannwyd eleni i awdurdodau lleol drwy grant arbennig i roi sylw i bwysau ym maes gofal cymdeithasol, rydym yn cynyddu’r grant i £40m yn 2020-21.

70. Plant sy’n cael eu rhoi i’w mabwysiadu ydy’r plant sydd â’r risg mwyaf o barhau i ‘dderbyn gofal’ am eu holl blentyndod os nad ydynt yn cael eu mabwysiadu. Cafodd dros 310 o blant eu rhoi yn eu cartref mabwysiadu newydd yn ystod 2018-2019. Rydym yn dyrannu £2.3m (o’r £421m o gyllid iechyd ychwanegol) i’r gwasanaeth mabwysiadu. Bydd hyn yn cryfhau ac yn gwella'r gwasanaethau presennol, ar gyfer mabwysiadwyr, plant a phobl ifanc, gan helpu awdurdodau lleol i wella canlyniadau i blant a chreu teuluoedd mabwysiadu cadarn.

71. Mae anghenion gofal cymdeithasol yn datblygu wrth i natur afiechydon newid, ac mae angen mwy o ffocws ar atal a mynediad at ystod ehangach o wasanaethau. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y Gronfa Gofal Integredig gyda chyllideb sydd dros £130m (£89m refeniw a £42m cyfalaf) yn 2020-21 i helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu ac i brofi modelau gwasanaeth ataliol integredig ar gyfer pobl hŷn sydd ag anghenion gofal a chymorth, pobl sydd ag anableddau dysgu, plant sydd ag anghenion cymhleth, plant mewn gofal neu sydd mewn perygl o fynd i ofal, a gofalwyr. Mae rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig hefyd yn buddsoddi mewn llety pwrpasol a chyfleusterau gofal canolraddol i helpu pobl hŷn, pobl â dementia, ac oedolion a phlant sydd ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu i barhau i fyw’n annibynnol yn y gymuned, yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi darparu gwasanaethau iechyd a gofal integredig yn y gymuned.

72. Rydym hefyd yn dyrannu £2m o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn 2020-21 ar gyfer Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron yn Nhregaron. Bydd y ganolfan yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymunedol integredig, 34 o unedau tai gofal ychwanegol ac unedau camu i fyny/lawr mewn lleoliad gwledig.

73. Rydym yn dyrannu £900k yn 2020-21 i fwrw ymlaen â gwaith archwiliadol ar ddull gweithredu integredig i gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg. Fel rhan o hyn byddwn yn comisiynu ymarfer cwmpasu i ymchwilio ymhellach i fodelau integredig, Rhith Ysgolion, a dulliau gweithredu system gyfan, fel sylfaen ar gyfer dull gweithredu yng Nghymru.

74. Yn 2020-21, rydym yn ychwanegu £1.2m ychwanegol i’r Grant i’r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn gwneud £4.9m o gynnydd yng nghyfanswm ymrwymiad y grant hwn, felly bydd cyfanswm y buddsoddiad yn werth hyd at £25.9m. Bydd y cynlluniau sy’n cael eu hariannu yn cefnogi gofalwyr, plant a phobl ifanc, anableddau corfforol neu synhwyraidd, anableddau dysgu a phobl hŷn.

## Y blynyddoedd cynnar

75. Drwy ddarparu'r gefnogaeth iawn yn ystod y blynyddoedd cynnar i bob plentyn, yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig, gellir rhoi'r sylfaen ar gyfer llesiant drwy gydol eu bywyd a dyma'r ffordd orau o dorri'r cylch tlodi. Mae ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar ac mae wedi cael ei ddylunio i leihau nifer y teuluoedd sy'n datblygu anghenion mwy cymhleth sy'n galw am ymyriadau sy'n fwy dwys ac yn ddrutach yn nes ymlaen. Drwy fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar, rydym yn llawer mwy tebygol o atal plant rhag wynebu anawsterau'n ddiweddarach, pan fydd yr anawsterau'n gallu bod yn anoddach o lawer eu datrys.

76. Mae ein rhaglen blynyddoedd cynnar arloesol, Dechrau'n Deg, yn cyrraedd 36,000 o blant a'u teuluoedd bob blwyddyn. Mae'n rhoi mynediad at ddarpariaeth gofal plant rhan amser o ansawdd sydd wedi cael ei gyllido ar gyfer plant 2-3 oed, cefnogaeth magu plant, cefnogaeth ymwelwyr iechyd dwys, a chefnogaeth ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu.

77. Rydym yn buddsoddi £3.5m arall yn y dull gweithredu Dechrau'n Deg yn 2020-21. Bydd hyn yn adeiladu ar waith y rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, gan ein galluogi i gyrraedd rhagor o blant a theuluoedd y mae angen cymorth arnynt yn y blynyddoedd cynnar. Bydd y cynnydd hwn yn ymestyn cyrhaeddiad cydrannau ymwelwyr iechyd, magu plant a datblygu iaith a lleferydd y cynllun i oddeutu 3,500 o blant ychwanegol ar draws Cymru. Rydym hefyd yn buddsoddi £4m o gyllid cyfalaf yn ychwanegol i sicrhau bod yr ystad Dechrau'n Deg bresennol yn cael ei chynnal a'i bod yn parhau i allu darparu gofal o'r safon uchaf.

78. Mae tystiolaeth wedi dangos bod darpariaeth blynyddoedd cynnar, fforddiadwy, hygyrch ac o ansawdd, sydd ar gael ar yr adegau pan fydd angen hynny ar rieni, yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ehangu'r economi, gan helpu rhieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i waith. Mae gofal plant ac addysg gynnar o ansawdd uchel hefyd yn arwain at fanteision tymor hir i'n plant ac mae'n dylanwadu'n gryf ar eu cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol.

79. Ar gyfer 2020-21, rydym yn dyrannu £20m o'r £421m o ymgodiad iechyd er mwyn cynyddu cyllid ar gyfer y Cynnig Gofal Plant o £40m i £60m. Mae ein Gwerthusiad o Weithrediad Cynnar y Cynnig yn awgrymu ei fod yn cael effaith gadarnhaol, gan helpu 88 y cant o rieni yn ariannol, darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth i 67 y cant o rieni, a chaniatáu i 76 y cant o'r sefydliadau fod yn fwy cynaliadwy. Ddiwedd mis Gorffennaf 2019, roedd bron i 16,000 o blant tair a phedair oed yn manteisio ar ofal plant sy'n cael ei gyllido gan y llywodraeth. Mae rhiant nodweddiadol sy'n elwa o 20 awr o ofal plant yr wythnos yn cael yr hyn sy'n cyfateb i £90 ychwanegol yn eu poced bob wythnos.

80. Rydym hefyd yn buddsoddi £6m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn 2020-21 i gefnogi ein Cynnig Gofal Plant gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad cyfalaf i £70m dros dair blynedd. Bydd hyn yn cefnogi cydleoli gwasanaethau, gyda'r Cynnig Gofal Plant yn ceisio darparu cyfleusterau Gofal ac Addysg Plant yn y

Blynyddoedd Cynnar ar un safle a chefnogi dull gweithredu Dechrau'n Deg o gyd-leoli timau amlasiantaeth.

81. Ers mis Ebrill eleni, mae pob adeilad gofal plant yng Nghymru yn cael gostyngiad o 100 y cant ar eu hardrethi annomestig mewn pecyn o gefnogaeth sy'n werth £7.5m dros dair blynedd (2019-20 i 2021-22).

82. Rydym yn cyflwyno cynllun newydd i dreialu Bwndeli Babis yn 2020-21. Bydd y bwndeli'n cynnwys amrywiaeth o eitemau ymarferol i helpu i ofalu am fabi newydd, ynghyd â gwybodaeth ddefnyddiol. Bydd y cynllun hefyd yn rhoi cyfle i weithwyr iechyd proffesiynol ymgysylltu teuluoedd â gwasanaethau cefnogi pan fydd angen, a dechrau sgyrsiau am fwyta'n iach, cysgu'n iach, bwydo ar y fron ac iechyd meddwl ar ôl geni.

83. Fel llywodraeth, mae gennym ymrwymiad hirsefydlog i hawliau plant, ar sail Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rydym yn buddsoddi £500k arall yn 2020-21 yn Hyb Cefnogaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru a £600k i ddatblygu ac i gefnogi'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth i gyfrannu at nifer o fesurau y darperir ar eu cyfer ym Mil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i gael Cydsyniad Brenhinol. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ynghyd â hawliau dynol rhyngwladol eraill, yn cydnabod bod gan blant hawl gyfreithiol i gael eu parchu o ran eu corff a'u hurddas. Drwy'r Bil yma bydd plant yng Nghymru'n cael cynnig yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag cosb gorfforol ag oedolion.

84. Yn 2020-21 rydym yn dyrannu £1.2m i ddarparu llety diogel i deuluoedd sy'n dianc o drais domestig, cefnogi darparwyr trydydd sector i gaffael unedau cymunedol ar wasgar sydd â'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion teuluoedd nad oes modd eu diwallu drwy lochesau. Gan mai menywod sy'n gofalu am blant yn ein cymdeithas gan fwyaf, nhw sy'n fwyaf tebygol o ddianc gyda phlant. Yn ystod 2017-18, roedd llinell gymorth Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru wedi cefnogi bron i 2,000 o oroeswyr a ddywedodd fod ganddynt blant yr oedd y cam-drin wedi effeithio arnynt. Yn ystod y flwyddyn, roedd y Llinell Gymorth wedi cefnogi rhieni dros 3,500 o blant. Rydym hefyd yn cydnabod bod dynion sy'n dianc rhag cam-drin domestig yn llai tebygol o chwilio am lety lloches neu ei dderbyn, ac yn yr achosion hyn gallai unedau ar wasgar gynnig llety diogel sy'n fwy derbyniol.

## Buddsoddi mewn addysg

85. Addysg ydy un o'r buddsoddiadau pwysicaf y gallwn ni eu gwneud i wella cyfleoedd bywyd plant, yn enwedig y rheini a ddaw o gymunedau difreintiedig a'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn buddsoddi dros £2.5bn mewn addysg yn 2020-21. Drwy gyflawni cynllun gweithredu *Ein Cenhadaeth Genedlaethol* rydym yn codi safonau, yn mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad ac yn sicrhau bod gennym system addysg sy'n ffynhonnell o falchder cenedlaethol a hyder cyhoeddus.

86. Yn unol â'n hymrwymiad i fuddsoddi £100m dros dymor y Cynulliad hwn i godi safonau ysgol, rydym yn buddsoddi £25.5m arall yn 2020-21 ynghyd â'r cyllid rydym yn ei ddarparu drwy'r setliad llywodraeth leol. Rhan ganolog o'n cynllun gweithredu yw darparu Cwricwlwm newydd i Gymru, a fydd yn cael ei gefnogi gan £10m yn 2020-21, a £3m o gyllid ychwanegol er mwyn datblygu Rhwydweithiau Cenedlaethol i ddarparu cymorth ac adnoddau ar gyfer dylunio cwricwlwm ar lefel yr ysgol a dysgu proffesiynol.

87. Mae ein dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas â Dysgu Proffesiynol yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys adolygiad annibynnol o'r enw *Addysgu Proffesiwn Gwerthfawr* yn 2018. Ar gyfer 2020-21, rydym yn darparu £15m arall i sicrhau bod ein proffesiwn addysgu yn derbyn y gefnogaeth y mae ei hangen arno i godi safonau a darparu ein cwricwlwm trawsnewidiol newydd.

88. Er bod gwelliannau wedi digwydd mewn rhai meysydd, mae bylchau'n dal i fodoli mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng gwahanol grwpiau. Er enghraifft, mae cyfran uwch o blant Asiaidd, Tsieineaidd ac ethnigrwydd cymysg yn cyrraedd lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig na'r rheini o gefndir ethnig Gwyn. Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant sy'n derbyn gofal a chefnogaeth yn dal yn is na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae canlyniadau addysgol disgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf.

89. Rydym wedi darparu £36m dros dymor y Cynulliad hwn i leihau dosbarthiadau babanod, gan dargedu'r arian hwnnw at y rheini y mae amddifadedd yn effeithio arnynt fwyaf. Ar gyfer 2020-21, rydym wedi neilltuo £11m i barhau i gefnogi'r ymrwymiad hwn. Mae 115 o ysgolion ledled Cymru yn elwa o'r cyllid hwn drwy benodi 110 o athrawon ychwanegol, 42 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol, creu 52 ystafell ddosbarth newydd ac ailfodelu ac uwchraddio ystafelloedd dosbarth mewn 7 ysgol.

90. Mae'r Gyllideb hon yn rhoi £8m ychwanegol yn 2020-21 i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Addysgol Ychwanegol i gael addysg o ansawdd uchel a chyrraedd eu potensial. Bydd y cyllid yn cefnogi awdurdodau lleol ac addysg bellach i dalu am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth er mwyn goresgyn y rhwystrau iddynt lwyddo. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cefnogi 115,000 o ddysgwyr. Mae'r cyllid hwn ar ben y pecyn cyllido gwerth £20m dros dymor y Cynulliad hwn i helpu i baratoi i weithredu'r system newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

91. Rydym yn cynnal ein buddsoddiadau blaenorol ac yn buddsoddi £1.3m ychwanegol ar gyfer gwasanaethau i gefnogi dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan roi cyfanswm o £10m i gefnogi canlyniadau gwell i'r grŵp yma o ddysgwyr ar gyfer 2020-21.

92. Mae colegau Addysg Bellach o fudd anghymesur i grwpiau gwarchodedig oherwydd y math o ddysgu maent yn ei ddarparu; ac mae'r ddarpariaeth ran amser sy'n cael ei darparu gan fwyaf drwy Addysg Bellach yn effeithio'n

gadarnhaol ar fenywod. Rydym hefyd yn gwneud £14m o gynnydd yn ein cyllid i gefnogi ein colegau Addysg Bellach yn 2020-21 i godi safonau ac i gefnogi myfyrwyr.

93. Rydym yn dyrannu £10m ychwanegol i gryfhau Rhaglen Ysgolion a Cholegau’r 21ain Ganrif, sy’n golygu bod cyfanswm ein buddsoddiad dros y Weinyddiaeth hon dros £650m. Bydd hyn yn helpu partneriaid cyflenwi i drawsnewid y seilwaith addysg i ddarparu amgylcheddau sy’n ysbrydoli dysgwyr, a newid tuag at fod yn ystad addysg sy’n fwy gwyrdd.

## Tai

94. Mae arnom eisiau i bawb fyw mewn cartref sy’n diwallu eu hanghenion ac sy’n cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a ffyniannus. Mae cartrefi o ansawdd da yn sylfaen i gymunedau da ac yn sail i unigolion ac i deuluoedd allu ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywyd.

95. Dros dymor y Cynulliad hwn byddwn wedi buddsoddi £2bn i gydnabod pwysigrwydd tai da o ansawdd i gefnogi cymunedau sy’n ffynnu. Yn 2020-21 rydym yn dyrannu £175m o gyfalaf ychwanegol sy’n golygu bod cyfanswm ein buddsoddiad y flwyddyn nesaf dros £400m.

96. Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd ein targed uchelgeisiol o gyflenwi 20,000 o dai fforddiadwy yn ystod tymor y Cynulliad hwn ac rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwnnw. Yn ystod 2018-19, roedd 2,592 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol wedi cael eu cyflenwi ar gyfer y bobl roedd angen hynny arnynt ar draws Cymru, gan gynnwys teuluoedd â phlant. Er mwyn parhau â’r momentwm hwn, rydym yn darparu £48m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn 2020-21 i gefnogi’r Grant Tai Cymdeithasol.

97. Mae angen i 225,000 o dai cymdeithasol Cymru fod o safon deilwng, gan gydnabod bod tai o ansawdd yn cael effaith amlwg ar iechyd a llesiant. Mae hyn yn cynnwys y cysylltiadau rhwng cartrefi oer a thamp a chlefydau anadlol ac asthma. Gall y problemau iechyd hyn gyfrannu at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ogystal â chael effaith negyddol ar allu plant i ddysgu a chael effaith sylweddol ar allu pobl hŷn i barhau i fyw’n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Er enghraifft, nid yw 25 y cant o blant mewn tai gwael yn ennill unrhyw gymwysterau TGAU o’i gymharu â thua 10 y cant nad ydynt yn byw mewn tai gwael. Ar ben hynny, mae plant sy’n byw mewn tai gwael iawn 20 y cant yn fwy tebygol o fynd i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ysbytai na phlant eraill. Mae buddsoddi mewn cartrefi o ansawdd da felly’n effeithio’n uniongyrchol ar y rheini sy’n byw ynddynt.

98. Mae amodau tai wedi gwella dros y 10 mlynedd diwethaf, sy’n golygu bod llai o bobl yn byw mewn tai sydd â pheryglon ac nad ydyn nhw’n defnyddio ynni'n effeithlon. Rydym yn cynnal ein cefnogaeth ar gyfer landlordiaid cymdeithasol gyda £108m y flwyddyn er mwyn sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei chyflawni a'i chadw.

99. Mae ein buddsoddiadau mewn tai hefyd yn sicrhau bod tai sydd eisoes ar gael a thai newydd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon, yn helpu i leihau tlodi tanwydd ac yn gwella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol. Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd wedi datgan bod tai a gwres domestig yn feysydd pwysig lle mae'n rhaid i lywodraethau gyflawni cynlluniau cadarn er mwyn cyrraedd targedau datgarboneiddio.

100. Ochr yn ochr â'r buddsoddiadau rydym yn eu gwneud o dan ein maes blaenoriaeth Datgarboneiddio, bydd ein rhaglen Benthyciadau Tai yn cael cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol gwerth £50m yn 2020-21 i helpu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gyda chynlluniau datblygu ar gyfer tai cymdeithasol newydd ac i helpu i ddechrau datgarboneiddio tai. Rydym hefyd yn buddsoddi £10m yn 2020-21 i gyflymu'r gwaith o ddarparu tai cymdeithasol modiwlaidd ychwanegol a fydd yn gallu cael gwared ar dlodi tanwydd i denantiaid ac yn cael eu hadeiladu i safonau di-garbon neu bron â bod yn ddi-garbon, yn ogystal â darparu swyddi, hyfforddiant a phrentisiaethau.

101. Mae darparu tai diogel a fforddiadwy yn chwarae rhan bwysig i gefnogi unigolion agored i niwed i oresgyn problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae galluogi pobl i aros yn eu cartrefi'n hirach hefyd yn arwain at fanteision iechyd a chymdeithasol sylweddol. Mae buddsoddi mewn tai hefyd yn cefnogi economi Cymru o ran cynnal a chefnogi swyddi yn y diwydiant adeiladu ac yn y gadwyn gyflenwi.

102. Yn 2020-21, rydym yn dyrannu £5m mewn Cronfa Rhyddhau Tir er mwyn datblygu tai cymdeithasol yn gyflymach, gyda'r nod o ddatgloi'r potensial i ddatblygu tir cyhoeddus er lles y cyhoedd, yn enwedig i ddiwallu'r galw am dai fforddiadwy a chymdeithasol. Bydd cyllid trafodiadau ariannol o £18.4m yn 2020-21 yn helpu i gwblhau tri datblygiad preswyl gan Tirion Homes yn Nhonyrefail, Caerdydd a Chasnewydd i scirhau bod mwy na 1,500 o dai newydd ar gael, a hanner y rheini'n dai fforddiadwy, heb fod angen grant tai cymdeithasol o gwbl. Rydym yn buddsoddi £18.4m i gefnogi'r gwaith o ddarparu tri datblygiad preswyl Cartrefi Tirion i gyflenwi dros 1,500 o gartrefi newydd, a bydd eu hanner yn fforddiadwy. Rydym yn dyrannu £35m i gynllun Cymorth i Brynu - Cymru, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i helpu pobl i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn sicrhau bod prynwyr am y tro cyntaf, yn benodol, yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, gan fod 76 y cant o bob pryniant drwy'r cynllun yn brynwyr am y tro cyntaf.

103. I gefnogi ein gweithgareddau adfywio ehangach, rydym hefyd yn darparu £10m ar gyfer Benthyciadau Canol Tref i gefnogi prosiectau sy'n cael blaenoriaeth ranbarthol, gan hyrwyddo adfywio economaidd a llesiant ein trefi a'n cymunedau. Mae'r cynllun erbyn hyn yn cefnogi 32 o drefi ar draws Cymru. Mae'r manteision a'r enillion amlwg yn cynnwys cefnogi creu swyddi a thwf economaidd drwy ddarparu gofod busnes modern a chaniatáu i fusnesau lleol a newydd dyfu a datblygu yng nghanol ein trefi. Mae hyn yn cynnwys cefnogi Seilwaith Gwyrdd mewn canol trefi.

104. Mae'n annerbyniol bod pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref neu'n cael eu gorfodi i gysgu ar y stryd mewn cymdeithas ffyniannus. Mae'n dal yn wir bod dynion yn fwy tebygol na menywod o fod yn ddigartref, ond mae'r rheini sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol ac mae modd eu hatal rhag bod yn ddigartref yn fwy tebygol o fod yn fenywod. Roedd plant dibynnol mewn bron i hanner yr aelwydydd a oedd yn cael eu bygwth â digartrefedd.

105. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod y gyfradd o atal digartrefedd yn llwyddiannus wedi gwella i 68 y cant yn 2018-19, er gwaethaf cynnydd yn nifer yr aelwydydd a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref. Rydym yn cynnal ein buddsoddiad o £17.9m yn y Grant Atal Digartrefedd yn 2020-21 i sicrhau ein bod yn mynd ymhellach. Bydd y cyllid hwn yn helpu pobl y mae digartrefedd yn effeithio arnynt yn aml, megis pobl sy'n cysgu ar y stryd, drwy gyllido llochesau nos, hostelau, gwaith allgymorth, cynlluniau myfyrio a chynlluniau bond, ac mae'n darparu rhwydwaith sylweddol o wasanaethau cynghori. Bydd hyn hefyd yn helpu i gefnogi ein buddsoddiad parhaus yn y saith prosiect Tai yn Gyntaf ar hyd a lled Cymru. Bydd hyn yn rhoi cymorth dwys i dros 100 o bobl sydd â hanes o gysgu allan yn aml, a'u helpu i lety tymor hir.

## Cydraddoldeb a chynhwysiant

106. Yn 2020-21, bydd cyllidebau cydraddoldeb yn cynyddu dros £700k sy'n golygu y bydd ein cyllideb cydraddoldeb a chynhwysiant dros £7m. Bydd hyn yn golygu ein bod yn gallu cryfhau ein gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb canlyniadau i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd y cyllid hwn yn arwain at weithredu ar yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, yn cefnogi dechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac yn darparu cefnogaeth i fudiadau cydraddoldeb, hil ac anabledd yng Nghymru.

107. Bydd £250k ychwanegol yn cael ei neilltuo yn 2020-21 i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sy'n golygu y bydd cyfanswm ein buddsoddiad dros £5m. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wneud Cymru'r lle mwyaf diogel yn Ewrop ar gyfer menywod, ac mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud ers cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

108. Yn 2020-21 bydd dros £400k yn cael ei ddarparu i brosiect Braenaru Merched a'r glasbrintiau Troseddwyr Ifanc ac sy'n Fenywod, a bydd y naill a'r llall yn canolbwyntio ar atal.

109. Er bod nifer y bobl ifanc o Gymru sydd mewn caethiwed wedi disgyn yn sylweddol, mae nifer ohonynt mewn caethiwed i ffwrdd o'u cartrefi, eu teulu a'u cymunedau. Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi ymrwymiad i ddeall sut gall gwasanaethau sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli gydweithio er mwyn gwireddu hawliau plant a datblygu system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ar sail egwyddorion sy'n seiliedig ar hawliau.

110. Mae hefyd angen ateb brys arnom ar gyfer menywod sy'n troseddu yng Nghymru. Mae menywod yn aml yn cael eu hanfon i'r carchar am droseddau

diannod lefel isel. Mae anfon menywod nad ydynt wedi cyflawni troseddau difrifol i'r carchar am gyfnod byr yn gallu cael effaith drychinebus arnyn nhw ac ar eu teuluoedd. Ar hyn o bryd mae tua 250 o fenywod o Gymru mewn carchardai yn Lloegr. Mae'r problemau sydd ynghlwm wrth fod ymhell o gartref sy'n wynebu menywod o Gymru sydd wedi troseddu a'u teuluoedd yn sylweddol ac mae'n bryder go iawn o ran yr effaith ar eu plant yn benodol, ond hefyd o ran adsefydlu'r menywod.

111. Mae ein cyllidebau cydraddoldeb yn canolbwyntio ar weithgareddau ataliol. Yn ystod 2020-21, gyda chefnogaeth y Gronfa Bontio Ewropeaidd, byddwn yn gallu parhau i gynnig cefnogaeth i'r prosiect Cryfhau Cydlyniant Cymunedol, Gweithredu i Fynd i'r Afael â Throseddau Casineb a Chydlyniant Cymunedol, a phrosiect Hawliau Dinasyddion yr UE. Mae'r prosiectau hyn yn gwreiddio'r pum ffordd o weithio, gyda phwyslais cryf ar gynnwys grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a darparu ymyriadau sy'n ceisio atal effeithiau niweidiol a hybu integreiddio.

### Buddsoddi mewn tystiolaeth a gwelliant

112. Byddwn yn buddsoddi £1m arall i wella'r gwaith o gasglu tystiolaeth a data yn y sector cyhoeddus yn 2020-21. Bydd y buddsoddiad yn canolbwyntio ar £500k ar gyfer gallu gwyddor data, £250k ar gyfer prosiectau digidol a data, a £250k ar gyfer cytundeb geo-ofodol y sector cyhoeddus.

## Cymru sy'n fwy ffyniannus

113. Mae arnom eisiau economi sy'n seiliedig ar sgiliau o ansawdd uchel, gan roi'r adnoddau i fusnesau dyfu ac arloesi a rhoi'r gallu i bobl i ffynnu mewn Gwlad o Waith Teg. Dylai pawb gael y sgiliau angenrheidiol i gael swydd a chyfle i ddatblygu sgiliau newydd drwy eu bywyd gwaith.

### Tlodi

114. Mae'n realiti anffodus bod disgwyl i bobl sy'n cael eu geni i deuluoedd difreintiedig wneud yn waeth yn yr ysgol, eu bod yn fwy tebygol o fod yn NEET pan fyddant yn oedolyn ifanc; yn ddi-waith pan fyddant yn oedolyn a bod eu disgwyliad oes iach yn llai. Yng nghyd-destun cyni, ychydig iawn o newid a fu mewn lefelau tlodi incwm cymharol ers nifer o flynyddoedd, er bod rhai grwpiau wedi gweld newid.

115. Rydym yn buddsoddi bron i £1bn mewn ystod eang o fesurau sy'n cyfrannu at drechu tlodi, gan gynnwys cefnogaeth barhaus i blant a theuluoedd yn y blynyddoedd cynnar drwy agweddau o'r Grant Plant a Chymunedau sy'n cynnwys cyllid ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

116. Ochr yn ochr â'n huchelgais o gael Cymru fwy ffyniannus, rydym hefyd yn dyrannu dros £19m yn 2020-21 mewn pecyn o fesurau a dargedwyd yn benodol i helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys y rheini sy'n byw mewn tlodi. Rydym yn cyllido cynlluniau sydd

wedi'u targedu ac yn cadw arian ym mhocedi pobl ac rydym yn cyllido gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i unigolion a theuluoedd difreintiedig.

117. Rydym yn parhau i gynnal ein buddsoddiad o £244m bob blwyddyn yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gydag un aelwyd o bob pump yn elwa o gael gostyngiad yn y dreth gyngor. Yn 2018-19, roedd bron i 280,000 o aelwydydd agored i niwed ac incwm-isel yng Nghymru yn dal i gael eu diogelu rhag unrhyw gynnydd yn eu hatebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor, ac roedd 220,000 yn parhau i beidio â gorfod talu unrhyw dreth gyngor o gwbl. Ar gyfartaledd roedd y cymorth a roddwyd dan y cynllun i aelwydydd oddeutu £940 y flwyddyn yn 2018-19. Ochr yn ochr â'r cynllun hwn, mae dros hanner miliwn o gartrefi'n cael disgownt ac eithriadau ar eu biliau treth gyngor bob blwyddyn. Mae nifer o'r disgowntiau hyn yn cefnogi aelwydydd sydd â mwy o risg o dlodi.

118. Rydym yn cynnal £220k o gyllid i awdurdodau lleol ddarparu nwyddau mislif yn rhad ac am ddim i aelodau'r cyhoedd sydd mewn angen drwy fanciau bwyd a mudiadau eraill, er mwyn mynd i'r afael ag effaith negyddol tlodi mislif mewn cymunedau. Yn 2019-20, roeddem wedi darparu cyllid i gyflenwi nwyddau mislif yn rhad ac am ddim i bob dysgwr. Roedd hyn wedi effeithio ar dros 140,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a bron i 53,000 o fyfyrwyr mewn sefydliadau Addysg Bellach. Rydym felly'n parhau i roi £3.1m i awdurdodau lleol yn 2020-21 i gyflenwi nwyddau mislif yn rhad ac am ddim i bob dysgwr er mwyn hyrwyddo urddas yn ystod y mislif a helpu i sicrhau nad yw presenoldeb merched mewn addysg yn cael ei lesteirio oherwydd diffyg nwyddau mislif.

119. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn cynnig taliadau, neu gefnogaeth mewn nwyddau, er mwyn rhoi cymorth ar frys i bobl lle ceir anghenion dynodedig er mwyn diogelu iechyd a llesiant. Ers mis Ebrill 2013 mae'r gronfa hon wedi rhoi bron i 260,000 o ddyfarniadau i'r bobl fwyaf agored i niwed, gyda £52.4m wedi cael ei roi mewn grantiau. Byddwn yn darparu £1m ychwanegol yn 2020-21 i ddiwallu'r galw cynyddol am y gronfa. Mae hyn yn helpu pobl mewn angen gyda chostau hanfodol ar ôl argyfwng, ac mae'n helpu i dalu am y costau byw y mae'n rhaid eu talu ar unwaith - gan dalu am gost bwyd a thanwydd y rheini sy'n wynebu caledi ariannol difrifol neu er mwyn galluogi pobl agored i niwed i naill ai sefydlu eu hunain yn y gymuned neu i barhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned, gan osgoi'r angen am ofal sefydliadol.

120. Rydym yn dyrannu £500k yn 2020-21 i ddatblygu rhaglen Credydau Amser genedlaethol sy'n ceisio cynyddu cydlyniant cymunedol drwy ragor o gyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd i bobl sydd mewn tlodi.

121. Ar ben y ffaith bod tlodi incwm cymharol yn dal ar ei uchaf ymysg plant, mae cysylltiad hefyd rhwng lefelau amddifadedd a chyrhaeddiad yn yr ysgol, gan ddangos perfformiad salach ar bob cyfnod allweddol ac ar bob mesur perfformiad. Ym mis Ionawr 2019, roedd 78,902 o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru. Rydym yn cynnal ein buddsoddiad ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2020-21, gan adeiladu ar y £7m ychwanegol sydd ar gael drwy'r setliad llywodraeth leol yn 2019-20.

122. Mae’r Grant Datblygu Disgyblion yn chwarae rhan hanfodol drwy gefnogi’r disgyblion hynny sy’n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Mae’n adeiladu mwy o degwch yn ein system addysg i sicrhau bod gan bob dysgwr y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial. Ers ei gyflwyno yn 2012, rydym wedi darparu mwy na £475m drwy’r Grant Datblygu Disgyblion, sydd wedi cefnogi’r hyn sy’n cyfateb i dros 530,000 o blant a phobl ifanc er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial. Er mwyn ymestyn effaith y grant hwn, rydym yn darparu £9.4m ychwanegol yn 2020-21 gan roi £101m, sy’n fwy o fuddsoddiad nag erioed o’r blaen.

123. Rydym yn dyrannu £3.2m ychwanegol yn 2020-21 ar gyfer cronfa’r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad. Mae’r cynllun hwn yn helpu teuluoedd dysgwyr sydd dan anfantais i dalu’r costau bob dydd sy’n gysylltiedig â’r ysgol. Mae modd defnyddio’r gronfa hon ar gyfer gwisg ysgol, offer, cit chwaraeon a chit ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.
Yn 2019-20, fe wnaethom roi £5m o gyllid ychwanegol i gefnogi dysgwyr cymwys mewn Dosbarthiadau Derbyn, Blynyddoedd 3, 7 a 10. Ar ben hynny, roedd yr holl blant a oedd yn derbyn gofal yn y grwpiau blwyddyn hyn wedi cael eu cefnogi am y tro cyntaf. Mae’r cyllid ychwanegol yn 2020-21 yn caniatáu i ni ymestyn y cynllun i ragor o grwpiau blwyddyn.

124. Mae plant sy’n cael y cyfle i fwyta brecwast iach a maethlon cyn dechrau’r diwrnod ysgol yn fwy tebygol o gyflawni eu potensial addysgol llawn. Ym mis Ionawr 2019, roedd 61,487 o blant oed ysgol gynradd wedi elwa ar y Cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Rydym yn buddsoddi £450k ychwanegol ar gyfer cynllun peilot clwb brecwast i ddatblygu model a fydd yn golygu bod modd darparu brecwast iach a maethlon, yn rhad ac am ddim, i ddisgyblion ysgolion uwchradd sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, cyn dechrau ar eu diwrnod ysgol neu yn ystod egwyl y bore.

125. Rydym yn dyrannu £1.8m o gyllid ychwanegol yn 2020-21 i’r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau’r Ysgol, sy’n darparu cyfleoedd i blant 7-11 oed fod yn fwy egnïol, bwyta’n iach a gwneud ffrindiau, ar yr un pryd â manteisio i’r eithaf ar gyfleusterau ysgolion lleol mewn ardaloedd difreintiedig yn ystod gwyliau’r haf. Yn ystod yr haf eleni, cafodd dros 3,700 o lefydd eu cynnig i ddisgyblion mewn 77 o gynlluniau ar draws 21 awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd cynyddu cyfanswm ein buddsoddiad ar gyfer 2020-21 i £2.7m yn golygu ein bod yn gallu ymestyn y rhaglen i hyd at 7,600 o blant eraill ar draws pob awdurdod lleol.

126. Rydym yn cynyddu’r cyllid o £100k yn 2019-20 i £1m yn 2020-21 i ehangu’r Cynllun Peilot Llwgu dros y Gwyliau, sy’n galluogi lleoliadau chwarae a chymunedol i ehangu neu i wella’r ddarpariaeth o fwyd neu lefydd i blant a phobl ifanc. Gan dargedu’r ardaloedd lle ceir lefelau uchel o amddifadedd a’r risg o lwgu dros y gwyliau, nod y cyllid hwn yw cefnogi’r rhaglen i gyrraedd 10,000 o blant ar draws 200 o gynlluniau chwarae.

127. Mae gan dlodi oblygiadau tymor hir ar gyfleoedd plant mewn bywyd a’u hiechyd pan fyddant yn oedolion. Dros dymor y Cynulliad hwn, rydym wedi

mwy na dyblu Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar. Byddwn yn cynyddu'r cyllid hwn gan fuddsoddi £6.6m ychwanegol yn 2020-21, a chodi'r grant £450 er mwyn i'r holl ddysgwyr ddod i lefel grant fesul disgybl o £1,150.

128. Mae llai o gartrefi yn byw mewn tlodi tanwydd o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl wrth i'n cartrefi ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon. Rydym hefyd yn ymateb i'r risg na fydd effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo i'r un graddau, gan gynnwys costau ynni cartref. Yn y Gyllideb hon, rydym yn ymrwymo £36m, gan gynnwys £8m o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd, i gyllido mesurau defnyddio ynni'n effeithlon ar gyfer 25,000 o aelwydydd drwy gynlluniau Nyth ac Arbed. Ers 2010, rydym wedi buddsoddi dros £240m drwy'r rhaglen hon, sydd wedi gwella effeithlonrwydd ynni dros 55,000 o gartrefi yng Nghymru. Amcangyfrifir bod hyn wedi arbed £400 y flwyddyn ar gyfartaledd i bobl ar eu biliau tanwydd domestig. Er mwyn cynyddu'r buddsoddiad cyfredol, rydym wedi dyrannu £400k yn 2020-21 i ddarparu cyngor ar ynni yn y cartref a chyngor ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd i gartrefi sydd ag incwm isel.

129. Rydym yn darparu £1m ychwanegol mewn cyfalaf trafodiadau ariannol yn 2020-21 i Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae adeiladau sy'n eiddo i'r gymuned yn rhoi cyfleoedd i gymdeithasu ac i wirfoddoli, sy'n helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig. Maent yn helpu i feithrin cadernid mewn cymunedau drwy ddarparu mynediad at wasanaethau cyhoeddus ac addysg. Maent hefyd yn darparu cefnogaeth benodol sy'n amrywio o fanciau bwyd a chyngor ar ddyledion a budd-daliadau i ddosbarthiadau ymarfer corff a grwpiau colli pwysau.

## Cyflogadwyedd a sgiliau

130. Mae perthynas amlwg rhwng twf economaidd, swyddi a mynd i'r afael â thlodi. Mae cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy sy'n talu'n dda yn rhoi llwybr allan o dlodi a diogelwch yn erbyn tlodi, nid yn unig i'r unigolyn, ond i'w dibynyddion ac i'r gymuned drwyddi draw.

131. Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £175m mewn Cyflogadwyedd a Sgiliau ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn. Mae ein Cynllun Cyflogadwyedd yn helpu pobl i gael gwaith, ar yr un pryd â chefnogi cyflogwyr i greu gweithleoedd tecach ac iachach sy'n gwella sgiliau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Bydd ein buddsoddiad parhaus yn cefnogi'r Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith sydd wedi helpu 4,200 o bobl i aros mewn gwaith, neu ddychwelyd i waith, drwy gynnig cymorth gyda chyflyrau cyhyrysgerbydol a/neu iechyd meddwl.

132. Mae arfogi pobl â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i aros mewn cyflogaeth yn allweddol i leihau lefelau tlodi ac i ddiwallu newidiadau yn anghenion ein heconomi. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen prentisiaethau flaengar er mwyn darparu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel ar gyfer pobl o bob oed dros dymor y Cynulliad hwn. Rydym yn dyrannu £9m yn 2020-21 i gynnal proffil y gwariant rhwng cyllid yr UE a'n cyllid ni er mwyn cyflawni ein hymrwymiad. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm ein buddsoddiad eleni dros £97m.

133. Yn 2019-20, dyrannwyd £3.2m ychwanegol i gefnogi datblygu sgiliau gweithgynhyrchwyr modurol ac awyrofod allweddol. Rydym yn darparu £1.6m ychwanegol yn 2020-21 i barhau â'n hymrwymiad i gefnogi'r gweithgynhyrchwyr hyn er mwyn ymateb i ansicrwydd Brexit, drwy ddatblygu sgiliau eu staff yng Nghymru mewn sectorau sy'n cynnig swyddi sy'n fwy sicr ac sy'n talu'n dda.

134. Rydym yn dyrannu dros £40m i'r cynllun Cefnogaeth Swyddi Cymru yn 2020-21, a fydd yn darparu ffordd newydd o ddarparu cefnogaeth cyflogadwyedd a sgiliau o fis Ebrill 2020 ymlaen, i gefnogi oddeutu 16,000 o bobl y flwyddyn er mwyn diwallu'r hyn sydd ei angen ar unigolion i gael cyflogaeth beth bynnag fo'u rhwystrau. O'r rhain, mae disgwyl i dros 9,000 o gyfranogwyr gyflawni canlyniadau cadarnhaol, gydag oddeutu 80 y cant yn cael gwaith ar ôl cwblhau'r rhaglen.

135. Rydym hefyd yn dyrannu £9.1m yn 2020-21 i Cymru'n Gweithio sy'n rhoi un pwynt mynediad cenedlaethol, sy'n annibynnol ar ddarparu'r gefnogaeth, gyda chynghorwyr gyrfa cymwysedig i sicrhau bod unigolion yn cael eu cyfeirio i'r lle iawn ar yr adeg iawn, yn ôl eu hanghenion a'u rhwystrau i gyflogaeth. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cefnogi 42,000 o unigolion y flwyddyn. Ddiwedd mis Hydref 2019, roedd Gyrfa Cymru wedi gweld dros 20,000 o gleientiaid unigryw ac roedd dros 17,000 o'r rheini wedi cael eu hatgyfeirio at ragor o gefnogaeth.

136. Mae angen cynyddu lefelau cyflogaeth pobl anabl er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch swyddi anabledd gan fod lefelau tlodi pobl anabl yng Nghymru yn dal yn rhy uchel. Bydd £275k o gyllid yn 2020-21 ar gyfer Pencampwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn ein galluogi i weithredu i newid agweddau cyflogwyr, lleihau'r stigma a chefnogi cyflogwyr yn well i recriwtio ac i gadw pobl anabl.

137. Cafodd fframwaith newydd Llywodraeth Cymru *Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol* ei lansio ym mis Medi 2019. Rydym yn darparu £225k yn 2020-21 i fwrw ymlaen â'r gweithredu dan y fframwaith hwn i sicrhau bod gennym gynllun gwobrau anabledd yng Nghymru sydd wedi'i deilwra ar gyfer y dirwedd cyflogwyr yng Nghymru a'i fod yn gwireddu ein huchelgais i gynyddu nifer y bobl anabl mewn gwaith.

138. Bydd dros £1.6m yn cael ei fuddsoddi yng Nghronfa Ddysgu Undebau Cymru yn 2020-21 i hyrwyddo ac i gefnogi dysgu yn y gweithle. Bydd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr agenda sgiliau a thlodi drwy gefnogi a hybu datblygu sgiliau fel llwybr i symud ymlaen mewn gwaith a helpu i oresgyn rhwystrau i ddysgu. Yn ystod 2018-19 yn unig, roedd Cynrychiolwyr Dysgu'r Undebau Llafur wedi helpu 7,088 o bobl i ddysgu.

139. Yn gynharach eleni, roeddem wedi lansio cynllun peilot ein rhaglen Cyfrif Dysgu Personol a gefnogir gan £2m o fuddsoddiad y flwyddyn dros ddwy flynedd. Bydd y cynllun peilot yn cynnig hyfforddiant galwedigaethol i bobl sydd wedi'u cyflogi i'w cefnogi i symud i sectorau lle ceir prinder amlwg o

sgiliau. Rydym yn gwybod am effeithiau rhywedd yn sectorau blaenoriaeth y cynllun peilot, felly fel rhan o'r gwaith hwn rydym yn asesu sut gallai dull cyllidebu ar sail rhyw helpu i adnabod ac i ddeall effeithiau gwahanol posibl, gan gynnwys effeithiau anfwriadol, er mwyn gwella sut rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu adnoddau.

## Buddsoddi mewn economi gynaliadwy

140. Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ydy'r polisi arweiniol a'r ddogfen strategaeth ar gyfer ein holl weithgareddau ar draws yr economi. Wrth galon y Cynllun ceir dau nod sef lleihau anghydraddoldeb a lledaenu ffyniant. Mae'r rhain yn cael eu hymgorffori yn y contract economaidd a ffordd o ddatblygu'r economi sy'n seiliedig ar lefydd. Mae'n cydnabod amrywiadau rhanbarthol mewn llesiant a chyfoeth ac yn cydnabod bod gan wahanol rannau o Gymru gyfleoedd a heriau gwahanol.

141. Ers lansio Cronfa Dyfodol yr Economi ym mis Mai 2018 mae 155 o brosiectau wedi derbyn cynigion. Yn 2020-21, rydym yn darparu £20.8m o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm ein buddsoddiad yn £45m er mwyn darparu cymorth ariannol i fusnesau ledled Cymru, yn unol â'n nodau o sicrhau canlyniadau sy'n fwy teg a chyfartal, a darparu cymorth i fusnesau sydd eisoes ar waith y mae Brexit yn effeithio arnynt. Bydd y cyllid hwn yn cynnwys ffocws ar gefnogi ardaloedd sydd â llawer o amddifadedd, ardaloedd lle mae llawer o swyddi crefftus iawn wedi cael eu colli'n ddiweddar mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd lle mae effeithiau cymdeithasol a diwylliannol yn achos dros ymyrryd.

142. Rydym yn buddsoddi £5m o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn 2020-21 ar gyfer y Gronfa Ad-daladwy ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig, gyda'r nod o gynyddu a diogelu cyflogaeth yn economi Cymru, yn enwedig yr ardaloedd a gynorthwyir lle ceir ardaloedd sydd â llawer o ddiweithdra ac amddifadedd cysylltiedig. Rydym hefyd yn dyrannu £20m o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn 2020-21 i gefnogi datblygiad BBaCh i helpu i greu ac i annog busnesau i aros ac i dyfu yng Nghymru.

143. Mae'r prinder safleoedd ac eiddo sy'n barod am fuddsoddiad wedi cael ei godi fel mater allweddol ledled Cymru. Rydym yn dyrannu £14m o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol yn 2020-21 ar gyfer Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol a fydd yn cefnogi'r gwaith o greu cyfleoedd cyflogaeth leol i helpu i drechu tlodi ac amddifadedd.

144. Gyda chefnogaeth cyllideb o £11m mae Busnes Cymru yn parhau i chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi busnesau ac entrepreneuriaid, gan gynnwys cefnogi gweithgareddau Brexit ledled Cymru. Mae Busnes Cymru wedi cynghori dros 30,000 o entrepreneuriaid a busnesau unigol, wedi helpu i sefydlu dros 4,000 o fentrau newydd ac wedi cefnogi busnesau i greu dros 18,000 o swyddi newydd.

145. Yn 2020-21 rydym yn parhau i ddarparu £125m i gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint gyda'u biliau ardrethi annomestig, drwy ein cynllun parhaol

Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a’r Cynllun Rhyddhad Ardrethi’r Stryd Fawr ac Adwerthu. Mae dros 70,000 o drethdalwyr yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig ac nid ydy hanner yr holl fusnesau’n talu unrhyw ardrethi o gwbl.

## Seilwaith modern a chysylltiedig

146. Mae seilwaith trafnidiaeth a digidol yn hollbwysig er mwyn cysylltu pobl a chymunedau ac er mwyn rhoi mynediad at gyflogaeth, ei gwneud hi’n haws i fusnesau gysylltu â’i gilydd a chefnogi cynhyrchiant a thwf. Rydym hefyd yn cydnabod y cyswllt pwysig rhwng seilwaith a’r effaith ar ein hamgylchedd. Ochr yn ochr yn ochr â’n buddsoddiad mewn teithio cynaliadwy, mae cyfanswm ein buddsoddiadau mewn seilwaith digidol, ffyrdd, rheilffyrdd, hedfan a môr dros £700m yn 2020-21.

147. Derbynnir yn gyffredinol bod rhai grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i gael gafael ar swyddi a gwasanaethau oherwydd oed, tlodi, iechyd neu oherwydd eu bod yn anabl. Dylai gwella argaeledd, diogelwch a chost trafnidiaeth gyhoeddus a mynediad iddi chwarae rhan allweddol yn y tymor hir o ran lleihau anfanteision i grwpiau gwarchodedig.

148. Ein nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus drwy annog teithwyr i newid o ddefnyddio ceir preifat, gan leihau tagfeydd, allyriadau carbon a gwella ansawdd yr aer a pherfformiad economaidd. Mae ein hymrwymiadau rheilffyrdd yn cael eu cefnogi gan £206m o fuddsoddiad cyfalaf yn 2020-21. Rydym yn dyrannu £20m yn ychwanegol ar gyfer Metro Gogledd Cymru er mwyn datblygu ein gweledigaeth ar gyfer teithio integredig. Rydym hefyd yn dyrannu £15m ychwanegol a fydd yn golygu bod cyfanswm y cyllid refeniw yn £185m yn 2020-21 er mwyn cefnogi cyflawni’r fasnachfraint rheilffyrdd. Bydd gwasanaethau gwell gyda mwy o gapasiti yn adeiladu ar y niferoedd cynyddol o siwrneiau rheilffyrdd a gofnodwyd yn 2017-18 a oedd wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed.

149. Yn ogystal â buddsoddi mewn mathau newydd o drafnidiaeth, mae hefyd angen i ni fodloni ein rhwymedigaethau statudol i gynnal ein hasedau ffyrdd presennol er mwyn i bobl a nwyddau allu symud yn ddiogel, atal y risg o ddamweiniau, gwella cysylltedd a mynediad at addysg, sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r gyllideb cynnal a chadw o dros £150m yn cynnwys £15m ychwanegol yn 2020-21.

150. Er bod seilwaith ffyrdd yn hanfodol, rydym yn cydnabod effeithiau amgylcheddol hynny. Rydym yn gweithio ar leihau allyriadau mewn lleoliadau allweddol ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd yn ogystal â chyflwyno’r hanfodion hyn ar draws y rhwydwaith. Rydym hefyd yn sicrhau bod ein hymyriadau wedi cael eu dylunio i leihau allyriadau carbon a cherbydau.

151. Rydym hefyd yn darparu £4.8m o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn 2020-21 ar gyfer Maes Awyr Caerdydd fel porth rhyngwladol. Bydd hyn yn meithrin cyfleoedd busnes masnachol a thwristiaeth gyda’r byd. Byddwn yn parhau i

weithio gyda Maes Awyr Caerdydd i gefnogi ei genhadaeth i leihau ei allyriadau carbon 53 y cant ers 2015/16.

152. Mae tystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod gan gysylltedd cyflym iawn effeithiau cymdeithasol cadarnhaol ar lesiant, ei fod o fudd i'r rheini sydd wedi'u hynysu mewn cymunedau gwledig, a phobl ifanc sydd ag angen mynediad ar gyfer addysg ac i gynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol. Ochr yn ochr â'r effeithiau amgylcheddol cadarnhaol sy'n gysylltiedig â llai o allyriadau carbon oherwydd mwy o deleweithio a llai o gymudo. Rydym yn cynnal ein buddsoddiad arfaethedig o £43.5m dros ddwy flynedd (£17.5m yn 2019-20 a £26m yn 2020-21) i ymestyn y rhaglen Cyflymu Cymru i sicrhau band eang dibynadwy a chyflym i'r rhannau hynny o'r wlad nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y farchnad ar hyn o bryd. Bydd y prosiect olynol yn cysylltu 26,000 eiddo arall a fydd yn cynnwys eiddo busnes a phreswyl.

## Hyrwyddo ein lle yn y byd

153. Mae twristiaeth, diwylliant, chwaraeon ac iaith yn cyfrannu at ganlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i bobl yng Nghymru, gan gynnwys iechyd meddwl a chorfforol a chydlyniant cymunedol. Mae dros 11,500 o fusnesau'n helpu i ddod â bron i 11 miliwn o ymwelwyr dros nos i Gymru a £6.3bn bob blwyddyn. Mae'r economi ymwelwyr yn ffactor allweddol i ysgogi cyfoeth a chyfleoedd yng Nghymru. Mae'r sector yn cyflogi tua 9 y cant o gyflogaeth yng Nghymru gydag effaith benodol ar ardaloedd gwledig ac mae'r sector yn un o gyflogwyr mwyaf pobl ag anableddau.

154. Yn ystod 2018 roedd 941,000 o dripiau yng Nghymru gan ymwelwyr rhyngwladol a gwariant o £405m. Er mwyn cyflawni ein huchelgais ar gyfer Cymru yn y byd rydym yn darparu £7.3m o gyllid ychwanegol at gyllideb sydd bron yn £15m yn 2020-21 i gefnogi datblygu ein Strategaeth Ryngwladol newydd sy'n ceisio codi ein proffil yn rhyngwladol; tyfu'r economi drwy allforio a mewnfuddsoddi, ac arddangos Cymru fel gwlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Rydym yn dyrannu £1.2m ychwanegol o Gyllid Pontio'r UE yn 2020-21 i gefnogi allforio, masnach a mewnfuddsoddi.

155. Roedd ein hastudiaeth ein hunain ar gelfyddydau ac iechyd yng Nghymru wedi dod o hyd i dros 200 o brosiectau sy'n effeithiol o ran atal salwch, helpu i gadw iechyd meddwl a chorfforol da a helpu pobl i wella. Mae mynediad am ddim i weithgareddau diwylliannol wedi golygu bod ffigyrau ymweliadau'r Amgueddfeydd Cenedlaethol wedi cyrraedd bron i 1.9 miliwn yn 2018-19, ac roedd dros 208,000 o bobl ifanc wedi cael cyfleoedd i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

156. Er mwyn cefnogi rôl bwysig gweithgareddau diwylliannol yng Nghymru, rydym yn dyrannu dros £70m yn 2020-21 i gefnogi Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rydym yn cynnal cyllideb Cadw sef £16.6m yn 2020-21 i ddiogelu ac i ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol ac i hyrwyddo ac i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol. Rydym hefyd yn dyrannu £5m o gyllid cyfalaf yn 2020-21 i gefnogi sefydlu Cymru Greadigol.

157. Rydym yn dyrannu £16m ychwanegol o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn 2020-21 i gefnogi cyflawni prosiectau twristiaeth strategol. Rydym hefyd yn cynnal cyllideb refeniw Croeso Cymru sef £13.2m i arwain y buddsoddiad mewn seilwaith a digwyddiadau twristiaeth i gefnogi'r economi ymwelwyr a marchnata Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol fel lle i ymweld, gweithio a buddsoddi.

158. Mae data arolwg ers y Cyfrifiad wedi awgrymu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl, er nad yw'r ganran sy'n siarad Cymraeg bob dydd wedi cynyddu, a dywedir mai plant yw'r mwyaf tebygol o siarad Cymraeg. I gefnogi ein huchelgais yn *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg* rydym yn cynnal cyllideb yr iaith Gymraeg, sef £20.9m yn 2020-21. Mae'r dyraniad i Gomisiynydd y Gymraeg £50k yn uwch hefyd, sy'n golygu bod cyfanswm y gyllideb yn £3.2m yn 2020-21.

## Cymru sy'n fwy gwyrdd

159. Ym mis Mai eleni fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd er mwyn ysgogi gweithredu ar frys gan y sector cyhoeddus, busnesau a chymunedau yng Nghymru. Cafodd yr alwad hon ei chefnogi'n ddiweddarach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n golygu mai ein senedd ni oedd y gyntaf yn y byd i wneud datganiad o'r fath. Yn dilyn hynny, cawsom gyngor gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, ein cynghorydd statudol ar newid yn yr hinsawdd, sydd wedi rhoi gwybod y bydd yn rhaid i allyriadau yng Nghymru gael eu lleihau 95 y cant erbyn 2050 o'u cymharu â lefelau 1990 er mwyn i'r DU gyrraedd lefel sero net ar gyfer allyriadau. Er ein bod wedi derbyn eu hargymhelliad ac wedi cytuno i gynnwys targedau uwch yn y gyfraith, rydym wedi gofyn iddynt ddarparu rhagor o fanylion ynghylch sut y gall Cymru sicrhau gostyngiadau cyflymach a mwy cyflawn mewn allyriadau er mwyn inni allu lleihau'r niwed cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n digwydd yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

160. Y Gyllideb hon yw'r gyntaf i ni ei chyhoeddi ers y datganiad argyfwng hinsawdd, gan adeiladu ar ymrwymiad y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i wneud y mwyaf o'n dulliau cyllidebu i gefnogi Cymru sy'n fwy gwyrdd. Mae'n cynnwys £95.6m ychwanegol ar gyfer mesurau datgarboneiddio yn 2020-21 fel rhan o fuddsoddiad gwyrdd ehangach ychwanegol o dros £140m, gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

161. Mae'r buddsoddiad sylweddol newydd hwn yn mynd law yn llaw â'n buddsoddiadau ehangach sydd eisoes yn cyflawni yn unol â'n *Cynllun Cyflawni Carbon Isel*, gan gynnwys ein buddsoddiadau parhaus i ymateb i'r risg na fydd pawb yn teimlo effeithiau newid yn yr hinsawdd i'r un graddau, gan gynnwys costau ynni cartref, gyda'n rhaglen Cartrefi Clyd wedi buddsoddi dros £240m ers 2010. Er mwyn cyflawni ein huchelgais rydym yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i Gyfoeth Naturiol Cymru gan roi cyfanswm sydd dros £60m yn 2020-21.

162. Daw'r risg ffisegol fwyaf o'n cymunedau o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd drwy fwy o stormydd dwys, llifogydd ac erydu arfordirol, sef pethau rydym eisoes yn eu gweld. Yn y Gyllideb hon rydym yn ymrwymo £64m yn 2020-21 i amddiffyn ein cymunedau o effeithiau mwyaf difrifol ac uniongyrchol newid yn yr hinsawdd.

## Dull o gefnogi datgarboneiddio

163. Mae'r pecyn o fesurau yn y Gyllideb hon yn fuddsoddiadau ac mae tystiolaeth gyfredol yn cefnogi mai dyma'r meysydd lle gall Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf er mwyn cyflawni ein cyllideb garbon gyntaf; ac i ddatblygu camau gweithredu ar gyfer ein hail gyllideb garbon, gan ystyried yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys lleihau ôl troed carbon Llywodraeth Cymru yn ogystal â hwyluso datgarboneiddio ehangach gan ganolbwyntio ar yr economi.

164. Mae hi hefyd yn bwysig ystyried maint gwariant Llywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio, a'i chyfraniad tuag at gyflawni sero net yn y cyd-destun ehangach. Mae datgarboneiddio ein heconomi yn golygu mwy na dim ond buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru. Mae ein corff cynghori annibynnol, Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, yn cydnabod mai'r prif sbardunwyr i gyflawni economi rhad-ar-garbon fydd system effeithiol o brisio carbon a newidiadau rheoleiddio ategol (er enghraifft y cyfyngiad ar werthu cerbydau ffordd sy'n defnyddio tanwydd ffosil), mae elfennau mawr o hyn o fewn cymhwysedd Llywodraeth y DU ac nid ydynt wedi cael eu datganoli i Gymru.

165. Felly mae effaith ariannol gweithredu newid o'r fath o ran prisiau a rheoliadau yn debygol o gyffwrdd busnesau ar draws y DU, yn hytrach na gwariant cyhoeddus uniongyrchol, a bydd dosbarthiad y costau hefyd yn dibynnu ar sut caiff y costau hynny eu pasio ymlaen i bobl.

166. Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd wedi dynodi bod datgarboneiddio trafnidiaeth ffyrdd yn hanfodol er mwyn cyrraedd targed sero net. Dyma pam mae £62.4m o'r pecyn cyfalaf yn 2020-21 wedi'i anelu'n uniongyrchol at y sector trafnidiaeth.

167. Mae hyn yn cynnwys y £1m ychwanegol rydym yn ei ddarparu yn 2020-21 i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu rhaglen i ddisodli cerbydau disel cywasgu sbwriel gyda cherbydau sydd ag allyriadau isel iawn. Mae tua 180 o gerbydau disel ar waith, bydd eu newid yn arbed tua 4,000 tunnell o allyriadau carbon deuocsid bob blwyddyn.

168. Mae mesurau eraill i fynd i'r afael â heriau datgarboneiddio sy'n wynebu cludiant ar y ffyrdd yn cynnwys:

- Buddsoddi £25m mewn coridorau bws cadarn, a seilwaith teithio llesol. Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd yn cydnabod bod datgarboneiddio trafnidiaeth dros y tymor hwy yn galw am ffocws mawr ar ddatgarboneiddio cerbydau preifat yn llawn, gan gynnwys ceir. Fodd bynnag, mae dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o becyn

ehangach o fesurau yn allweddol i annog pobl i newid i ddulliau sy’n fwy cynaliadwy dros y tymor byr. Gall teithio ar fysiau ddim ond cystadlu â theithio mewn ceir os oes buddsoddiad mewn coridorau bws o safon uchel gyda lonydd a hidlyddion bws penodol, llochesau da a bod gwybodaeth amser real yn cael ei darparu. Yn yr un modd, bydd rhwydwaith cadarn a chynaliadwy o goridorau bws, cerdded a beicio yn galw am rwydwaith cydgysylltiedig lle gall pobl symud yn hawdd rhwng dulliau cynaliadwy o deithio.

- £29m ychwanegol i gefnogi prynu fflyd bysiau newydd ag allyriadau isel, yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith gwefru trydan ledled Cymru. Nid yn unig y bydd hyn yn effeithio’n uniongyrchol ar allyriadau carbon, ond mae hefyd yn cyd-fynd â’n dull o sicrhau bod datgarboneiddio trafnidiaeth ar gael i bawb, nid dim ond y rheini sy’n gallu fforddio car trydan.
- £7.9m ychwanegol i gefnogi gweithredu mesurau ansawdd aer yng Nghaerdydd a Chaerffili. Mae'r mesurau hyn wedi cael eu hanelu at leihau’r allyriadau nitrogen deuocsid ar fyrder, ond byddant hefyd yn effeithio’n gadarnhaol ar leihau allyriadau carbon. Er y bydd rhai o’r camau hyn yn galw am ddewisiadau anodd, mae cyfleoedd hefyd i gyflwyno technoleg lleihau allyriadau i fysiau, mesurau lliniaru tacsis, a mesurau trafnidiaeth a theithio llesol yng nghanol dinasoedd.

169. Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd hefyd wedi nodi bod tai a gwres domestig yn faes pwysig sydd angen sylw. Mae’r Gyllideb hon yn rhoi £25m ychwanegol yn ein Rhaglen Tai Arloesol. Mae tystiolaeth a ddaeth o ragflaenydd y rhaglen yn awgrymu bod dulliau modiwlaidd a modern eraill o adeiladu cartrefi yn gallu llwyddo i gyflenwi cartrefi sydd bron yn ddi-garbon. Bydd cynyddu nifer y cartrefi sy’n cael eu hadeiladu fel hyn yn dechrau lleihau costau cynhyrchu cartrefi di-garbon, (sydd yn ddrutach nag adeiladu gyda brics a blociau traddodiadol ar hyn o bryd) gan sicrhau bod y rhaglen yn gallu cyflenwi rhagor o gartrefi yn y dyfodol.

170. Rydym hefyd yn ymateb i’r risg na fydd effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo i’r un graddau, gan gynnwys costau ynni cartref. Yn y Gyllideb hon, rydym yn ymrwymo £36m, gan gynnwys £8m o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd, i gyllido mesurau defnyddio ynni'n effeithlon ar gyfer 25,000 o aelwydydd drwy gynlluniau Nyth ac Arbed. Ers 2010 rydym wedi buddsoddi dros £240m drwy’r rhaglen hon, gan helpu i godi degau o filoedd o aelwydydd incwm isel o dlodi tanwydd. Er mwyn cynyddu’r buddsoddiad hwn, rydym wedi dyrannu £400k yn 2020-21 i ddarparu cyngor ar ynni yn y cartref a chyngor ar fynd i’r afael â thlodi tanwydd i gartrefi sydd ag incwm isel. Bydd hyn yn blaenoriaethu’r rheini sydd â’r angen mwyaf sy’n byw gyda chyflyrau cylchrediad ac anadlu, gydag ymchwil yn dangos bod ein gwaith yn lleihau’r galw ar y GIG drwy ddiogelu unigolion agored i niwed rhag amodau tamp ac oer.

171. Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd wedi dynodi bod angen i ni fynd i’r afael â’r prinder sgiliau angenrheidiol os ydym am gyrraedd ein targedau. Rydym yn dyrannu £8.2m yn ychwanegol o gyllid cyfalaf ar gyfer prosiect

cartref Carbon niwtral yng Ngholeg y Cymoedd, sydd wedi'i ddylunio i ddarparu cyfleuster addysg a hyfforddi o'r radd flaenaf.

172. Wrth asesu gwariant, rydym hefyd wedi ystyried manteision ehangach buddsoddiadau sy'n mynd ymhellach na dim ond datgarboneiddio, sydd yn aml yn gallu bod yn fantais eilaidd yn hytrach nag yn unig ddiben. Er enghraifft, mae effaith ddatgarboneiddio teithio llesol yn dibynnu i raddau mawr ar newid moddol cyffredinol o gludiant ar y ffordd. Fodd bynnag, mae hyrwyddo teithio llesol, a darparu seilwaith teithio llesol hefyd yn caniatáu ar gyfer cyflwyno manteision iechyd ehangach.

173. Mewn nifer o achosion nid yw'n broses syml asesu cyfraniad uniongyrchol gwariant penodol i ddatgarboneiddio. Er enghraifft, fel rhan o'r Gyllideb hon, rydym yn buddsoddi mewn datblygu'r seilwaith pweru cerbydau trydan yng Nghymru. Bydd cysylltiad agos rhwng effaith y buddsoddiad yma a'r nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan yn fwy cyffredinol, sydd maes o law yn ddibynnol ar ddewisiadau rheoleiddio Llywodraeth y DU o ran cyfyngu ar gerbydau petrol a disel traddodiadol.

174. Yn dilyn cyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, rydym wedi cynyddu ein llwybr tymor hir i ymateb i argyfwng hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i osod targed lleihau allyriadau uwch o 95 y cant o leiaf yn y gyfraith. Mae hyn yn golygu y bydd ein llwybr yn newid a bydd ein cynlluniau cyflawni i gyflawni ein cyllidebau carbon yn gorfod adlewyrchu ein huchelgais newydd.

175. Y flwyddyn nesaf byddwn yn derbyn rhagor o gyngor ac argymhellion sy'n benodol i Gymru gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, gan gynnwys argymhellion am newid ein llwybr drwy ein targedau ar gyfer 2030 a 2040 a'n hail gyllideb garbon. Byddwn hefyd yn derbyn adroddiad cynnydd ar ein cyllideb garbon gyntaf, a bydd Trysorlys EM yn cynnal adolygiad o sut byddai'r newid i sero-net yn cael ei gyllido a lle byddai'r costau yn disgyn. Mae'r rhain i gyd yn ddarnau pwysig o dystiolaeth y bydd angen i ni eu hadolygu wrth ddatblygu camau gweithredu yn y dyfodol.

176. Fel yr amlinellir uchod, mae gwariant cyhoeddus uniongyrchol yn ddim ond un o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r argyfwng hinsawdd. Mae ein cynllun cyflawni carbon isel *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel* yn nodi sut bydd Cymru yn ceisio cyflawni'r gyllideb garbon gyntaf (2016-2020) ac wedyn targed interim 2020 drwy 100 o bolisïau a chynigion ar draws portffolios Gweinidogol.

177. Mae *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd*, a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn, yn ymateb i'r meysydd risg y mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd wedi'u hamlygu fel rhai sydd 'angen rhagor o gamau gweithredu ar frys' ac mae'n cynnwys camau gweithredu yn y tymor byr, canolig a mwy mewn nifer o feysydd allweddol.

178. Nid yw'r holl gamau gweithredu yn y cynllun yn ymwneud â gwariant, mae rhai yn ymwneud â gosod ein cyfeiriad polisi, a rhoi eglurder a sicrwydd. Er

enghraifft, cynhyrchu pŵer yw ein sector allyriadau mwyaf. Byddwn yn defnyddio llai o danwydd ffosil i gynhyrchu pŵer drwy weithredu polisi fel rhoi'r gorau'n raddol i lo heb systemau rheoli carbon, datblygu polisi cynllunio ac edrych ar ymyriadau polisi newydd.

179. Drwy ddatblygu ein Cynllun Gwella'r Gyllideb, byddwn yn parhau i edrych ar sut gallwn edrych yn fwy cadarn ar asesu effaith carbon ein rhaglenni gwario. Bydd hyn yn ystyried effaith gynyddol gwariant Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r effaith ehangach y mae gweithredu polisi yn ei chael ar allyriadau carbon.

## Bioamrywiaeth

180. Mae ein heconomi, ein hiechyd a'n lles yn dibynnu ar ecosystemau iach a chadarn. Maent yn rhoi ein bwyd, ein dŵr glân a'r aer rydym yn ei anadlu, a'r deunyddiau crai a'r ynni ar gyfer ein diwydiannau ac maent yn ein diogelu rhag peryglon fel llifogydd a newid yn yr hinsawdd. Er bod tystiolaeth o rai tueddiadau cadarnhaol yng nghyswllt mawndiroedd, priddoedd a rhywogaethau yng Nghymru, at ei gilydd, mae amrywiaeth biolegol yn dirywio.

181. Mewn ymateb rydym yn cyflawni ein huchelgais i greu Coedwig Genedlaethol a fydd yn ymestyn ar hyd Cymru, gan fuddsoddi £4.5m o gyfalaf yn 2020-21 i ddechrau rhaglen i wella cyflwr a chysylltedd ein coetiroedd hynafol a chyflymu'r gyfradd plannu coed. Mae diwallu heriau argyfwng hinsawdd yn agenda ryngwladol ac rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb a'n rôl ar lefel fyd-eang i gefnogi cymunedau eraill ar draws y byd. Ynghyd â'n hymrwymiad i blannu coed yn Uganda (gyda buddsoddiad o £500k a gaiff ei gefnogi yn 2020-21), bydd y buddsoddiad hwn yn cyfrannu at ein nodau datgarboneiddio ond hefyd yn cefnogi newid y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bydd y Goedwig Genedlaethol hefyd yn cynnig cyfleoedd twristiaeth ac yn helpu cymunedau lleol i gysylltu'n well â'u hamgylchedd naturiol.

182. Mae cynefinoedd tiriogaethol Cymru'n cynnal cyfoeth o fflora a ffawna ac yn cynnwys nifer o rywogaethau a geir ym Mhrydain a rhywogaethau sy'n unigryw i Gymru. Rydym yn dyrannu £15m ychwanegol yn 2020-21 yn ein Rhwydwaith Natura 2000, sy'n cynnwys y 112 o safleoedd natur pwysicaf yn ecolegol a rhai o'n cynefinoedd a'n rhywogaethau sydd dan y bygythiad mwyaf sy'n fwy na 700,000 hectar neu 7 y cant o'r arwynebedd tir yng Nghymru a 36 y cant o'r dyfroedd tiriogaethol.

183. Mae mawndiroedd yn chwarae dwy ran drwy lyncu llawer iawn o allyriadau carbon a chefnogi llawer iawn o gynefinoedd a rhywogaethau. Yn y Gyllideb hon rydym hefyd yn ymrwymo £1m o gyllid cyfalaf yn 2020-21 i gyflwyno blwyddyn gyntaf rhaglen adfer mawndiroedd genedlaethol. Nod hyn yw sicrhau bod pob ardal o fawn sy'n cynnal cynefin lled-naturiol yn cael ei rheoli'n gynaliadwy.

184. Ochr yn ochr â'r buddsoddiadau cyfalaf hyn, rydym yn dyrannu £1m o gyllid refeniw yn 2020-21 i gefnogi'r gwaith o reoli a chynnal y gweithgareddau cyfalaf hyn. Dros y flwyddyn nesaf byddwn hefyd yn treialu dull 'tasglu' i

ddarparu cyngor arbenigol i'r sector cyhoeddus ar integreiddio bioamrywiaeth yn well, a bydd hyn yn cael ei gefnogi gan £500k.

185. Mae gwelliannau i seilwaith gwyrdd yn helpu i addasu i newid yn yr hinsawdd, oeri dinasoedd a chanol trefi, a helpu i leihau'r pwysau ar ddŵr ffo dŵr wyneb a dŵr daear. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi pwysleisio mynediad at fannau gwyrdd a gwasanaethau cymunedol fel un o'r mesurau mwyaf costeffeithiol y gall y Llywodraeth eu cymryd i wella canlyniadau iechyd.

186. Rydym yn buddsoddi £5m o arian cyfalaf yn 2020-21 mewn Cronfa Twf Amgylcheddol benodol - Llefydd Lleol i Natur ac yn darparu dyraniad cyfalaf arall o £5m i sefydlu seilwaith gwyrdd a hybu bioamrywiaeth yn ein trefi a'n dinasoedd. Rydym hefyd yn ymrwymo £9.5m o gyllid cyfalaf yn 2020-21 i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr sy'n effeithio ar ein hafonydd a'n cyrff dŵr mewndirol, gan wella ansawdd ein dyfroedd ledled Cymru, gan ei gwneud yn fwy gwydn yn erbyn effaith newid yn yr hinsawdd.

187. Er mwyn cyflawni ein huchelgais rydym yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i Gyfoeth Naturiol Cymru gan roi cyfanswm sydd dros £60m yn 2020-21 i roi hwb i'w gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar dir sector cyhoeddus, rheoli mwy o lifogydd mewn ffyrdd naturiol, a buddsoddi yn y dystiolaeth i ddod o hyd i'r cyfleoedd gorau ar gyfer ehangu coetiroedd, mawndiroedd a chynefinoedd pwysig eraill.

188. Rydym hefyd yn dyrannu £498k arall i'r awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n golygu bod cyfanswm y gyllideb yn £9.9m yn 2020-21, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd diogelu a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol i iechyd a llesiant.

# Atodiad D: Gwybodaeth dechnegol

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

1. Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau cyllidebu cyfunol diwygiedig i'w gwneud yn ofynnol i drafodiadau ariannol gael eu trin ar sail net ar gyfer adrannau'r DU. O dan y newid hwn, rhaid i adrannau'r DU ragweld lefel yr incwm a disgwylir drwy fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti ac mae eu cyllideb adrannol yn cael ei lleihau yn unol â hynny. Yr eithriad i'r rheol hon yw tai, lle mae'n anodd rhagweld y proffil incwm gan ei fod yn dibynnu ar brynu tai yn hytrach nag ad-daliad benthyciad wedi'i gontractio.

2. Mewn adrannau lle ceir maes cymhwysedd datganoledig cymaradwy, byddai hyn yn arwain at gyfran Barnett o'r gostyngiad.

3. Er hynny, ni phenderfynwyd eto sut i gymhwyso'r polisi i weinyddiaethau datganoledig ac rydym yn parhau i gynllunio ar y sail bresennol o ad-dalu'r buddsoddiad i Drysorlys Ei Mawrhydi. Y drefn bresennol yw y bydd yr ad-daliad yn 80% o gyfanswm y cyllid trafodiadau ariannol a ddyrennir i adlewyrchu'r angen am rywfaint o hyblygrwydd ar lefel gweinyddiaethau datganoledig

4. Gan fod  llawer o'r cynlluniau a ariennir gan gyfalaf trafodiadau ariannol yng Nghymru'n wahanol i'r rhai a ddatblygir gan adrannau Llywodraeth y DU rydym yn parhau i weithio gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi i sicrhau nad yw newidiadau i'r driniaeth gyllidebol yn cosbi Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos lefel y cyllid trafodiadau ariannol a ddyrennir ar hyn o bryd i bob MEG, ynghyd â phroffil o'r ad-daliadau.

### Dyraniadau trafodiadau ariannol a rhagamcan o 80% o ad-daliadau a adroddwyd i Drysorlys EM Awst 2019

| | £m | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 100% | 80% | | | |
| Cyfanswm y dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant (MEGs) | Cyfan-swm y dyrani-adau | Ad-daliadau hyd at a chan gynnwys 2019-20 | Symiau sy'n daladwy o fewn 1 flwyddyn | Symiau sy'n daladwy o fewn 2 i 5 mlynedd | Symiau sy'n daladwy ar ôl 5 mlynedd |
| Tai a Llywodraeth Leol | 654.5 | 0.8 | 1.0 | 12.4 | 509.4 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 446.5 | 2.9 | 2.0 | 111.4 | 240.9 |
| Addysg | 4.5 | 0.7 | 0.1 | 0.6 | 2.2 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 16.2 | - | - | - | 13.0 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 2.4 | 0.9 | 0.2 | 0.8 | - |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0.4 | - | - | - | 0.3 |

## Cynlluniau cyllid arloesol

5. Mewn cyllidebau blaenorol rydym wedi nodi'r ystod o gynlluniau cyllid arloesol sydd wedi'u datblygu.

6. Mae cyllid heb ei neilltuo'n dal i gael ei ddosbarthu trwy'r Grant Cynnal Refeniw, ar gyfer dwy o fentrau benthyca Llywodraeth Leol – ar gyfer priffyrdd ac ysgolion. Mae cyllid hefyd yn parhau i gael ei ddyrannu ar gyfer dau gylch o fuddsoddi gan ddefnyddio'r Grant Cyllid Tai.

7. Yn 2020-21, bydd y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol (CRMP) yn sicrhau buddsoddiad yn asedau'r awdurdodau lleol ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir. Bydd y rhaglen yn gweld buddsoddiad ychwanegol o £150m dros gyfnod o dair blynedd (2019-20; 2020-21 a 2021-22) i reoli risgiau presennol a risgiau'r dyfodol yn sgil newid yn yr hinsawdd a chodiad i lefel y môr i gymunedau arfordirol ledled Cymru. Mae 24 o gynlluniau awdurdod lleol yn y rhaglen ar hyn o bryd.

8. Mae cynlluniau cyllid arloesol yn hwb hollbwysig i gyllidebau cyfalaf, gan ei gwneud yn bosibl buddsoddi tua £870m mewn seilwaith yn gynt nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae manylion y goblygiadau cyllid ar gyfer cyfnod y Gyllideb ddrafft hon wedi'u nodi yn y tabl isod.

| Cynlluniau gweithredol | Amcangyfrif o'r gwerth cyfalaf (£m) | Goblygiadau refeniw 2020-21 (£m) | Goblygiadau refeniw brig (£m) |
|---|---|---|---|
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol - Gwelliannau i Briffyrdd | 170 | 12 | 12 |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol Ysgolion – Band A Carlam | 170 | 10 | 10 |
| Grant Cyllid Tai | 130 | 4 | 4 |
| Grant Cyllid Tai 2 | 250 | 9.0 | 9.0 |
| Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd | 150 | 5.0 | 7.3 |
| Cyfanswm | 870 | 40 | 42.3 |

9. Mae tri chynllun yn cael eu datblygu gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol a lansiwyd yn 2017 - cwblhau troi'r A2017 yn ffordd ddeuol;

datblygu Canolfan Ganser arbenigol newydd Felindre, a chefnogi cymal nesaf (Band B) rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif. Buddsoddir cyllid ychwanegol o fwy na £1bn yn y cynlluniau hyn yng Nghymru, gan sicrhau bod cyfleusterau hollbwysig ar gyfer y cyhoedd ar gael yn gynt nag a fyddai wedi bod yn bosibl drwy gyllidebau cyfalaf.

10. Ym mis Gorffennaf 2018, prosiect deuoli'r A465 oedd y cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol cyntaf i gael ei dendro i'r farchnad. Ym mis Gorffennaf 2019, aed ati i gaffael Partner Cyflenwi'r Sector Preifat i gefnogi'r prosiect addysg. Ni ddechreuir talu am y cynlluniau dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol hyd nes y bydd yr asedau ar gael i'r cyhoedd. Rhagwelir y bydd yr A465 yn agor mewn camau o 2022-23.

## Atodiad E: Cynllun Gwella'r Gyllideb

1. Ar gyfer paratoadau'r Gyllideb flynyddol eleni, rydym wedi datblygu **Cynllun Gwella'r Gyllideb** sy'n amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig gan ddefnyddio nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio i yrru gwelliant parhaus.

2. Mae hwn wedi'i cyhoeddi fel atodiad ar wahân ac mae i'w weld yn:

   [https://llyw.cymru/cynllun-gwella-y-gyllideb](https://llyw.cymru/cynllun-gwella-y-gyllideb)

# Atodiad F: Costau gweithredu deddfwriaeth

## Costau gweithredu deddfwriaeth a ddeddfwyd yn 2020-21

*[Cliciwch ar deitl pob deddf i gael gwybodaeth gefndirol]*

| **Teitl Deddfau** | **Pa Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) sy'n ariannu'r costau?** | **Cyfnod gweithredu** | | **AERh Amcan o Gostau (£m)** | **Gwir gostau (£m)** | **Symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb 2020-2021 (£m)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[1] | Gwella Iechyd a Gweithio Iach | Gorffennaf 2017–Mawrth 2022 | 2017-18 | 0.23 | 0.02 | |
| | | | 2018-19 | 0.82 | 0.52 | |
| | | | 2019-20 | 0.39 | 0.22 | |
| | | | 2020-21 | 0.11 | | 0.27 |
| Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[2] | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 2016 – Ebrill 2019 | 2016-17 | 2.1 | 0.28 | |
| | | | 2017-18 | 1.8 | 1.5 | |
| | | | 2018-19 | 1.8 | 1.5 | |
| | | | 2019-20 | 1.8 | 1.5 | |
| | | | 2020-21 | 1.8 | | 1.2 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 | Cam-ddefnyddio sylweddau | 2019-20 - 2023-24 | 2019-20 | 0.25 | Disgwyl gwariant llawn | |
| | | | 2020-21 | 0.27 | | 0.27 |
| **Tai a Llywodraeth Leol** | | | | | | |
| Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016[3] | | Ionawr 2016 - Ebrill 2021 | 2016-17 | 0.14 | - | |
| | | | 2017-18 | 0.07 | - | |

1 Mae costau cyfle a nodwyd yn yr RIA wedi'u tynnu o'r ffigurau amcangyfrifedig, sydd bellach yn dangos costau yn unig lle roedd disgwyl llif arian. Mae'r costau gwirioneddol a'r swm a neilltuwyd ar gyfer 2020-21 wedi'u diweddaru ar ôl ail-broffilio yn ystod y cam gweithredu.

2 Oherwydd y mabwysiadwyd dull o weithredu fesul cam, mae'r costau i reoleiddiwr y gwasanaeth wedi'u stagro yn hytrach na 'u canolbwyntiau yn y flwyddyn gyntaf fel y dwelir yn yr AERh.

3 Oherwydd oedi i weithredu mae'r costau arfaethedig wedi eu hail-broffilio i'r flwyddyn gyfredol a blynyddoedd y dyfodol, sy'n parhau'n ddarostyngedig i newid gan fod penderfyniadau ar weithredu'n dal i fynd rhagddynt.

| Teitl Deddfau | Pa Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) sy'n ariannu'r costau? | Cyfnod gweithredu | | AERh Amcan o Gostau (£m) | Gwir gostau (£m) | Symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb 2020-2021 (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1100 Polisi Tai (cyn Tai annibynnol) | | 2018-19 | 0.04 | - | |
| | | | 2019-20 | 0.02 | - | |
| | | | 2020-21 | | | Dim cyllideb eto |
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2015[4] | 2250 Cynllunio a Rheoleiddio | 2016-2020 | 2016-17 | 0.35 | 0.04 | |
| | | | 2017-18 | 0.09 | 0.07 | |
| | | | 2018-19 | 0.08 | 0.19 | |
| | | | 2019-20 | 0.14 | 0.09 | |
| | | | 2020-21 | - | | 0.05 |
| **Economi a Thrafnidiaeth** | | | | | | |
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 | Cadw, gwarchod cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol | 2016-2021 | 2016-17 | 0.22 | 0.22 | |
| | | | 2017-18 | 0.23 | 0.18 | |
| | | | 2018-19 | 0.2 | 0.22 | |
| | | | 2019-20 | 0.2 | 0.16 | |
| | | | 2020-21 | 0.2 | | 0.2 |
| **Addysg** | | | | | | |
| Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 | 5115 Anghenion Dysgu Ychwanegol | | 2016-17 | 0.03 | 0.03 | |
| | | | 2017-18 | 0.16 | 0.12 | |
| | | | 2018-19 | 0.18 | 0.26 | |
| | | | 2019-20 | 0.35 | 0.02 (hyd yma) | |
| | | | 2020-21 | 2.54 | | 2.54 |

[4] Dangosir yr amrywiaeth mwyaf o ran costau yn 2016-17 ac mae'r AERh yn adlewyrchu cynnwys arfaethedig taliad o £120,000 o Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran costau sefydlu a chynhyrchu'r Cynllun Datblygu Strategol a gynhwyswyd hefyd fel modd o gymell Awdurdodau Cynllunio Lleol i ymgymryd â chynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol yn dilyn rhoi Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf. Gan na fynegwyd unrhyw ddiddordeb gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystod y cyfnod hwn, ni fu unrhyw gostau. Mae gwahaniaethau eraill rhwng AERh a gwir ffigurau yn adlewyrchu newidiadau yn y proffil cost dros nifer o flynyddoedd.

| Teitl Deddfau | Pa Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) sy’n ariannu’r costau? | <u>Cyfnod gweithredu</u> | | AERh Amcan o Gostau (£m) | Gwir gostau (£m) | Symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb 2020-2021 (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5511 (codi safonau) | Medi 2021-Gorffennaf 2024 | 2016-17 | - | - | |
| | | | 2017-18 | 0.27 | 0.27 | |
| | | | 2018-19 | 3.2 | 3.2 | |
| | | | 2019-20 | 3.8 | 0.28 (hyd yma) | |
| | | | 2020-21 | 3.8 | | 3.2 |

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

1. Ar draws ei hystod eang o ddarpariaethau, bydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi mesurau amddiffyn pwysig yn eu lle ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys ymestyn y gofynion di-fwg i rai mannau agored penodol, cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer gweithdrefnau arbennig yn ogystal â gwahardd rhoi twll mewn rhannau personol o gyrff unrhyw un dan 18 oed. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio mynd i'r afael â materion pwysig eraill ym maes iechyd y cyhoedd gan gynnwys gordewdra a chynllunio toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd.

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

2. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn set o ddarpariaethau sy'n darparu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ac wedi'i symleiddio ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r Deddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

- diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
- darparu fframwaith rheoleiddio sy'n galw am ddull gweithredu o ran rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau;
- diwygio'r drefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol.
- ailsefydlu ac ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru ac ehangu ei gylch gorchwyl;
- diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

3. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yn anelu at fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i ysbytai y gellid eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr peryglus a niweidiol. Mae'r Ddeddf yn darparu sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd sefydledig a phenodol ynghylch effeithiau yfed gormod o alcohol yng Nghymru.

4. Mae Deddf 2018 yn darparu ar gyfer gosod isafbris ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol yng Nghymru ac mae'n ei gwneud yn drosedd i fanwerthwyr alcohol werthu neu gyflenwi alcohol o eiddo cymwys am bris rhatach na'r pris hwnnw. Pennodd Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019 Isafbris Uned am alcohol o 50c.

## Tai a Llywodraeth Leol

### Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

5. Yr hyn sydd wrth wraidd y Ddeddf yw'r “contractau meddiannaeth” newydd'. Heblaw ychydig o eithriadau cyfyngedig, mae'r Ddeddf yn cyflwyno dau fath o gontract meddiannaeth yn lle'r holl denantiaethau a thrwyddedau presennol:
   - contract diogel - sy’n seiliedig ar y denantiaeth ddiogel a roddir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd.
   - contract safonol - sy’n seiliedig ar y denantiaeth fyrddaliol sicr a ddefnyddir yn y sector rhentu preifat yn bennaf.

6. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid roi datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth sy'n amlinellu yn eglur hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid a'r rheini sy'n rhentu oddi wrthynt. Bydd isafswm cyfnod meddiannaeth o chwe mis yn cael ei gynnal gan y Ddeddf a bydd rhaid i landlordiaid sicrhau bod yr eiddo’n addas i bobl fyw ynddo. Mae’r Ddeddf hefyd yn helpu i amddiffyn pobl rhag cael eu troi allan ddim ond am eu bod wedi cwyno am gyflwr eiddo.

7. Bydd pobl sy’n eu cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd hefyd yn cael budd o’r Ddeddf. Bydd yn helpu i atal sefyllfaoedd cyfredol o ddigartrefedd lle bydd cyd-denant yn ymadael â'r denantiaeth, gan derfynu’r denantiaeth i bawb arall. Bydd y dull newydd o ran contractau ar y cyd hefyd yn helpu dioddefwyr cam-drin domestig drwy alluogi’r unigolyn sy’n cyflawni camdriniaeth ddomestig i gael ei dargedu ar gyfer ei droi allan.

### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

8. Nod Deddf Cynllunio (Cymru) yw darparu system gynllunio sy’n gadarnhaol ei rhagolygon ac sy'n hwyluso datblygu, gan helpu i sicrhau mannau cynaliadwy sy'n cynnwys cartrefi, swyddi a seilwaith, gan gynnig cyfleoedd yr un pryd i warchod a gwella’r amgylcheddau naturiol ac adeiledig pwysicaf.

9. I gyflawni’r nod, mae’r Ddeddf:
   - yn ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau sefydliadau sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau cynllunio;
   - yn gwneud gwelliannau i’r cynllun datblygu, systemau rheoli datblygu a gorfodi er mwyn gwella perfformiad a gwireddu potensial llawn cynllunio i helpu i gyflawni dyheadau cenedlaethol, lleol a chymunedol.

## Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

### Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

10. Mae i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 dri phrif nod:

   - gwarchod adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig mewn ffordd fwy effeithiol;
   - rheoli’r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd fwy cynaliadwy;

- sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am yr amgylchedd hanesyddol yn fwy tryloyw ac atebol.

11. Mae'r Ddeddf yn diwygio dau ddarn o ddeddfwriaeth y DU — Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 — sydd ar hyn o bryd yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar wahân yn ymwneud ag enwau lleoedd hanesyddol; cofnodion yr amgylchedd hanesyddol a'r Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

## Addysg

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

12. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig cyfredol gyda system ddiwygiedig ar sail Anghenion Dysgu Ychwanegol.

13. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol cyffredinol, statudol ar gyfer yr holl blant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd hyn yn rhoi diwedd ar y gwahaniaeth presennol rhwng ymyriadau sy'n cael eu harwain gan yr ysgol a datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ac fe fydd yn integreiddio'r trefniadau deddfwriaethol ar wahân sy'n bodoli ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr ôl-16 mewn colegau. Mae'r Ddeddf hefyd yn gobeithio gwella cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â sefydlu system decach a mwy tryloyw gyda mwy o bwyslais ar osgoi anghytundeb a datrys anghydfodau.

## Atodiad F: Rhestr o dermau ariannol

| | |
|---|---|
| ***Cam Gweithredu*** | *O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.* |
| ***Cwmpasoedd*** | *Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant.* |
| ***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*** | *Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac adroddiad rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.* |
| ***Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)*** | *O fewn pob Cam Gweithredu caiff cyllidebau eu dyrannu i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn BEL. Mae tablau sy'n dangos y cyllidebau ar lefel BEL ar gael yn:* [http://gov.wales/funding/budget/?lang=cy](http://gov.wales/funding/budget/?lang=cy) |
| ***Fformiwla Barnett*** | *Y fformiwla a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc a ddyrennnir i Lywodraeth Cymru (ac i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr un newidiadau i gyllid y pen o'r boblogaeth a'r hyn a gyhoeddir yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2016, caiff ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei gymhwyso i ddyraniadau fformiwla Barnett i Gymru. Ar hyn o bryd mae hwn wedi'i osod ar bump y cant yn ychwanegol.* |
| ***Cynnig y Gyllideb*** | *Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.* |
| ***Cyfalaf*** | *Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol.* |

| | |
|---|---|
| ***Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)*** | *Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.* |
| ***Dibrisiant*** | *Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.* |
| ***Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru*** | *Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.* |
| ***Cyfalaf Trafodiadau Ariannol*** | *Mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon y gellir eu defnyddio. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys Ei Mawrhydi.* |
| ***DEL Adnoddau Ariannol*** *(arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Ariannol sy'n dangos y rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Caiff y gwariant ei gofnodi ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.* |
| ***Prif Grŵp Gwariant (MEG)*** | *Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir saith o Brif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Tai a Llywodraeth Leol; yr Economi a Thrafnidiaeth; Addysg; Ynni, yr Amgylchedd a Materion Gwledig; y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.* |
| ***DEL Adnoddau Anghyllidol*** *(arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sy'n dangos gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas ag amhariad benthyciadau myfyrwyr a dibrisiant. Mae'r DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.* |
| ***Derbyniadau*** | *Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.* |

| | |
|---|---|
| **Cyllidebu adnoddau** | *Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.* |
| **Adnoddau** (arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw' | *Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.* |
| **Adolygiad o Wariant** | *Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys ei Mawrhydi yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett. Dyma'r dull a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.* |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | *Cyfanswm rheoli gan Drysorlys EM yw hwn ac mae'n cynnwys y Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.* |
| **Cronfa Wrth Gefn Cymru** | *Mae Cronfa wrth Gefn Cymru, sydd ar waith ers mis Ebrill 2018, yn arf newydd a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gronfa i gynilo'r refeniw a fydd yn weddill o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa gadw hyd at £350m, gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa* |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | *Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.* |
| **CNLIC** | *Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.* |